# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR PENSIYNAU**

Dyddiad ac Amser

**2.00 y.h., DYDD IAU, 19EG IONAWR, 2017**

Lleoliad

**Ystafell Gwyrfai, Swyddfeydd y Cyngor, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1SH**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679878**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd 13 Ionawr 2017)

# PWYLLGOR PENSIYNAU

## AELODAETH (7)

## Plaid Cymru (3)

Y Cynghorwyr

Peredur Jenkins | W. Tudor Owen | Simon Glyn

## Annibynnol (2)

Y Cynghorwyr

Trevor Edwards | John Pughe Roberts

## Llafur (1)

Y Cynghorydd Glyn Thomas

## Democratiaid Rhyddfrydol (1)

Y Cynghorwyr Stephen W. Churchman

## Aelodau Cyfetholedig

Hywel Eifion Jones Cyngor Môn
Margaret Lyon Cyngor Bwrdeistref Conwy

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. COFNODION 4 - 8

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 20.10.16 a 10.11.16 fel rhai cywir

## 5. DATGANIAD STRATEGAETH CYLLIDO 2017/18 - 2019/20 9 - 52

Ystyried adroddiad y Rheolwr Buddsoddi

## 6. DATGANIAD STRATEGAETH BUDDSODDI 2017/18 - 2019/20 53 - 63

Ystyried adroddiad y Rheolwr Buddsoddi

## 7. PWL BUDDSODDI CYMRU 64 - 110

Ystyried adroddiad y Pennaeth Cyllid

---

**PWYLLGOR PENSIYNAU ARBENNIG, 20.10.2016**

---

**Yn bresennol**: Y Cynghorwyr: Stephen Churchman (Cadeirydd), Peredur Jenkins, Margaret Lyon (Cynrychiolydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), W Tudor Owen, John P. Roberts a Sharon Warnes (Cadeirydd y Bwrdd Pensiynau)

Swyddogion:- Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Iwan Evans (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol), Nicholas Hopkins (Rheolwr Pensiynau), a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Trevor Edwards, Seimon Glyn, Glyn Thomas a H. Eifion Jones (Cynrychiolydd Cyngor Sir Ynys Môn),

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. PWL BUDDSODDI CYMRU**

(a) Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Cyllid yn hysbysu'r Aelodau o'r cynnydd oedd wedi ei wneud yn datblygu Pŵl Buddsoddi Cymru i reoli asedau buddsoddi wyth Cynllun Pensiwn Llywodraeth Lleol yng Nghymru ar sail gydweithredol. Nodwyd bod y prosiect wedi symud yn ei flaen ers cytuno sefydlu Cerbyd Buddsoddi Cyffredin yn Medi 2015, gyda gwybodaeth ychwanegol o'r broses wedi ei gyflwyno yn Chwefror 2016 (ar yr hyn oedd i'w gyflwyno i'r DCLG) ac yn ddiweddarach ym Mehefin 2016 (ar y cyflwyniad i'r Trysorlys a'r DCLG).

(b) Amlygwyd bod angen adrodd yn gyson ar y bwriad o gyd-fuddsoddi gan rannu gwybodaeth gyfredol i sicrhau cysondeb. Adroddwyd bod gweinyddiaeth Cronfa Gwynedd yn aros yng Ngwynedd gyda'r buddsoddi yn digwydd yn rhannol gan Wynedd a'r Pŵl Buddsoddi Cymru. Cadarnhawyd y byddai'r Pwyllgor Pensiynau yn parhau i osod y Strategaeth Fuddsoddi ac yn penderfynu faint o asedau fydd angen eu rhoi mewn categorïau. Wedi cytuno ar y portffolio, bydd yr elfennau hynny yn cael eu trosglwyddo i'r rheolwr (operator) weithredu arnynt, gan benodi rheolwyr (cwmnïau) i fuddsoddi ar ran yr wyth cronfa yng Nghymru.

(c) Ategwyd bod yr wyth cronfa yng Nghymru yn gyson a chytûn bod angen sefydlu Cydbwyllgor ar y Cyd fyddai'n gosod trefn llywodraethu i sicrhau atebolrwydd a herio penderfyniadau. I weithredu hyn, awgrymwyd bod un cynrychiolydd o bob un o'r wyth gronfa yn cael ei gynnwys ar y Cydbwyllgor yma.

Cyfeiriwyd at gynnwys yr adroddiad ynghyd a'r memorandwm o ddealltwriaeth (drafft) a oedd yn egluro sut fyddai'r drefn yn gweithredu yn y tymor byr ac i'r dyfodol.

ch) Wrth ystyried y camau nesaf, eglurodd y Pennaeth Cyllid bydd adroddiad ffurfiol i'w gyflwyno i'r Cyngor Llawn ym Mawrth 2017 fydd yn argymell i'r Cyngor addasu cyfansoddiad y Cyngor i'r dyfodol, fel bydd y Cydbwyllgor ar y Cyd yn cael rhywfaint o'r grym fu gan y Pwyllgor Pensiynau.

(d) Cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, wrth symud ymlaen i drefn ffurfiol o sefydlu Cydbwyllgor Cenedlaethol ar y Cyd, bod angen sefydlu camau cychwynnol i ddechrau proses caffael ar gyfer trefn buddsoddi newydd. O ganlyniad, amlygwyd mai priodol oedd cael fframwaith llywodraethu glir. Nodwyd nad oedd y memorandwm o ddealltwriaeth yn clymu'r Cyngor yn gyfreithiol i'r broses, ond yn creu fframwaith i sicrhau mewnbwn Cadeiryddion a Phrif Swyddogion Cyllid i'r broses a chaniatáu i'r gwaith cychwynnol ddechrau. Ychwanegwyd nad oedd gan y Cydbwyllgor hawliau i wneud penderfyniadau, dim ond hawl i argymell a chefnogi'r broses gan roi cyfeiriad yn ôl yr angen.

(dd) Amlygodd y Cadeirydd bod llawer o waith ychwanegol wedi cael ei wneud gan Adran Cyllid ac Adran Gyfreithiol Cyngor Gwynedd a diolchwyd i'r holl swyddogion oedd ynghlwm a'r gwaith hynny.

**PENDERFYNWYD**

i. **bod y Pwyllgor yn nodi'r cynnydd yn natblygiad Pŵl Buddsoddi Cymru.**
ii. **bod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r Memorandwm o Ddealltwriaeth drafft.**
iii. **bod y Pwyllgor yn dirprwyo hawl i'r Pennaeth Cyllid gytuno unrhyw newidiadau i'r Memorandwm o Ddealltwriaeth, mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd.**
iv. **bod y Pwyllgor yn penodi y Cadeirydd, y Cynghorydd Stephen Churchman, i gynrychioli'r Pwyllgor ar y Grŵp Cadeiryddion ar y Cyd, neu'r Is Gadeirydd, y Cynghorydd Peredur Jenkins, yn absenoldeb y Cadeirydd.**

Dechreuodd y cyfarfod am 1pm a daeth i ben 1:20pm

# PWYLLGOR PENSIYNAU 10.11.2016

**Yn bresennol**: Y Cynghorwyr: Stephen Churchman (Cadeirydd), Trevor Edwards, Peredur Jenkins, H. Eifion Jones (Cynrychiolydd Cyngor Sir Ynys Môn), Margaret Lyon (Cynrychiolydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), John P. Roberts, Glyn Thomas a Huw Trainor (Aelod o'r Bwrdd Pensiynau)

Swyddogion:- Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Caroline Roberts (Rheolwr Buddsoddi), Nicholas Hopkins (Rheolwr Pensiynau) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau)

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Seimon Glyn a Tudor Owen

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Dim i'w nodi

## 3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi

## 4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 15fed o Fedi 2016 fel rhai cywir.

## 5. RHEOLAETH TRYSORLYS 2016/17 – ADOLYGIAD CANOL BLWYDDYN

Rhoddwyd cyflwyniad a chefndir yr adroddiad, er gwybodaeth, gan y Rheolwr Buddsoddi yn egluro ei bod yn ofynnol dan Gôd Ymarfer CIPFA i gynghorau adrodd ar berfformiad y swyddogaeth rheoli trysorlys o leiaf ddwywaith y flwyddyn. Amlygwyd yn yr adroddiad weithgareddau'r trysorlys ynghyd a'r monitro risg a rheolaeth risg gysylltiedig.

Nodwyd bod cyfraddau llog y Banc cyfradd sylfaenol wedi lleihau i 0.25% ym mis Awst a byddai effaith hyn yn cymryd amser i weithio drwy'r system. Awgrymwyd hefyd y byddai'r cyfraddau llog yn debygol o leihau ymhellach gyda sylw yn cael ei wneud ar gyflwyno cyfraddau llog negyddol. Amlygwyd bod seminar yn cael ei gynnal ym mis Ionawr gydag Arlingclose (Ymgynghorwyr Trysorlys y Cyngor) i drafod rheolaeth trysorlys - nodwyd bod aelodau'r Pwyllgor Archwilio eisoes wedi cael cynnig a bod y gwahoddiad hynny yn cael ei ymestyn i aelodau'r Pwyllgor Pensiynau.

Yng nghyd-destun buddsoddiadau Banc Heriatable, nodwyd bod yr awdurdod bellach wedi adennill 98% o fuddsoddiadau gyda'r tebygolrwydd y bydd dosraniadau pellach.

**PENDERFYNWYD DERBYN YR ADRODDIAD ER GWYBODAETH**

## 6. PRISIAD ACTIWARÏAID 2016 - DIWEDDARIAD AR Y BROSES

Yn dilyn derbyn cyfraddau unigol cyfraniadau cyffredinol cyflogwyr bore'r 10fed o Dachwedd, adroddwyd bod y sefyllfa yn un dda. O ran lefel cyllido ar sail ariannu cytunedig, nodwyd bod y diffyg ariannu wedi ei leihau o 85% yn 2013 i 91% yn 2016. Adroddwyd mai'r prif reswm dros y newid oedd bod y dychweliadau buddsoddi wedi bod yn well na'r hyn a ragwelwyd. Nodwyd y byddai lefel cyfraniadau pensiwn cyflogwr i ariannu ymrwymiadau gwasanaeth y gorffennol yn lleihau. Fodd bynnag, bydd prisiad ymrwymiadau gwasanaeth y dyfodol, a lefel cyfraniadau pensiwn cyflogwyr bydd ei angen er mwyn ariannu'r ymrwymiadau hynny, yn cynyddu.

**PENDERFYNWYD DERBYN YR ADRODDIAD**

## 7. PŴLIO BUDDSODDIADAU

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Buddsoddi yn darparu diweddariad ar y sefyllfa o pŵlio buddsoddiadau yng Nghymru. Atgoffwyd yr aelodau bod yr 8 gronfa CPLlL yng Nghymru wedi cyflwyno cynnig i Lywodraeth y DU er mwyn galluogi pwlio eu buddsoddiadau o £13bn. Prif amcan y fenter yw cyflawni arbedion ar gostau rheolaeth buddsoddiadau trwy ddarbodion maint a darparu mynediad i'r cronfeydd at gyfleoedd buddsoddi dichonol ystod eang.

Adroddwyd bod y fenter yn creu gwaith ychwanegol, manwl a chymhleth e.e., - trefniadau cydweithio, ymofyn cyngor cyfreithiol a sefydlu cytundebau. Er hynny, bydd llwyddiant y fenter yn sicrhau dychweliadau gwell i'r gronfa.

Mewn ymateb i gwestiwn, adroddwyd y byddai Cronfa Gwynedd yn parhau fel cronfa unigol ac y byddai'r Pwyllgor Pensiynau yn parhau i ddewis y rhaniad o'r portffolio rhwng y categoriau o fuddsoddiadau, ond bod y cwmniau sy'n rheoli'r buddsoddiadau hynny yn opsiynau o fewn y pwl.

**PENDERFYNWYD DERBYN YR ADRODDIAD ER GWYBODAETH**

## 8. DIWEDDARIAD AR YR YMARFERIAD CYSONI ISAFSWM PENSIWN GWARANTEDIG (IPG)

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Pensiynau ar yr ymarferiad o gysoni Isafswm Pensiwn Gwarantedig (IPG). Atgoffwyd yr aelodau bod y Pwyllgor yn ei gyfarfod ar y 15fed o Dachwedd 2015 wedi cymeradwyo sefydlu tîm mewnol i gysoni'r IPG yn unol ag argymhellion CThEM. Er mwyn cwblhau'r dasg erbyn 31 Mawrth 2018, eglurwyd bod angen ymestyn cytundebau gwreiddiol aelodau'r timau er mwyn ymateb i'r cynnydd yn y gwaith (cyfanswm costau o Ionawr 2017 - Mawrth 2018 = £81,972). Amlygwyd byddai'r gost yn rhesymol iawn o gymharu â chronfeydd eraill Cymru gan fod rhai yn ystyried allanoli'r gwaith, ar gost a amcangyfrifwyd yn £500k.

Yn ychwanegol, nodwyd bod y Trysorlys, i symleiddio'r broses o gysoni data, wedi argymell bod y swm IPG wythnosol a delir gan y Cynllun Pensiwn Sector Gyhoeddus a CThEM, o fewn lefel goddef o £2 yr wythnos. Nodwyd bod y Llywodraeth yn awgrymu y dylid sicrhau cymeradwyaeth y Pwyllgor ar gyfer y lefel goddef yma.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â chostau ymestyn cytundebau, adroddwyd bod arbenigrwydd unigryw yn bodoli o fewn y tîm, ac felly synnwyr cyffredin fyddai defnyddio'r adnodd werthfawr yma.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â lefel goddef o £2 yr wythnos, amlygwyd bod yr ymarfer yn galluogi ein staff i gau ffeil, yn hytrach na chanolbwyntio yn ormodol a'r fanylion mân.

**PENDERFYNWYD DERBYN YR ADRODDIAD**

**i. CYMERADWYO PARHAU I ARIANNU'R PROSIECT CYSONI HYD AT DDIWEDD MAWRTH 2018, ER MWYN CANIATÁU I'R PENNAETH CYLLID YMESTYN CYTUNDEBAU Y STAFF DROS DRO.**

**ii. CYMERADWYO LEFEL GODDEFIANT O £2 YR WYTHNOS ER MWYN SYMLEIDDIO'R BROSES O GYSONI GWYBODAETH.**

Dechreuodd y cyfarfod am 1pm a daeth i ben 1:20pm

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR PENSIYNAU** |
| **DYDDIAD** | **19 IONAWR 2017** |
| **TEITL** | **DATGANIAD STRATEGAETH CYLLIDO 2017/18 – 2019/20** |
| **ARGYMHELLIAD** | **I GADARNHAU'R TYBIAETHAU I'W CYMRYD YN Y DATGANIAD STRATEGAETH CYLLIDO** |
| **AWDUR** | **CAROLINE ROBERTS, RHEOLWR BUDDSODDI** |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'n ofynnol arnom i adolygu a chyhoeddi Datganiad Strategaeth Cyllido (DSC) teirblynyddol erbyn 31 Mawrth 2017. Cafodd DSC cyfredol Gwynedd ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Pensiynau ar 17 Mawrth 2014.

1.2 Fel rhan o'r adolygiad bydd yn rhaid i'r awdurdod sy'n gweinyddu ymgynghori gyda'r cyflogwyr sy'n rhan o'r cynllun, yr actiwari ac ymgynghorydd y gronfa, ac unrhyw rai eraill rydym yn ystyried yn addas.

## 2. PRISIAD ACTIWARÏAID

2.1 Cynhelir y prisiad actiwaraidd teirblynyddol ar hyn o bryd. Roedd canlyniadau rhagarweiniol ar gael ym mis Tachwedd a'u trafodwyd gyda'r cyflogwyr unigol. Darparir adroddiadau terfynol ar gyfer bob cyflogwr ar hyn o bryd .

2.2 Defnyddiwyd y tybiaethau a gytunwyd gyda'r actiwari wrth baratoi'r prisiad actiwaraidd. Mae'r cyfnodau adfer diffyg ar gyfer y gwahanol gategorïau o gyflogwyr yn ddarbodus ac yn gyson gyda'r prisiad blaenorol.

2.3 Mabwysiadwyd system 'Compass' ar gyfer y prisiad cynt er mwyn datblygu cynllun tymor hirach ar gyfer cyfraniadau'r cyflogwyr sydd â sicrwydd o ddyfodol hir dymor. Mae hyn yn lledaenu'r newid mewn cyfraniadau dros gyfnod hirach, ac yn cyfyngu'r newid mewn blynyddoedd unigol. Defnyddiwyd y system hon yn y prisiadau 2013 a 2016 ar gyfer y cyflogwyr perthnasol. Ar gyfer y cyflogwyr yma mae'n briodol cadw at gyfradd cyfraniadau ar yr un lefel a 2016/17.

2.4 Fel rhan y prisiad 2013 penderfynodd y pwyllgor hwn diddymu'r ddau bwll cyflogwyr llai a bydd yswiriant salwch yn hanfodol ar gyfer y cyflogwyr perthnasol. Bydd hyn yn parhau yn dilyn y prisiad 2016.

2.5 Roedd y canlyniadau rhagarweiniol a darparwyd i bob cyflogwr ym mis Tachwedd 2016 yn dangos bod nifer o gyflogwyr gyda gwarged ac felly nid oes angen iddynt wneud taliadau diffyg dros y tair blynedd nesaf. Nid yw rhai cyflogwyr yn y sefyllfa yma ac felly bydd angen iddynt dalu cyfraniadau diffyg bob mis.

2.6 Gan mae'n debyg bydd bob cyflogwyr yn gorfod parhau i wneud arbedion dros y tair blynedd nesaf, mae'n ddarbodus i gasglu cyfraniadau cyflogwyr ynglŷn â'r diffyg cronedig fel swm arian sefydlog dros 12 mis y flwyddyn. Mae hyn yn parhau'r polisi a mabwysiadwyd tair blynedd yn ôl ac yn gwarchod llif arian y gronfa bensiwn os oes

newidiadau sylweddol yn y gyflogres oherwydd lleihad yn nifer y gweithwyr a chyflogir.

2.7 Cynhaliwyd cyfarfod cyflogwyr ar 10 Tachwedd 2016 a chyflwynwyd a thrafodwyd canlyniadau actiwaraidd rhagarweiniol.

## 3. DATGANIAD STRATEGAETH CYLLIDO (DSC) DRAFFT

3.1 Gweler drafft o'r DSC yn Atodiad A. Mae'r ddogfen yn gyflawn heblaw am ganlyniadau un cyflogwr. Danfonwyd y drafft at yr actiwari, Hymans Robertson am sylwadau ac adroddir eu hymateb yn y cyfarfod.

3.2 Mae angen i'r Pwyllgor cadarnhau'r polisïau arfaethedig yn y DSC drafft fydd yn destun ymgynghoriad gyda holl gyflogwyr y Gronfa. Felly, gofynnir i'r Pwyllgor benderfynu ar y materion canlynol.

3.3 **Y PREMIWM RISG GYDAG ECWITI**

Yr enillion ychwanegol disgwyliedig o fuddsoddi mewn ecwiti yn hytrach na bondiau. Cyfeiria hyn at y gwahaniaeth rhwng yr enillion a ddisgwylir o ecwiti a'r enillion a ddisgwylir o fondiau. Fel mae'r rhagdybiaeth o'r gwahaniaeth rhwng yr enillion disgwyliedig yn cynyddu, mae'r risg yn cynyddu a'r sail cyllido yn mynd yn llai darbodus. Ym mhrisiant 2013 roedd y dybiaeth ar gyfer yr enillion ychwanegol disgwyliedig o fuddsoddi mewn ecwiti yn 1.4%. Oherwydd bod cyfraddau bondiau, sydd yn cael eu defnyddio i gyfrifo ymrwymiadau yn y dyfodol, ar lefel hanesyddol isel ar 31 Mawrth 2013 mae'r ymrwymiadau yma wedi cynyddu. Mae'r gyfradd bondiau wedi gwella ers hynny a disgwylir cynnydd yn y tymor hirach felly mae'r dychweliadau ychwanegol disgwyliedig o fuddsoddiadau mewn ecwiti wedi ei gosod ar 1.7%. Bydd hyn yn llyfnhau cyfraniadau cyflogwyr dros gyfnod eithriadol a cheir ei adolygu yn y prisiad nesaf gyda'r amcan i ostwng i 1.4% pan mae dychweliadau giltiau yn gwella.

3.4 **CYFNOD AR GYFER ADFER DIFFYG**

Ym mhrisiant 2010 parhaodd yr awdurdod gweinyddol gyda'r cyfnodau adfer diffyg fel y ganlyn:

- Cyrff statudol – 20 mlynedd
- Grŵp Landrillo Menai - 15 mlynedd
- Bob cyflogwr arall – gweddill oes gwaith

Defnyddir y cyfnodau uchod ar gyfer prisiadau 2013 a 2016 hefyd.

3.5 **PRIF GYRFF GYDA PHWERAU CODI TRETHI**

Bydd prif gyrff gyda phwerau codi trethi yn dal i dalu'r un gyfradd cyfraniadau a'r gyfradd 2016/17.

3.6 **CYFLWYNO CYNNYDD MEWN CYFRANIADAU YN RADDOL**

Heblaw am Gyrff Gwerth Gorau a Ganiateir, mae'r rheoliadau yn caniatáu i'r holl gyflogwyr gyflwyno cynnydd mewn cyfraniadau yn raddol. Ym mhrisiad 2010, penderfynodd y Pwyllgor a gellir cyflogwyr sydd yn wynebu codiad yn symud at y gyfradd uwch dros nifer o flynyddoedd yn amodol ar feini prawf penodol. Ar gyfer codiadau'r prisiad 2016 gellir eu lledaenu dros 6 mlynedd. Bydd cyflogwyr sydd gyda gostyngiad yn eu cyfraddau cyfraniadau yn symud yn syth i'r gyfradd newydd ar 1 Ebrill 2017.

3.7 **CASGLU DIFFYGION**

Mae cyflogwyr sydd mewn diffyg yn talu cyfraniadau cyflogwyr ychwanegol er mwyn adennill y diffyg. Roedd y polisi ar gyfer y prisiad 2013 i ddatgelir taliadau diffyg fel cyfandaliad arian i'w talu mewn 12 rhandaliad misol fel rhan o'u cyfraniadau cyflogwr. Bydd y polisi hwn yn parhau yn dilyn prisiad 2016.

## 4. CRYNODEB

Cyn ymgynghori a'r cyflogwyr ar y Datganiad Strategaeth Cyllido, gofynnir i'r Pwyllgor cadarnhau'r rhagdybiaethau a pholisïau a amlinellir yn rhan 3 o'r adroddiad hon.

Yn dilyn y broses ymgynghori derbynnir fersiwn terfynol Datganiad Strategaeth Cyllido gan y pwyllgor er mwyn ei mabwysiadau erbyn 31 Mawrth 2017.

**ATODIAD A**

# Cronfa Bensiwn Gwynedd

# Datganiad Strategaeth Gyllido

## 1. Cyflwyniad

### 1.1 Beth yw'r ddogfen hon?

Dyma Ddatganiad Strategaeth Gyllido (FSS) Cronfa Bensiwn Gwynedd ("y Gronfa"), a weinyddir gan Gyngor Gwynedd ("yr Awdurdod Gweinyddu").

Fe'i paratowyd gan yr Awdurdod Gweinyddu ar y cyd ag actwari'r Gronfa, Hymans Robertson LLP, ac mewn ymgynghoriad â chyflogwyr ac ymgynghorwyr buddsoddi'r Gronfa. Mae'n weithredol o 26 Mawrth 2017.

### 1.2 Beth yw Cronfa Bensiwn Gwynedd?

Mae'r Gronfa'n rhan o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS) cenedlaethol. Sefydlwyd y CPLlL gan Lywodraeth y DU i weithwyr llywodraeth leol, a gweithwyr eraill sydd wedi'u cyflogi gan gyrff tebyg neu gysylltiedig ledled y DU, er mwyn iddynt gael buddion wrth iddynt ymddeol ac ar ôl iddynt farw. Yr Awdurdod Gweinyddu sy'n rhedeg Cronfa Bensiwn Gwynedd, sef CPLlL ardal Gwynedd, ac mae'n sicrhau ei fod:

- yn derbyn cyfraniadau priodol gan weithwyr a chyflogwyr, a thaliadau trosglwyddo priodol;
- yn buddsoddi'r cyfraniadau'n briodol, gyda'r nod i asedau'r Gronfa dyfu dros amser yn sgil incwm o fuddsoddiadau a thwf cyfalaf; ac
- yn defnyddio'r asedau hynny i dalu buddion o'r Gronfa i aelodau (pan maent yn ymddeol, ac am weddill eu hoes), ac i'w dibynyddion (pan mae aelodau'n marw), yn unol â diffiniadau Rheoliadau'r CPLlL. Fel arfer, defnyddir asedau hefyd i dalu gwerthoedd trosglwyddo a chostau gweinyddol.

Gweler crynodeb o rolau a chyfrifoldebau'r partïon allweddol sy'n gysylltiedig â rheoli'r Gronfa yn Atodiad B.

### 1.3 Pam fod angen Datganiad Strategaeth Gyllido ar y Gronfa?

Mae Rheoliadau CPLlL yn gwarantu buddion gweithwyr, ac nid ydynt yn newid yn unol â gwerthoedd y farchnad neu gyfraniadau'r cyflogwr. Bydd yr enillion a ddaw o fuddsoddiadau yn helpu i dalu am rai o'r buddion, ond ddim am y cwbl, ac yn bendant nid oes sicrwydd o hynny. Mae'r Rheoliadau hefyd yn gosod swm penodol i gyfraniadau'r gweithwyr, ar lefel sy'n talu cyfran yn unig o gost y buddion.

Felly, mae angen i gyflogwyr dalu'r hyn sy'n weddill o ran y gost o roi buddion i aelodau a'u dibynyddion.

Mae'r FSS yn canolbwyntio ar sut y mesurir ymrwymiadau'r cyflogwr, pa mor gyflym y caiff yr ymrwymiadau hyn eu hariannu, a sut mae cyflogwyr neu grwpiau o gyflogwyr yn talu am eu hymrwymiadau eu hunain. Amlinella'r datganiad hwn sut mae'r Awdurdod Gweinyddu wedi cydbwyso nodau sy'n tynnu'n groes i'w gilydd:

- fforddiadwyedd cyfraniadau'r cyflogwr,
- tryloywder prosesau,
- sefydlogrwydd cyfraniadau cyflogwyr, a
- bod y sail gyllido yn ddarbodus.

Mae gan FSS ofynion rheoleiddiol hefyd, fel y gwelir yn Atodiad A.

Mae'r FSS yn grynodeb o ddull y mae'r Gronfa yn ei defnyddio i gyllido ei ymrwymiadau, ac mae hyn yn cynnwys cyfeirio at bolisïau eraill y Gronfa; nid yw'n ddatganiad cynhwysfawr o bolisi ar yr holl faterion. Mae'r FFS yn ffurfio rhan o fframwaith sy'n cynnwys:

- Rheoliadau CPLlL;
- y Dystysgrif Cyfraddau ac Addasiadau (sy'n cadarnhau cyfraddau cyfraniadau'r cyflogwr am y tair blynedd nesaf) sydd mewn atodiad i'r adroddiad prisio;
- polisïau'r Gronfa ar dderbyniadau, darfyddiadau a throsglwyddiadau swmpus;
- ffactorau actwaraidd ar gyfer prisio trosglwyddiadau unigol, costau ymddeol yn gynnar a chostau prynu gwasanaeth ychwanegol;
- Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi / Datganiad Strategaeth Fuddsoddi'r Gronfa (gweler Rhan 4)

### 1.4 Sut mae'r Gronfa a'r FSS hwn yn effeithio arnaf i?

Mae'n dibynnu pwy ydych chi:

- aelod o'r Gronfa, h.y. yn weithiwr ar hyn o bryd, yn gyn-weithiwr, neu'n ddibynnydd: mae angen i'r Gronfa fod yn sicr ei bod yn casglu ac yn dal digon o arian er mwyn medru talu eich buddion yn llawn bob tro;
- cyflogwr yn y Gronfa (neu sy'n ystyried ymuno â'r Gronfa): byddwch eisiau gwybod o dro i dro sut mae eich cyfraniadau'n cael eu cyfrifo, a bod hynny'n deg o gymharu â chyflogwyr eraill yn y Gronfa, yn ogystal â pha bryd fyddai angen i chi dalu mwy. Noder bod FSS yn berthnasol i'r holl gyflogwyr sy'n rhan o'r Gronfa;
- Aelod Etholedig sy'n perthyn i gyngor sy'n rhan o'r Gronfa: byddwch eisiau bod yn sicr fod y cyngor yn cydbwyso'r angen i gadw arian darbodus wrth gefn ar gyfer buddion ymddeol a marwolaeth aelodau gyda materion eraill sy'n galw ar arian y cyngor;
- Trethdalwr: mae eich cyngor yn ceisio taro'r cydbwysedd fel yr uchod a hefyd lleihau symud arian fel croes gymhorthdal rhwng gwahanol genedlaethau o drethdalwyr.

### 1.5 Beth mae'r FSS yn bwriadu ei wneud?

Mae'r FSS yn amlinellu beth yw amcanion strategaeth gyllido'r Gronfa, megis:

- sicrhau diddyledrwydd hirdymor y Gronfa, edrych ar bethau yn yr hirdymor mewn modd darbodus. Bydd hyn yn sicrhau bod digon o arian ar gael i fodloni holl fuddion aelodau / dibynyddion wrth iddynt ddod yn daladwy;
- sicrhau bod cyfraddau cyfraniadau cyflogwyr yn weddol sefydlog pan fo hynny'n briodol;

- lleihau'r cyfraniadau arian sydd yn rhaid i gyflogwyr eu talu i'r Gronfa, drwy adnabod y cysylltiad rhwng asedau ac ymrwymiadau a mabwysiadu strategaeth fuddsoddi sy'n cydbwyso risg ac enillion (**DS** bydd hyn hefyd yn lleihau'r gost i drethdalwyr);
- i adlewyrchu gwahanol nodweddion y gwahanol gyflogwyr wrth bennu cyfraddau'r cyfraniadau. Fel rhan o hyn mae'n rhaid i'r Gronfa gael strategaeth gyllido glir a thryloyw i ddangos sut y gall pob cyflogwr gyflawni ei ymrwymiadau yn y modd gorau yn y dyfodol;
- a defnyddio mesurau rhesymol i leihau'r risg i gyflogwyr eraill ac yn y pendraw i drethdalwyr pe bai cyflogwr yn methu talu ei ymrwymiadau pensiwn.

**1.6 Sut mae dod o hyd i bethau yn y ddogfen hon?**

Yn Rhan 2, ceir cyflwyniad bras i rai o brif egwyddorion cyllido, h.y. penderfynu faint ddylai cyflogwr gyfrannu i'r Gronfa o dro i dro.

Yn Rhan 3 ceir amlinelliad o sut mae'r Gronfa'n cyfrifo cyfraniadau gwahanol gyflogwyr mewn gwahanol sefyllfaoedd.

Mae Rhan 4 yn dangos sut mae'r strategaeth gyllido'n cael ei chysylltu i strategaeth fuddsoddi'r Gronfa.

Mae'r Atodiadau'n cynnwys gwybodaeth fanylach ar amrywiaeth o faterion, megis:

A. y cefndir o ran rheoleiddio, gan gynnwys sut a phryd fydd yr FSS yn cael ei adolygu,

B. pwy sy'n gyfrifol am beth,

C. y materion sydd angen i'r Gronfa eu monitro, a sut mae'n rheoli ei risgiau,

D. mwy o fanylion am y cyfrifiadau actwaraidd sydd eu hangen,

E. y rhagdybiaethau sydd gan actwari'r Gronfa am y dyfodol,

F. rhestr termau sy'n egluro'r termau technegol a ddefnyddir yma o dro i dro.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau eraill, gallwch gysylltu yn y lle cyntaf â Caroline Roberts, Rheolwr Buddsoddi drwy anfon e-bost i carolinelesleyroberts@gwynedd.llyw.cymru.

## 2 Materion Cyllido Sylfaenol

(Ceir disgrifiadau manwl a helaeth yn Atodiad D).

**2.1 Sut mae'r actwari'n mesur y gyfradd cyfraniadau sydd ei hangen?**
Mae hon yn broses tri cham:

1. Cyfrifo'r targed cyllido eithaf ar gyfer y cyflogwr hwnnw, h.y. nifer yr asedau y dylai eu dal yn ddelfrydol er mwyn medru talu buddion ei holl aelodau. Gweler Atodiad E am fwy o fanylion ynghylch y rhagdybiaethau yr ydym yn eu gwneud i bennu'r targed cyllido hwnnw;

2. Pennu'r cyfnod amser sydd gan y cyflogwr i gyrraedd y targed cyllido hwnnw. Gweler y tabl yn 3.3 a Nodyn (c) am fwy o fanylion;

3. Cyfrifo cyfradd gyfraniadau'r cyflogwr fel ei bod o leiaf yn debygol o gyflawni'r targed cyllido o fewn y cyfnod amser penodedig, gan ystyried gwahanol ganlyniadau economaidd posib a pha mor debygol ydynt yn ystod y cyfnod amser hwnnw. Gweler 2.3 isod, a'r tabl yn 3.3 Nodyn (e) am fwy o fanylion.

**2.2 Beth yw cyfradd gyfraniadau pob cyflogwr?**
Caiff hyn ei ddisgrifio'n fanylach yn Atodiad D. Fel arfer mae cyfraniadau cyflogwr yn cynnwys dwy elfen:

a) amcan o gost y buddion wrth iddynt gynyddu pob blwyddyn, ar ôl tynnu cyfraniadau'r aelod ei hun a chynnwys costau gweinyddol. Gelwir hyn yn "*y gyfradd sylfaenol*" a chaiff ei mynegi fel canran o dal pensiynadwy'r aelodau; yn ogystal ag

b) addasiad am y gwahaniaeth rhwng y raddfa Sylfaenol uchod a'r cyfraniad gwirioneddol mae angen i'r cyflogwr ei dalu, y cyfeirir ato fel y "*gyfradd eilaidd*". Yn gyffredinol, nod talu'r gyfradd Eilaidd fydd sicrhau i'r cyflogwr ddychwelyd i gyllid llawn dros gyfnod priodol (y "*cyfnod amser*"). Gellir mynegi'r gyfradd Eilaidd fel canran y cyflog a/neu fel swm ariannol ym mhob blwyddyn.

Mae cyfraddau pob cyflogwr i'w gweld yn Nhystysgrif Cyfraddau ac Addasiadau'r Gronfa, sy'n ffurfio rhan o'r Adroddiad Prisio Actiwarïaid. Caiff cyfraniadau'r cyflogwyr eu mynegi fel lleiafswm, a bydd cyflogwyr yn medru talu cyfraniadau ar gyfradd uwch. Bydd actwari'r Gronfa yn cyfrif unrhyw gyfraddau uwch yn y prisiadau nesaf, h.y. bydd yn cael ei adlewyrchu fel credyd y tro nesaf caiff cyfraniadau'r cyflogwr eu cyfrifo.

**2.3 Pa fathau o gyflogwyr sy'n rhan o'r Gronfa?**
Yn hanesyddol, roedd y CPLlL ar gyfer gweithwyr awdurdod lleol yn unig. Fodd bynnag, dros y blynyddoedd, yn sgil arallgyfeirio a newidiadau i ddarpariaeth gwasanaethau lleol, mae llawer mwy o gyflogwyr gwahanol bellach yn rhan o'r Gronfa.

Yn y bôn, caiff gweithwyr o'r sector cyhoeddus sy'n darparu rhyw fath o wasanaeth i'r gymuned leol fod yn rhan o'r CPLlL. Er mai gweithwyr awdurdod lleol (a chyn-weithwyr) fydd y mwyafrif o'r aelodau, mae'r rhan fwyaf o gyflogwyr sy'n rhan o'r gronfa yn rhai sy'n darparu gwasanaeth yn lle (neu ar y cyd) gwasanaethau awdurdodau lleol: ysgolion academi, contractwyr, cymdeithasau tai, elusennau ac ati.

Mae Rheoliadau CPLlL yn diffinio'r gwahanol fathau o gyflogwyr fel a ganlyn:

**Cyrff ar yr atodlen** - cynghorau, a chyflogwyr penodol eraill megis ysgolion academi a sefydliadau addysg bellach. Rhaid i'r rhain adael i weithwyr nad ydynt yn gymwys i ymuno ag unrhyw gynllun sector cyhoeddus arall (megis Cynllun yr Athrawon) gael mynediad i'r CPLlL. Gelwir y cyflogwyr yn hyn am eu bod wedi cael eu henwi mewn atodlen yn Rheoliadau CPLlL.

**Cyflogwyr sy'n dynodi** - gall cyflogwyr megis cynghorau tref a chymuned fod yn rhan o CPLlL drwy benderfyniad (ac ni chaiff y Gronfa wrthod mynediad os yw'r penderfyniad wedi'i gymeradwyo). Gall y cyflogwyr hyn ddynodi pa weithwyr sy'n gymwys i ymuno â'r CPLlL.

Gall cyflogwyr eraill fod yn rhan o'r Gronfa drwy gael cytundeb derbyn, a chyfeirir at y rhain fel 'cyrff a ganiateir'. Fel arfer mae gan y cyflogwyr hyn sydd â "chymuned o ddiddordeb" gyda chyflogwr arall yn y cynllun - **cyrff cymunedol a ganiateir** (“CAB”) neu'r sawl sy'n darparu gwasanaeth ar ran cyflogwr sy'n rhan o'r cynllun - **cyrff trosglwyddo a ganiateir** (“TAB”). Bydd y CABs yn cynnwys cymdeithasau tai ac elusennau, ac yn gyffredinol, contractwyr yw'r TABs. Mae'r Gronfa'n medru gosod meini prawf i bennu a gaiff cyflogwyr fod yn rhan ohoni ai peidio. Gall wrthod gadael iddynt gymryd rhan os nad ydynt yn cyrraedd y gofynion a amlinellir ym mholisi mynediad y Gronfa. (DS Nid yw'r termau CAB a TAB yn cael eu defnyddio mewn Rheoliadau CPLlL diweddar, yn hytrach cyfunir y ddau dan un term, sef 'cyrff a ganiateir'; fodd bynnag, rydym wedi cadw at yr hen dermau fan hyn gan fod hynny'n ddefnyddiol ar gyfer sefydlu strategaethau cyllido ar gyfer y gwahanol gyflogwyr).

### 2.4 Sut mae’r gyfradd gyfraniadau a fesurir yn amrywio i wahanol gyflogwyr?

Ystyrir pob un o'r tri cham uchod wrth bennu cyfraniadau (rhoddir mwy o fanylion yn Rhan 3 ac Atodiad D).

1. Mae'r **targed cyllido** yn seiliedig ar gyfres o ragdybiaethau am y dyfodol, (e.e. enillion buddsoddi, chwyddiant, disgwyliad oes pensiynwyr). Er hynny, os yw cyflogwr yn dod at ddiwedd ei gyfranogiad yn y Gronfa yna gellid gosod ei darged cyllido ar sail fwy darbodus, fel bod ei ymrwymiadau yn llai tebygol o gael eu gwasgaru ymysg cyflogwyr eraill ar ôl iddo derfynu ei gyfranogiad;

2. Yn gyffredinol, y **cyfnod amser** felly yw'r cyfnod sydd ei angen i adennill unrhyw ddiffyg. Bydd cyfnod llai yn arwain at gyfraniadau uwch ac fel arall (os fydd popeth arall yn ei le). Efallai y bydd cyflogwyr yn cael cyfnod amser llai os oes ganddynt aelodaeth ragweladwy lai parhaol neu os nad oes ganddynt bwerau i godi trethi i gynyddu cyfraniadau pe bai enillion ar fuddsoddiadau yn llai na'r disgwyl;

3. Bydd y **tebygolrwydd o gyflawni'r** targed cyllido yn ystod y cyfnod amser hwnnw yn ddibynnol ar farn y Gronfa ar gryfder ymrwymiadau cyfreithiol a gallu ariannol y cyflogwr yn ogystal â'i broffil cyllido. Pan ystyrir fod cyflogwr yn wannach, neu o bosib yn rhoi'r gorau i'r Gronfa, yna bydd y tebygolrwydd fydd ei angen yn cael ei osod yn uwch a fydd yn ei dro yn cynyddu'r cyfraniadau sydd eu hangen (ac fel arall).

Rhaid i'r cyflogwr dalu costau unrhyw ymddeoliadau cynnar nad ydynt ar sail salwch, gweler 3.6.

Ceir manylion ar gostau ymddeoliadau cynnar ar sail salwch yn 3.7 a 3.8.

.

**2.5 Sut mae cyfrifo diffyg (neu warged)?**
Diffinnir "lefel gyllido" cyflogwr fel cymhareb:

- gwerth cyfran asedau'r cyflogwr ar y farchnad (gweler Atodiad D, Rhan D5 am fwy o fanylion am sut y caiff hyn ei gyfrifo), i'r
- gwerth y mae'r actwari yn ei roi ar y buddion sydd wedi cronni hyd yn hyn ar gyfer gweithwyr a chyn-weithwyr y cyflogwr (yr "ymrwymiadau"). Mae actwari'r Gronfa yn cytuno ar y rhagdybiaethau sydd i'w defnyddio i gyfrifo'r gwerth hwn gyda'r Awdurdod Gweinyddu.

Os yw hyn yn llai na 100% bydd gan y cyflogwr ddiffyg, a hwn yw diffyg y cyflogwr; os yw'n fwy na 100% yna dywedir fod gan y cyflogwr warged. Cyfrifir y diffyg neu'r gwarged trwy edrych ar y gwahaniaeth rhwng gwerth yr asedau a gwerth yr ymrwymiadau.

Mae'n bwysig nodi mai dim ond mesuriadau ar un adeg benodol mewn amser yw'r diffyg/gwarged a'r lefel gyllido, a hynny'n seiliedig ar gyfres benodol o ragdybiaethau am y dyfodol. Er ein bod yn cydnabod y bydd gan amrywiol bartïon ddiddordeb yn y mesurau hyn, y prif fater i'r rhan fwyaf o gyflogwyr yw pa mor debygol yw hi y bydd eu cyfraniadau'n ddigon i dalu am fuddion eu haelodau (ar ôl eu hadio i'w cyfran asedau cyfredol ac enillion buddsoddi disgwyliedig).

Yn fyr, mae diffygion a lefelau cyllido yn fesurau byrdymor, ond mae pennu cyfraniadau yn fater mwy hirdymor.

**2.6 Sut mae'r Gronfa'n adnabod y gall lefel y cyfraniadau effeithio ar ddarpariaeth gwasanaeth y cyngor a chyflogwyr ac ar y dreth gyngor?**
Mae'r Awdurdod Gweinyddu ac actwari'r Gronfa yn ymwybodol iawn, os yw popeth arall yn hafal, y bydd gorfod talu cyfraniad uwch i'r Gronfa yn golygu fod llai o arian ar gael i'r cyflogwr ei wario ar ddarparu gwasanaethau. Er enghraifft:

- Gall cyfraniadau uwch i'r Gronfa Bensiwn arwain at lefelau is o wariant gan y cyngor, a gall hynny yn ei dro effeithio ar yr adnoddau sydd ar gael i wasanaethau'r cyngor, a/neu roi mwy o bwysau ar lefelau'r dreth gyngor;
- Bydd cyflogwyr eraill yn darparu gwahanol wasanaethau i'r gymuned leol, efallai trwy gymdeithasau tai, gwaith elusennol neu drwy gontractio gwasanaethau'r cyngor. Os oes angen iddynt dalu mwy o gyfraniadau pensiwn i'r CPLlL gall hyn effeithio ar eu gallu i ddarparu gwasanaethau lleol am gost resymol.

Er bod hyn i gyd yn wir, dylid cadw mewn cof hefyd:

- Mae'r Gronfa'n cynnig sicrwydd ariannol amhrisiadwy i deuluoedd lleol, boed hynny i'r sawl sydd wedi gweithio yn y gorffennol i wasanaethu eu cymuned leol a bellach wedi ymddeol, neu i'w teuluoedd ar ôl iddynt farw;
- Rhaid i'r Gronfa gael yr asedau i allu talu am y buddion ymddeol a marwolaeth sydd yn ei dro'n golygu fod yn rhaid i bob un o'r gwahanol gyflogwyr dalu drostynt eu hunain. Bydd talu cyfraniadau is heddiw yn golygu fod yn rhaid talu mwy fory: nid yw gohirio talu yn newid cyfanswm ymrwymiad y cyflogwr i'r Gronfa o ran ei weithwyr a'i gyn-weithwyr.
- Yn gyffredinol, bydd pob cyflogwr ond yn talu am ei weithwyr a'i gyn-weithwyr (a'u dibynyddion) ei hun, ac nid am rai cyflogwyr eraill sy'n rhan o'r Gronfa;

- Ymdrecha'r Gronfa i gynnal cyfraddau cyfraniadau cyflogwr gweddol sefydlog pan fo hynny'n briodol ac yn bosib. Fodd bynnag, mae symudiad diweddar yn yr hun a gaiff ei reoleiddio yn golygu fod y Llywodraeth yn blaenoriaethu diddyledrwydd o fewn pob cenhedlaeth dros sefydlogrwydd y cyfraddau cyfraniadau;

- Dymuna'r Gronfa osgoi sefyllfa lle mae cyflogwr ar ei hôl hi gymaint wrth reoli ei ddiffyg cyllido nes nad oes modd ei reoli: gall sefyllfa o'r fath wneud y cyflogwr yn fethdalwr a byddai'n rhaid i gyflogwyr eraill y Gronfa fod yn gyfrifol am y diffyg. Mewn sefyllfa o'r fath, byddai gwasanaethau'r cyflogwyr hynny'n dioddef o ganlyniad;

- Dylai bod lefel cyfraniadau'r cyngor i'r Gronfa yn un addas er mwyn gwarchod buddiannau'r gwahanol genedlaethau o drethdalwyr. Er enghraifft, bydd angen gwneud yn iawn am fethiant i dalu digon o gyfraniadau yn rhai blynyddoedd drwy dalu gormod mewn blynyddoedd eraill; bydd y cyngor yn dymuno lleihau cymaint â phosib y graddau y bydd trethdalwyr yn elwa ar draul rhai sy'n talu ar adeg wahanol.

Drwyddi draw, mae'n amlwg fod angen taro cydbwysedd rhwng yr angen i'r Gronfa gynnal lefelau cyllido darbodus ac angen y cyflogwyr i ddyrannu eu hadnoddau'n briodol. Mae'r Gronfa'n cyflawni hyn drwy ddefnyddio amrywiol dechnegau sy'n effeithio ar gynnydd y cyfraniadau i wahanol raddau (gweler 3.1). Wrth benderfynu pa dechneg i'w defnyddio ar gyfer cyflogwyr, mae'r Awdurdod Gweinyddu'n edrych ar sefyllfa ariannol y cyflogwr, h.y. ei allu i ddiwallu ei ymrwymiadau ariannu a'r cyfnod amser perthnasol.

Bydd yr Awdurdod Gweinyddu yn ystyried asesiad risg o'r cyflogwr gan ddefnyddio sail wybodaeth sy'n cael ei monitro a'i diweddaru'n rheolaidd. Bydd y gronfa ddata yn cynnwys gwybodaeth megis y math o gyflogwr, ei broffil aelodaeth a'i sefyllfa gyllido, unrhyw warantwyr neu ddarpariaeth ernes, newidiadau perthnasol a ragwelir ac ati.

Er enghraifft, pan fo Awdurdod Gweinyddu'n weddol hyderus y bydd cyflogwr yn medru cyflawni ei ymrwymiadau cyllido, bydd y Gronfa'n caniatáu dewisiadau megis sefydlogi (gweler 3.3 Nodyn (b)), cyfnod amser hwy o gymharu â chyflogwyr eraill, a/neu debygolrwydd is o gyrraedd eu targed cyllido. Bydd dewisiadau o'r fath yn arwain at lefelau cyfraniadau is na'r arfer yn y tymor byr. Caiff hyn ei ganiatáu oherwydd y disgwylir y bydd y cyflogwr yn parhau i allu cyflawni ei rwymedigaethau am nifer o flynyddoedd.

Ar y llaw arall, os oes amheuaeth y bydd cyflogwr yn medru cyflawni ei ymrwymiadau cyllido neu wrthsefyll newid sylweddol yn ei ymrwymiadau, efallai y bydd angen targed cyllido uwch, a/neu gyfnod byrrach i adfer y diffyg o gymharu â chyflogwyr eraill, a/neu debygolrwydd uwch o gyrraedd y targed.

Mae'r Gronfa'n mynd ati i ofyn am fewnbwn gan gyflogwyr, gan gynnwys mewnbwn i'w drefniadau cyllido, a hynny drwy amrywiol ffyrdd: gweler Atodiad A.

## 3. Cyfrifo cyfraniadau ar gyfer Cyflogwyr unigol

### 3.1 Sylwadau cyffredinol

Un o brif heriau'r Awdurdod Gweinyddu yw cydbwyso'r angen am gyfraniadau cyflogwr sefydlog a fforddiadwy gyda'r angen i gadw golwg darbodus ar gyllido yn yr hirdymor a sicrhau diddyledrwydd y Gronfa. Gyda hyn mewn golwg, mae proses tri cham y Gronfa'n adnabod y prif faterion:

1. Beth yw targed darbodus (ond nid yn ormodol) priodol?
2. Faint o amser ddylai'r cyflogwr ei gael i gyrraedd y targed? Dylai hyn fod yn realistig ond nid yn rhy hir neu bydd perygl na fydd y cyflogwr yn cyrraedd y targed cyllido o gwbl.
3. Pa debygolrwydd sydd ei angen i gyrraedd y targed cyllido? Bydd hyn bob amser yn llai na 100% am nad oes modd bod yn sicr o symudiadau'r farchnad yn y dyfodol. Gellir defnyddio "bariau" tebygolrwydd uwch ar gyfer cyflogwyr os yw'r Gronfa'n dymuno gostwng y risg y bydd y cyflogwr yn rhoi'r gorau iddi ac yn gadael diffyg i'r cyflogwyr eraill dalu amdano.

Sonnir am y materion hyn a rhai eraill perthnasol yn y Rhan hon.

Mae'r Awdurdod Gweinyddu'n cydnabod y bydd weithiau amgylchiadau penodol yn effeithio ar gyflogwyr unigol nad ydynt yn hawdd i'w rheoli o fewn y rheolau a'r polisïau a amlinellir yn y Datganiad Strategaeth Gyllido. Felly, gall yr Awdurdod Gweinyddu benderfynu, ar ei ddisgresiwn ei hun, rhoi cyfarwyddyd i'r actwari ddefnyddio dulliau cyllido gwahanol ar sail bob achos unigol ar gyfer cyflogwyr penodol.

### 3.2 Effaith talu cyfraniadau is

Mewn amgylchiadau cyfyngedig penodol, gall yr Awdurdod Gweinyddu ganiatáu cyflogwyr i dalu eu cyfraniadau ar lefel is na'r hyn a asesir ar eu cyfer gan ddefnyddio'r broses tri cham uchod. Yn ei ddisgresiwn llwyr, gall yr Awdurdod Gweinyddu:

- ymestyn y cyfnod amser ar gyfer targedu cyllido'n llawn;
- addasu'r tebygolrwydd gofynnol o gyrraedd y targed cyllido;
- caniatáu i gyflogwr fod yn rhan o fecanweithiau sefydlogi'r Gronfa;
- caniatáu ymestyn y cyfnod ar gyfer codi neu ostwng cyfraniadau'n raddol;
- cyfuno cyfraniadau rhwng cyflogwyr sydd â nodweddion tebyg; a
- derbyn rhyw fath o ernes neu warant yn lle talu cyfradd gyfraniadau uwch.

Yn aml, bydd cyflogwyr sy'n cael caniatâd i ddefnyddio un neu fwy o'r dulliau uchod yn talu cyfraniad, am gyfnod, sy'n is na'r hyn sydd ei angen i gyrraedd ei darged cyllido yn ystod y cyfnod amser priodol gyda'r tebygolrwydd llwyddiant gofynnol. Dylai cyflogwyr o'r fath werthfawrogi:

- nid yw cyflymder talu'r cyfraniadau'n effeithio ar eu gwir ymrwymiad yn yr hirdymor (h.y. gwir gost y buddion sy'n daladwy i'w gweithwyr a'u cyn-weithwyr yn y pendraw);

- rhagdybir y bydd talu cyfraniadau is yn y tymor byr yn arwain at golli mwy o enillion buddsoddi ar y diffyg. Felly, gall gohirio swm penodol o gyfraniad arwain at gyfraniadau uwch yn yr hirdymor: ac
- fe all gymryd fwy o amser i gyrraedd eu targed cyllido, os yw popeth arall yn gyfartal.

Ar y dudalen nesaf (3.3) ceir crynodeb o sut mae'r prif bolisïau cyllido yn amrywio ar gyfer gwahanol fathau o gyflogwyr, gyda nodiadau manylach i ddilyn pan fo angen.

Mae Rhan 3.4 yn ymdrin ag amrywiol faterion cyllido eraill sy'n berthnasol i bob cyflogwr.

## 3.3 Y gwahanol ddulliau a ddefnyddiwyd ar gyfer gwahanol gyflogwyr

| **Math o gyflogwr** | **Cyrff ar yr Atodlen** | | **Cyrff Cymunedol a Ganiateir a Chyflogwyr sy'n Dynodi** | | **Cyrff Trosglwyddo a Ganiateir** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Is-fath** | **Awdurdodau Lleol, yr Heddlu a Pharc Cenedlaethol Eryri** | **Pob Corff Arall ar yr Atodlen (Cynghorau Tref a Phlwyf)** | **Agored i ddechreuwyr newydd** | **Wedi cau i ddechreuwyr newydd** | **(pawb)** |
| **Sail Targed Cyllido a ddefnyddiwyd** | Parhaus, honnir cyfranogiad hirdymor yn y Gronfa (gweler Atodiad E) | | Parhaus, ond gall symud i 'sail giltiau' - gweler Nodyn (a) | | Parhaus, honnir cyfnod contract penodol yn y Gronfa (gweler Atodiad E) |
| **Dull prif gyfradd** | (gweler Atodiad D - D.2) | | | | |
| **Cyfradd cyfrannu sefydlog?** | Oes - gweler Nodyn (b) | Nac oes | Nac oes | Nac oes | Nac oes |
| **Uchafswm cyfnod amser - Nodyn (c)** | 20 mlynedd | 20 mlynedd | Oes gwaith yn y dyfodol + 33% | Oes gwaith yn y dyfodol + 33% | Cyfnod Contract heb ei Gwblhau |
| **Cyfradd eilaidd - Nodyn (d)** | Swm ariannol | Swm ariannol | Swm ariannol | Swm ariannol | Swm ariannol |
| **Ymdrin â gwarged** | Ymdrin drwy drefniant sefydlogi | Lleihau cyfraniadau drwy gyfradd eilaidd negyddol | Lleihau cyfraniadau drwy gyfradd eilaidd negyddol | | Lleihau cyfraniadau drwy wasgaru'r gwarged dros gyfnod y contract sy'n weddill |
| **Tebygolrwydd o gyflawni'r targed - Nodyn (e)** | 66% | 70% | 70% neu 75% yn dibynnu ar risg cyflogwr | 75% | 66% |
| **Camau cyfraniadau gwahanol** | Ymdrin drwy drefniant sefydlogi | camau cyfraniadau dros dair blynedd | camau cyfraniadau gwahanol dros dair blynedd | Gellir caniatáu camau cyfraniadau gwahanol dros dair blynedd | Dim |
| **Adolygu cyfraddau - Nodyn (f)** | Mae hawl gan yr Awdurdod Gweinyddu i adolygu cyfraddau a symiau cyfraniadau, a'r lefel o sicrwydd a ddarperir, yn rheolaidd rhwng prisiadau | | | | Wedi'u hadolygu'n benodol yn nhair blynedd diwethaf y contract |
| **Cyflogwr newydd** | amh. | amh. | Nodyn (g) | | Nodiadau (g) a (h) |
| **Darfod cymryd rhan: dyled darfyddiad yn daladwy** | Honnir nad yw darfyddiad yn bosib yn gyffredinol, oherwydd bod rhwymedigaeth gyfreithiol ar Gyrff ar yr Atodlen i gymryd rhan yn CPLlL. Mewn achosion prin pan fydd darfyddiad yn digwydd (oherwydd newidiadau ym mheirianwaith y Llywodraeth er enghraifft), bydd yr egwyddorion dyled darfyddiad a ddefnyddir yn unol â Nodyn (i). | | Gellir ei ddarfod yn amodol ar delerau cytundeb derbyn. Cyfrifir dyled darfyddiad ar sail sy'n briodol i amgylchiadau'r darfyddiad - gweler Nodyn (i). | | Honnir bod cymryd rhan yn dod i ben ar ddiwedd y contract. Cyfrifir dyled darfyddiad (os oes) ar sail barhaus. Bydd yr Awdurdod sy'n Dyrannu yn atebol am ddiffygion a chyfraniadau a gyfyd yn y dyfodol. |

**Nodyn (a) (Sail ar gyfer Cyrff Cymunedol a Ganiateir (CABs) a Chyflogwyr sy'n Dynodi wedi cau i ddechreuwyr newydd)**

Mewn amgylchiadau:

- pan fo'r cyflogwr yn Gyflogwr sy'n Dynodi, neu'n Gorff a Ganiateir ond nid yn Gorff Trosglwyddo a Ganiateir, a
- phan nad oes gan y cyflogwr warantwr, a
- phan fydd y cytundeb derbyn yn debygol o ddod i ben, neu phan fydd y cyflogwr yn debygol o golli'i aelod gweithredol olaf, o fewn amserlen a ystyrir yn briodol gan yr Awdurdod Gweinyddu i arwain at newid mewn cyllido,

gallai'r Awdurdod Gweinyddu osod targed cyllido uwch (e.e. defnyddio cyfradd ddisgownt a osodir yn gyfartal â chynnyrch giltiau) erbyn yr amser fydd y cytundeb yn dod i ben neu phan fydd yr aelod gweithredol olaf yn gadael, er mwyn diogelu cyflogwyr eraill yn y Gronfa. Bydd y polisi hwn yn cynyddu cyfraniadau rheolaidd ac yn lleihau'r posibilrwydd, ond ddim yn cael gwared ar y posibilrwydd yn gyfan gwbl, y bydd angen taliad diffyg terfynol gan y cyflogwr pan ymgymerir â phrisiad darfyddiad.

Mae'r Awdurdod Gweinyddu hefyd yn cadw'r hawl i fabwysiadu'r dull uchod mewn perthynas â'r Cyflogwyr sy'n Dynodi a'r Cyrff a Ganiateir sydd heb warantwr, pan ystyrir bod cryfder y cyfamod yn wan ond na cheir disgwyliad uniongyrchol y bydd y cytundeb derbyn yn darfod neu'r Cyflogwr sy'n Dynodi yn newid ei ddynodiad.

**Nodyn (b) (Sefydlogi)**

Mae sefydlogi yn fecanwaith lle cedwir amrywiadau cyfradd cyfraniadau cyflogwr o flwyddyn i flwyddyn o fewn ystod a bennwyd o flaen llaw, gan felly ganiatáu i gyfraddau'r cyflogwyr hynny fod yn gymharol sefydlog. Er budd sefydlogrwydd a fforddiadwyedd cyfraniadau cyflogwr, credai'r Awdurdod Gweinyddu, ar ôl cyngor gan Actwari'r Gronfa, y gellir ystyried sefydlogi cyfraniadau fel dull darbodus hirdymor o hyd. Fodd bynnag, dylai cyflogwyr sydd â chyfraddau cyfraniadau wedi'u 'sefydlogi' (ac felly, allai fod yn talu llai na'u cyfraddau cyfraniadau damcaniaethol) fod yn ymwybodol o risgiau'r dull hwn a dylent ystyried gwneud taliadau ychwanegol i'r Gronfa os yn bosib.

Mae'r mecanwaith sefydlogi hwn yn caniatáu i anweddolrwydd marchnad fuddsoddi fyrdymor gael ei reoli fel nad yw'n achosi anweddolrwydd mewn cyfraddau cyfraniadau cyflogwr, ar y sail y gellir llunio gweledigaeth hirdymor ar y mewnlif o arian net, enillion ar fuddsoddiadau a chryfder cyfamod y cyflogwr.

Mae'r mecanwaith sefydlogi presennol yn berthnasol os:

- yw'r cyflogwr yn diwallu meini prawf cymhwyster a osodir gan yr Awdurdod Gweinyddu (gweler isod) ac;
- os na cheir unrhyw ddigwyddiadau materol sy'n arwain at y cyflogwr yn dod yn anghymwys, e.e. gostyngiadau sylweddol mewn aelodaeth weithredol (oherwydd allanoli neu ddiswyddiadau), neu newidiadau yn natur y cyflogwr (oherwydd ailstrwythuro gan y Llywodraeth efallai), neu newidiadau yn sicrwydd y cyflogwr.

Ar sail y gwaith modelu helaeth a gynhaliwyd ar gyfer ymarfer prisiad 2016 (gweler Adran 4), mae'r manylion sefydlogi fel a ganlyn:

| Math o gyflogwr | Cynghorau, yr Heddlu a Pharc Cenedlaethol Eryri |
|---|---|
| **Uchafswm cynnydd cyfraniadau** | 0% o dâl (cyfraniadau yn sefydlog am dair blynedd), gan ddilyn gyda 1% o dâl wedi hynny |
| **Uchafswm lleihad cyfraniadau** | 0% o dâl (cyfraniadau yn sefydlog am dair blynedd), gan ddilyn gyda 1% o dâl wedi hynny |

Bydd y meini prawf sefydlogi a chyfyngiadau'n cael eu hadolygu ym mhrisiad 31 Mawrth 2019, a byddant yn dod i rym o 1 Ebrill 2020. Fodd bynnag, mae'r Awdurdod Gweinyddu yn cadw'r hawl i adolygu meini prawf a chyfyngiadau sefydlogi ar unrhyw bryd cyn hynny, ar sail aelodaeth a/neu newidiadau cyflogwr fel y disgrifir uchod.

**Nodyn (c) (Uchafswm cyfnod amser)**

Mae'r uchafswm cyfnod amser yn cychwyn ar ddechrau'r gyfradd cyfrannu ddiwygiedig (1 Ebrill 2017 ar gyfer prisiad 2016). Fel arfer, byddai'r Awdurdod Gweinyddu yn disgwyl i'r un cyfnod gael ei ddefnyddio mewn prisiadau dilynol bob tair blynedd, ond byddai'n cadw'r hawl i gynnig cyfnodau amser gwahanol, pan nad oes unrhyw ddechreuwyr newydd er enghraifft.

**Nodyn (d) (Cyfradd eilaidd)**

Bydd y gyfradd eilaidd yn cael ei gosod fel swm ariannol ar gyfer pob cyflogwr pan fydd y gyfradd eilaidd yn bositif.

Pan fydd y gyfradd eilaidd yn negyddol, h.y. pan fydd gan gyflogwr warged, gosodir y gyfradd eilaidd fel canran o'r cyflogau.

**Nodyn (e) (Tebygolrwydd o gyflawni'r targed cyllido)**

Mae targed cyllido'n cael ei gyfrifo i bob cyflogwr, ynghyd â chyfnod amser perthnasol ar gyfer cyrraedd y targed hwnnw. Gosodir y cyfraniadau, wedi'u cyfuno gyda chyfran asedau presennol y cyflogwr a symudiadau disgwyliedig y farchnad dros y cyfnod amser, fel bod y targed cyllido'n cael ei gyflawni gydag isafswm tebygolrwydd penodol. Bydd cyfnod tebygolrwydd uwch gofynnol yn arwain at gyfraniadau gofynnol uwch, ac fel arall.

Mae'r modd y gosodir cyfraniadau drwy ddefnyddio'r tri cham hyn, a rhagolygon economaidd perthnasol, yn cael ei ddisgrifio mewn mwy o fanylder yn Atodiad D.

Gosodir gwahanol debygolrwydd ar gyfer gwahanol gyflogwyr yn dibynnu ar eu natur a'u hamgylchiadau: yn fras, bydd tebygolrwydd uwch yn berthnasol oherwydd un neu fwy o'r hyn a ganlyn:

- cred y Gronfa bod y cyflogwr yn peri risg cyllido mwy na chyflogwyr eraill,
- nid oes gan y cyflogwr bwerau codi trethi;
- nid oes gan y cyflogwr warantwr na sicrwydd digonol arall i gefnogi'i sefyllfa cyllido; ac/neu

- mae'r cyflogwr yn debygol o ddarfod cymryd rhan yn y Gronfa yn y tymor hir neu ganolig.

**Nodyn (f) (Adolygiadau Rheolaidd)**

Gall adolygiadau o'r fath gael eu sbarduno gan ddigwyddiadau arwyddocaol, gan gynnwys ond ddim yn gyfyngedig i: gostyngiadau sylweddol mewn cyflogres, amgylchiadau cyflogwr yn newid, ailstrwythuro gan y Llywodraeth yn effeithio ar fusnes y cyflogwr, neu fethiant i dalu cyfraniadau neu drefnu sicrwydd priodol fel sy'n ofynnol gan yr Awdurdod Gweinyddu.

Gall canlyniad adolygiad olygu bod angen cynyddu cyfraniadau (drwy gryfhau'r rhagdybiaethau actwaraidd a fabwysiadwyd a/neu symud at lefelau ariannol o gyfraniadau diffyg fel symiau ariannol), a/neu lefel uwch o sicrwydd neu warant.

**Nodyn (g) (Cyrff Newydd a Ganiateir)**

O 1 Hydref 2012 ymlaen, cyflwynodd Rheoliadau Amrywiol 2012 CPLlL ofynion gorfodol newydd ar gyfer pob Corff a Ganiateir fyddai'n ymuno â'r Gronfa o'r dyddiad hwnnw. Dan y Rheoliadau hyn, bydd angen i bob Corff newydd a Ganiateir ddarparu rhyw fath o sicrwydd, megis gwarant gan y cyflogwr sy'n gosod, indemniad neu fond. Mae angen y sicrwydd i ymdrin â rhai neu bob un o'r isod:

- cost straen unrhyw ddiswyddiadau/ymddeoliadau cynnar sy'n deillio o derfynu’r contract yn rhy gynnar;
- lwfans ar gyfer y risg o ased yn tanberfformio;
- lwfans ar gyfer y risg o gwymp mewn enillion giltiau;
- lwfans ar gyfer y posibilrwydd o gyfraniadau cyflogwr ac aelod ddim yn cael eu talu i'r Gronfa; a/neu'r
- diffyg presennol.

Cyrff Trosglwyddo a Ganiateir: Ar gyfer pob Corff Trosglwyddo a Ganiateir (TABs), rhaid i'r sicrwydd fodloni'r Awdurdod Gweinyddu yn ogystal â'r cyflogwr sy'n gosod, a bydd yn cael ei ail-asesu bob blwyddyn. Gweler hefyd Nodyn (i) isod.

Cyrff Cymunedol a Ganiateir: Bydd yr Awdurdod Gweinyddu yn ystyried ceisiadau gan CABs (neu gyrff tebyg eraill, megis partneriaethau GIG adran 75) i ymuno â'r Gronfa dim ond os ydynt wedi'u noddi gan Gorff ar yr Atodlen gyda phwerau codi trethi, sy'n gwarantu eu rhwymedigaethau a hefyd yn darparu rhyw fath o sicrwydd fel yr uchod.

Mae'r dulliau uchod yn lleihau'r risg, i gyflogwyr eraill yn y Gronfa, o orfod ymdrin ag unrhyw ddiffyg ariannol posib o ran Cyrff a Ganiateir yn darfod gyda diffyg heb ei dalu.

**Nodyn (h) (Cyrff Trosglwyddo Newydd a Ganiateir)**

Fel arfer mae TAB newydd yn ymuno â'r Gronfa o ganlyniad i rai gwasanaethau gan gyflogwr presennol (Corff ar yr Atodlen fel arfer megis cyngor neu academi) yn gosod/allanoli i sefydliad arall ('contractwr'). Mae hyn yn cynnwys trosglwyddiad TUPE rhai staff o'r cyflogwr sy'n gosod i'r contractwr. O ganlyniad, ar gyfer parhad y contract, mae'r contractwr yn gyflogwr newydd sy'n cymryd rhan yn y Gronfa fel bod y gweithwyr sy'n trosglwyddo yn cadw eu cymhwysedd am aelodaeth CPLlL. Ar ddiwedd y contract, mae gweithwyr yn dychwelyd at y cyflogwr sy'n gosod neu at gontractwr arall.

Fel arfer, byddai'r TAB yn cael ei osod yn y Gronfa fel cyflogwr newydd gyda chyfrifoldeb am holl fuddion cronnus y gweithwyr sy'n trosglwyddo; yn yr achos hwn, fel arfer byddai'r contractwr yn derbyn dyraniad asedau cychwynnol cyfwerth â gwerth rhwymedigaethau buddion Cronfa'r gweithwyr o'u gwasanaeth yn y gorffennol. Y *quid pro quo* yw bod disgwyl i'r contractwr wedyn sicrhau bod ei ran ef o'r Gronfa hefyd wedi'i chyllido'n llawn ar ddiwedd y contract: gweler Nodyn (i).

Mae gan gyflogwyr sy'n 'allanoli' hyblygrwydd yn y modd maent yn gallu ymdrin â'r posibilrwydd o'r contractwr yn ymgymryd â'r risg pensiwn. Yn benodol, ceir tri gwahanol lwybr y bydd cyflogwyr o'r fath yn dymuno eu mabwysiadu efallai. Yn amlwg, oherwydd bod y risg yn disgyn ar y cyflogwr sy'n gosod y contract yn y pen draw, hwy ddylai gytuno ar y llwybr priodol gyda'r contractwr.

i) Cydrannu

Dan yr opsiwn hwn, caiff y contractwr ei gydrannu gyda'r cyflogwr sy'n gosod. Yn yr achos hwn, mae'r contractwr yn talu'r un gyfradd â'r cyflogwr sy'n gosod, allai gael ei wneud dan ddull sefydlogi.

ii) Cyflogwr sy'n gosod yn cadw risgiau cyn-contract

Dan yr opsiwn hwn, byddai'r cyflogwr sy'n gosod yn cadw cyfrifoldeb am asedau a rhwymedigaethau o ran y gwasanaeth a gronnir cyn dyddiad cychwyn y contract. Byddai'r contractwr yn gyfrifol am ymrwymiadau yn y dyfodol sy'n cronni o ran staff a drosglwyddwyd. Gallai cyfradd cyfrannu'r contractwr amrywio o un prisiad i'r llall. Byddai'n atebol am unrhyw ddiffyg ar ddiwedd cyfnod y contract o ran asedau ac ymrwymiadau sydd i'w priodoli i'r gwasanaeth a gronnir yn ystod cyfnod y contract.

iii) Cyfradd cyfrannu sefydlog wedi'i chytuno

Dan yr opsiwn hwn, mae'r contractwr yn talu cyfradd cyfraniadau sefydlog ac nid yw'n talu unrhyw ddiffyg wrth ddarfod.

Mae'r Awdurdod Gweinyddu yn fodlon gweinyddu unrhyw un o'r opsiynau uchod cyn belled ag y bo'r dull yn cael ei nodi yn y Cytundeb Derbyn yn ogystal â'r cytundeb trosglwyddo. Dylai'r Cytundeb Derbyn sicrhau rhyw elfen o drosglwyddiadau risg i'r contractwr, ble mae'n ymwneud â'u penderfyniadau ac mae'n annheg rhoi baich y risg hwnnw i'r cyflogwr sy'n gosod. Er enghraifft, dylai'r contractwr fel arfer fod yn gyfrifol am gostau pensiwn sy'n codi o:

- godiadau cyflog sy'n uwch na'r cyfartaledd, gan gynnwys yr effaith o ran gwasanaeth cyn i'r contract gychwyn hyd yn oed os yw'r cyflogwr sy'n gosod yn cymryd cyfrifoldeb am yr olaf dan (ii) uchod; a
- penderfyniadau diswyddiadau ac ymddeoliadau cynnar.

**Nodyn (i) (Cyrff a Ganiateir yn Darfod)**

Er gwaethaf darpariaethau'r Cytundeb Derbyn, gallai'r Awdurdod Gweinyddu ystyried unrhyw un o'r isod fel sbardunau ar gyfer darfod cytundeb derbyn gydag unrhyw fath o gorff:

- Yr aelod gweithredol olaf yn darfod cymryd rhan yn y Gronfa (DS golyga newidiadau diweddar yn Rheoliadau CPLlL bod gan yr Awdurdod Gweinyddu ddisgresiwn i oedi cymryd camau gweithredu am hyd at dair blynedd, felly os yw'r cyflogwr yn derbyn un neu fwy o aelodau gweithredol yn y Gronfa yn ystod y cyfnod hwnnw, yna ni sbardunir darfyddiad. Yn ôl polisi presennol y Gronfa, gadewir hwn fel disgresiwn ac efallai y bydd yn berthnasol neu'n amherthnasol mewn unrhyw achos penodol);
- Y Corff a Ganiateir yn fethdaliadol, yn dirwyn i ben neu'n diddymu;
- Unrhyw achos o dor-amod gan y Corff a Ganiateir o ran unrhyw un o'i rwymedigaethau dan y Cytundeb y maent wedi methu eu cywiro i fodlonrwydd y Gronfa;
- Methiant y Corff a Ganiateir i dalu unrhyw symiau sy'n ddyledus i'r Gronfa o fewn y cyfnod sy'n ofynnol gan y Gronfa; neu
- Methiant y Corff a Ganiateir i adnewyddu neu addasu lefel y bond neu'r indemniad, neu i gadarnhau gwarantwr arall priodol, fel sy'n ofynnol gan y Gronfa.

Yn achos darfyddiad, bydd yr Awdurdod Gweinyddu yn cyfarwyddo actwari'r Gronfa i gynnal prisiad darfyddiad er mwyn pennu a oes yna unrhyw ddiffyg neu warged. Os fydd diffyg, byddai angen i'r swm hwn fel arfer gael ei dalu'n llawn gan y Corff a Ganiateir; os fydd gwarged, dylid nodi nad yw'r ddeddfwriaeth bresennol yn caniatáu ad-daliad i'r Corff a Ganiateir.

Ar gyfer Cyrff nad ydynt yn Trosglwyddo a Ganiateir sy'n dod â'u cyfranogiad i ben yn wirfoddol naill ai eu hunain neu gan y Gronfa, neu os fydd darfyddiad yn cael ei sbarduno, rhaid i'r Awdurdod Gweinyddu geisio diogelu buddion gweithwyr cyfredol eraill. Felly, bydd yr actwari yn mabwysiadu dull, i'r graddau sy'n ymarferol resymol, sy'n diogelu gweithwyr eraill rhag y tebygolrwydd o unrhyw golled faterol yn codi yn y dyfodol.

(a) Os nad oes gwarantwr yn bodoli, yna er mwyn diogelu gweithwyr eraill yn y Gronfa bydd ymrwymiadau darfyddiad a diffyg terfynol fel arfer yn cael eu cyfrifo drwy ddefnyddio 'sail darfod giltiau', sy'n fwy darbodus na'r sail barhaus. Nid oes gan hyn lwfans am berfformiad gwell buddsoddiadau posib yn y dyfodol uwchlaw enillion giltiau, ac mae wedi ychwanegu lwfans ar gyfer gwelliannau yn y dyfodol o ran disgwyliad oes. Gallai hyn arwain at yr angen am ddyledion darfyddiad sylweddol.

(b) Os oes gwarantwr ar gyfer diffygion yn y dyfodol a chyfraniadau, ystyrir manylion y gwarant cyn i'r prisiad darfyddiad gael ei gynnal. Mewn rhai achosion, y gwarantwr yn syml yw gwarantwr y dewis olaf ac felly cynhelir y prisiad darfyddiad yn gyson â'r dull a ddilynwyd petai dim gwarantwr yn ei le. Fel arall, os nad yw'r gwarantwr yn syml yn warantwr y dewis olaf, gellir cyfrifo'r darfyddiad drwy ddefnyddio'r sail barhaus a ddisgrifir yn Atodiad E;

(c) Eto, yn dibynnu ar natur y gwarant, mae'n bosib trosglwyddo ymrwymiadau ac asedau'r Corff blaenorol a Ganiateir i'r gwarantwr, heb fod angen crisialu unrhyw ddiffyg. Gellir mabwysiadu'r dull hwn os fydd y cyflogwr yn methu â thalu'r cyfraniadau dyledus, ac mae hyn wedi'i gynnwys yn nhelerau'r gwarant.

Dan (a) a (b), fel arfer byddai unrhyw ddiffyg ariannol yn cael ei osod ar y Corff a Ganiateir sy'n gadael fel taliad lwmp swm unigol. Os nad yw hyn yn bosib, yna byddai'r Gronfa'n rhannu'r taliad ar yr amod bod ychydig o sicrwydd yn ei le i'r cyflogwr megis indemniad bond neu warant.

Os nad yw Cronfa'n gallu adennill y taliad gofynnol yn llawn, yna rhaid i'r symiau heb eu talu gael eu rhannu rhwng yr holl weithwyr eraill yn y Gronfa. Efallai y bydd hyn yn gofyn i'r Dystysgrif Cyfraddau ac Addasiadau sy'n effeithio gweithwyr eraill yn y Gronfa gael ei hadolygu ar unwaith, neu gael ei adlewyrchu yn y cyfraddau cyfraniadau a osodir yn y prisiad ffurfiol nesaf ar ôl dyddiad y darfyddiad.

Fel dewis arall, os fydd Corff a Ganiateir sy'n darfod yn parhau i fod mewn busnes, mae'r Gronfa yn ôl disgresiwn llwyr yn cadw'r hawl i ymrwymo i gytundeb gyda'r Corff a Ganiateir sy'n darfod. Dan y cytundeb hwn, byddai'r Gronfa'n derbyn sicrwydd arall priodol i'w ddal yn erbyn unrhyw ddiffyg, a byddai'n cynnal y prisiad darfyddiad ar sail barhaus: byddai taliadau adennill diffyg yn deillio o'r ddyled darfyddiad hon. Byddai'r dull hwn yn cael ei fonitro fel rhan o bob prisiad bob tair blynedd: mae'r Gronfa'n cadw'r hawl i ddychwelyd at 'sail darfod giltiau' a gofyn i unrhyw ddiffyg cyllido a nodir gael ei dalu ar unwaith. Efallai fydd yr Awdurdod Gweinyddu angen gofyn am gyngor cyfreithiol mewn achosion o'r fath, oherwydd ni fyddai gan y Corff unrhyw aelodau sy'n cyfrannu.

### 3.4 Hyblygrwydd ychwanegol yn lle sicrwydd ychwanegol

Gall yr Awdurdod Gweinyddu ganiatáu mwy o hyblygrwydd i gyfraniadau'r cyflogwr os fydd y cyflogwr yn darparu sicrwydd ychwanegol i fodlonrwydd yr Awdurdod Gweinyddu.

Mae hyblygrwydd o'r fath yn cynnwys cyfradd lai o gyfraniadau, cyfnod amser estynedig, neu ganiatâd i ymuno â phŵl gyda chorff arall (e.e. yr Awdurdod Lleol).

Gall sicrwydd o'r fath gynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i hynny, bond addas, gwarant wedi'i rwymo mewn cyfraith gan drydydd parti priodol, neu sicrwydd dros ased o werth digonol gan gyflogwr.

Gall graddau'r hyblygrwydd a roddir ystyried ffactorau megis:

- graddau diffyg y cyflogwr;
- swm ac ansawdd y sicrwydd a gynigir;

- sicrwydd ariannol a chynllun busnes y cyflogwr; a
- p'un a yw'r cytundeb derbyn yn debygol o fod ar agor neu ar gau i ddechreuwyr newydd.

**3.5 Costau ymddeoliad cynnar nad yw ar sail salwch**

Tybir bod buddion aelodau'n daladwy o'r oedran cynharaf allai'r gweithiwr ymddeol heb achosi gostyngiad i'w buddion (a heb yr angen am ganiatâd eu cyflogwr i ymddeol). (**DS** gallai'r oedran perthnasol fod yn wahanol am gyfnodau gwahanol o wasanaeth, yn dilyn y newidiadau mewn buddion o fis Ebrill 2008 ac Ebrill 2014). Mae gofyn i gyflogwyr dalu cyfraniadau ychwanegol ('straen') pryd bynnag y mae gweithiwr yn ymddeol cyn cyrraedd yr oedran hwn. Nid yw sail cyllido'r actwari'n ystyried ymddeol yn gynnar ac eithrio ar sail salwch.

Gyda chytundeb yr Awdurdod Gweinyddu, gellir rhannu'r taliad fel a ganlyn:

Cyrff Cyflogi Mawr - hyd at 5 mlynedd

Cyrff Cymunedol a Ganiateir a Chyflogwyr sy'n Dynodi - hyd at 3 blynedd

Cyrff Trosglwyddo a Ganiateir - yn daladwy ar unwaith.

**3.6 Costau ymddeoliad cynnar ar sail salwch**

Os fydd aelod yn ymddeol yn gynnar ar sail salwch, bydd straen cyllido'n codi fel arfer, allai fod yn fawr iawn. Mae gan y Gronfa bolisi yswiriant salwch ar gyfer cyflogwyr llai yn y Gronfa. Bydd hyn yn talu swm i'r Gronfa sy'n gyfwerth yn fras â'r straen cyllido yn achos cais llwyddiannus. Ar gyfer pob cyflogwr arall nad ydynt wedi'u cynnwys yn y polisi yswiriant allanol, byddai unrhyw straen cyllido sy'n fwy na'r ystyriaeth a roddwyd i'r sail cyllido'n cael ei ddiwallu drwy gynyddu cyfraniadau cyfredol.

**3.7 Cyflogwyr heb unrhyw aelodau gweithredol ar ôl**

Yn gyffredinol, bydd cyflogwr sy'n darfod yn y Gronfa, oherwydd ymadawiad yr aelod gweithredol olaf, yn talu dyled darfyddiad ar sail briodol (gweler 3.3, Nodyn (i) ) ac o ganlyniad ni fydd ganddo unrhyw rwymedigaeth bellach i'r Gronfa. Yna, disgwylir y bydd un o ddwy sefyllfa'n codi yn y pen draw:

a) Cyfran asedau'r cyflogwr yn rhedeg allan cyn i holl fuddion ei gyn-weithwyr gael eu talu. Yn y sefyllfa hon, bydd angen i gyflogwyr eraill y Gronfa gyfrannu i dalu'r holl fuddion sy'n weddill: gwneir hyn gan actwari'r Gronfa drwy ddyrannu'r ymrwymiadau sy'n weddill ar sail pro-rata mewn prisiadau dilynol ffurfiol;
b) Mae'r cyn-weithiwr neu'r dibynnydd olaf yn marw cyn i gyfran asedau'r cyflogwr gael ei defnyddio'n llawn. Yn y sefyllfa hon, byddai'r asedau sy'n weddill yn cael eu dyrannu ar sail pro-rata gan actwari'r Gronfa i gyflogwyr eraill y Gronfa.

Mewn amgylchiadau eithriadol, gallai'r Gronfa ganiatáu i gyflogwr heb unrhyw aelodau gweithredol ar ôl barhau i gyfrannu i'r Gronfa. Byddai hyn yn gofyn am ddarparu sicrwydd neu warant addas, yn ogystal ag ymrwymiad parhaus ysgrifenedig i gyllido gweddill goblygiadau'r cyflogwr dros gyfnod priodol. Byddai'r Gronfa'n cadw'r hawl i ddefnyddio gofynion darfyddiad yn y dyfodol, Efallai y bydd yr Awdurdod Gweinyddu angen gofyn am gyngor cyfreithiol mewn achosion o'r fath, oherwydd ni fyddai gan y cyflogwr unrhyw aelodau sy'n cyfrannu.

### 3.8 Polisïau ar drosglwyddiadau swmpus

Mae gan y Gronfa bolisi yswiriant ysgrifenedig ar wahân sy'n ymdrin â thaliadau trosglwyddiadau swmpus i'r Gronfa, o'r Gronfa a thu mewn iddi. Ymdrinnir â phob achos yn ôl ei rinweddau ei hun, ond yn gyffredinol:

- Ni fydd y Gronfa'n talu trosglwyddiadau swmpus sy'n fwy na'r swm lleiaf o blith (a) cyfran asedau'r cyflogwr sy'n trosglwyddo yn y Gronfa, a (b) gwerth ymrwymiadau gwasanaeth yr aelodau sy'n trosglwyddo yn y gorffennol;
- Ni fydd y Gronfa'n caniatáu buddion ychwanegol i aelodau sy'n dod â hawliadau o Gronfa arall i mewn oni bai bod y trosglwyddiad ased yn ddigon i ddiwallu'r ymrwymiadau ychwanegol; a
- Gallai'r Gronfa ganiatáu i ddiffyg ariannol godi ar drosglwyddiadau swmpus os oes gan gyflogwr y Gronfa gryfder cyfamod addas ac os yw'n ymrwymo i ddiwallu'r diffyg ariannol hwnnw mewn cyfnod priodol. Efallai bydd hyn yn gofyn i gyfraniadau Cronfa'r cyflogwr gynyddu rhwng prisiadau.

## 4. Strategaeth gyllido a chysylltiadau i'r strategaeth fuddsoddi

### 4.1 Beth yw strategaeth fuddsoddi'r Gronfa?

Mae'r Gronfa wedi cynhyrchu asedau dros y blynyddoedd, ac yn parhau i dderbyn cyfraniadau ac incymau eraill. Rhaid buddsoddi hyn i gyd mewn dull addas, a dyma yw'r strategaeth fuddsoddi.

Mae'r awdurdod gweinyddu'n gosod y strategaeth fuddsoddi, ar ôl ymgynghori â'r cyflogwyr ac ar ôl cymryd cyngor ar fuddsoddi. Mae'r union gyfuniad, y rheolwyr a'r targedau enillion wedi'u gosod yn y Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi (sy'n cael ei ddisodli gan Ddatganiad Strategaeth Fuddsoddi dan y Rheoliadau CPLlL newydd), sydd ar gael i aelodau a chyflogwyr.

Gosodir y strategaeth fuddsoddi ar gyfer yr hirdymor, ond fe'i hadolygir o bryd i'w gilydd. Fel arfer, cynhelir adolygiad llawn fel rhan o bob prisiad actwaraidd, ac fe'i hadolygir yn flynyddol rhwng prisiadau actwaraidd i sicrhau ei fod yn parhau'n briodol ar gyfer proffil ymrwymiadau'r Gronfa.

Mae'r un strategaeth fuddsoddi'n cael ei dilyn ar gyfer yr holl gyflogwyr ar hyn o bryd.

### 4.2 Beth yw'r cysylltiad rhwng strategaeth gyllido a strategaeth fuddsoddi?

Rhaid i'r Gronfa fedru talu'r holl daliadau buddion pan ddônt yn ddyledus. Bydd y taliadau hyn yn cael eu bodloni gan gyfraniadau (sy'n arwain o'r strategaeth gyllido) neu enillion ased ac incwm (sy'n arwain o'r strategaeth fuddsoddi). Os bydd yr enillion ar fuddsoddiadau neu incwm yn fyr, yna bydd angen cyfraniadau arian parod uwch gan gyflogwyr, ac i'r gwrthwyneb.

Felly, mae cysylltiad amlwg rhwng y strategaethau cyllido a buddsoddi.

### 4.3 Sut mae'r strategaeth fuddsoddi'n adlewyrchu strategaeth fuddsoddi'r Gronfa?

Mae actwari'r Gronfa o'r farn fod y polisi cyllido cyfredol yn gyson â strategaeth fuddsoddi gyfredol y Gronfa. Mae rhagdybiaeth gwell perfformiad yr asedau yn y gyfradd ddisgownt (gweler Atodiad E3) o fewn amrediad fyddai'n cael ei ystyried yn dderbyniol er dibenion cyllido; hefyd, ystyrir ei fod yn gyson â'r gofyn i gymryd "golwg mwy hirdymor darbodus" o gyllido ymrwymiadau fel sydd ei angen gan Lywodraeth y DU (gweler Atodiad A1).

Fodd bynnag, yn y byrdymor - megis yn ystod yr asesiadau bob tair blynedd mewn prisiadau ffurfiol - mae sgôp am anweddolrwydd sylweddol ac mae siawns y bydd enillion ar asedau'n fyr o'r targed yn y byrdymor a'r tymor canolig. Bydd y mesurau sefydlogrwydd a ddisgrifir yn Adran 3 yn lleihau, ond nid yn cael gwared, ar yr effaith ar gyfraniadau cyflogwyr.

Nid yw'r Gronfa'n dal unrhyw reserfau wrth gefn i'w gwarchod rhag anweddolrwydd buddsoddiadau ecwiti.

### 4.4 Sut mae hyn yn effeithio ar gyflogwr sefydlog mawr?

Mae'r Actwari wedi datblygu pedwar mesur allweddol sy'n rhoi darlun o hanfod strategaethau'r Gronfa, o ran cyllido a buddsoddi:

Gweithredu'n ddarbodus - dylai'r Gronfa fod â disgwyliad rhesymol ei bod wedi'i chyllido'n llawn yn yr hirdymor;

Fforddiadwyedd - faint all cyflogwyr ei fforddio;

Stiwardiaeth - dylai'r tybiaethau a ddefnyddir fod yn gynaliadwy yn yr hirdymor, heb orfod troi at ragdybiaethau gor-optimistaidd ynghylch y dyfodol er mwyn cynnal sefyllfa gyllido sy'n ymddangos yn iach; ac

Sefydlogrwydd - ni ddylai cyflogwyr weld gwahaniaethau sylweddol yn eu cyfraddau cyfraniadau o un flwyddyn i'r llall, er mwyn cynorthwyo i ddarparu amgylchfyd gyllidebu mwy sefydlog.

Y broblem allweddol yw bod amcanion allweddol yn gallu gwrthdaro. Er enghraifft, y ffordd orau o isafu cost hirdymor y cynllun (h.y. cadw cyfraddau cyflogwyr yn fforddiadwy), yw drwy fuddsoddi mewn asedau sy'n rhoi mwy o enillion, e.e. ecwiti. Fodd bynnag, mae ecwiti yn hynod anweddol hefyd (h.y. yn mynd i fyny ac i lawr yn bur aml a hynny ar raddfa fawr), ac mae hyn yn gwrthdaro â'r amcan o gael cyfradd gyfraniadau sefydlog.

Felly, mae angen cynnal cydbwysedd rhwng y risg a'r enillion, ac mae hyn wedi'i ystyried drwy ddefnyddio Modelu Ymrwymiadau Ased: dyma gyfres o dechnegau cyfrifo sy'n cael eu defnyddio gan actwari'r Gronfa i fodelu'r amrediad o lefelau diddyledrwydd a chyfraddau cyfraniadau yn y dyfodol.

Bu modd i'r Actwari fodelu effaith y pedwar maes allweddol hwn, er dibenion gosod dull sefydlogi (gweler 3.3 Nodyn (b)). Dengys y modelu fod cadw'r strategaeth fuddsoddi gyfredol, ar y cyd â chyfyngu ar newidiadau i gyfraddau cyfraniadau cyflogwyr fel y'i disgrifir yn 3.3 Nodyn (b), wedi taro cydbwysedd priodol rhwng yr amcanion uchod. Yn enwedig, mae'r dull sefydlogi sydd wedi'i fabwysiadu ar hyn o bryd yn bodloni'r angen am sefydlogrwydd cyfraniadau heb roi amcanion yr Awdurdod Gweinyddu o stiwardio'r Gronfa'n ddarbodus, yn y fantol.

Er bod y mecanwaith sefydlogi cyfredol i fod yn ei le hyd 2020, dylid nodi y bydd angen adolygu hwn yn dilyn prisiad 2019.

## 5. Adrodd statudol a chymharu â Chronfeydd CPLlL eraill

### 5.1 Diben

Dan Adran 13(4)(c) Deddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013 ("Adran 13"), rhaid i Adran Actwari'r Llywodraeth, yn dilyn pob prisiad tair blynedd, adrodd i'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol (ACLlL) ar bob Cronfa CPLlL yng Nghymru a Lloegr. Bydd yr adroddiad yn ymdrin â p'un a yw'r raddfa cyfraniadau cyflogwyr wedi'u gosod ar lefel briodol i sicrhau diddyledrwydd ac effeithiolrwydd cost hirdymor y Gronfa, a hynny ar gyfer pob Cronfa.

Gall yr oruchwyliaeth ychwanegol hon gan yr ACLlL effeithio ar y strategaeth ar gyfer gosod cyfraddau mewn prisiadau yn y dyfodol.

### 5.2 Diddyledrwydd

Er dibenion Adran 13, pennir fod cyfradd cyfraniadau cyflogwyr wedi'i gosod ar lefel briodol i sicrhau diddyledrwydd os:

(a) yw cyfradd y cyfraniadau cyflogwyr wedi'i gosod i dargedu lefel gyllido o 100% ar gyfer y Gronfa dros gyfnod priodol o amser a chan ddefnyddio tybiaethau actwaraidd priodol (pan ystyrir priodoldeb yn nhermau absoliwt a pherthnasol o gymharu â chronfeydd eraill) a naill ai

(b) fod gan gyflogwyr ar y cyd y capasiti ariannol i gynyddu cyfraniadau cyflogwyr, ac/neu mae modd i'r Gronfa gyflawni asedau amodol pe byddai amgylchiadau'n gofyn amdanynt yn y dyfodol, er mwyn bwrw ymlaen i dargedu lefel gyllido o 100%, neu

(c) fod cynllun priodol yn ei le pe byddai, neu os oes disgwyl yn y dyfodol, gweld cynnydd perthnasol yng nghapasiti cyflogwyr y gronfa i gynyddu cyfraniadau yn ôl yr angen.

### 5.3 Effeithiolrwydd Cost Hirdymor

Pennir fod cyfradd cyfraniadau cyflogwyr wedi'u gosod ar lefel briodol i sicrhau effeithiolrwydd cost hirdymor os:

i. yw cyfradd y cyfraniadau cyflogwyr yn ddigonol i ddarparu ar gyfer cost gyfredol y buddion cronnus,
ii. gydag addasiad priodol yn cael ei wneud i'r gyfradd honno ar gyfer unrhyw warged neu ddiffyg yn y Gronfa.

Wrth asesu p'un ai yw'r amod uchod yn cael ei fodloni, efallai y bydd yr ACLlL yn ystyried amrywiol ystyriaethau absoliwt a pherthnasol. Yn bennaf, mae ystyriaeth berthnasol yn ymwneud â chymharu cronfeydd pensiwn CPLlL â chronfeydd pensiwn CPLlL eraill. Yn bennaf, mae ystyriaeth absoliwt yn ymwneud â chymharu Cronfeydd gyda meincnod penodol a osodwyd.

Mae'r prif ystyriaethau perthnasol yn cynnwys:

1. y cyfnod adfer diffyg ymhlyg; ac

2. yr enillion ar fuddsoddiadau angenrheidiol i gyflawni cyllido llawn ar ôl 20 mlynedd.

Mae’r ystyriaethau absoliwt yn cynnwys:

1. y graddau y mae'r cyfraniadau sy'n daladwy yn ddigonol i dalu am gostau'r buddion cronnus cyfredol a chost y llog ar unrhyw ddiffyg;
2. sut mae'r enillion ar fuddsoddiadau angenrheidiol dan yr "ystyriaethau perthnasol" uchod yn cymharu â'r enillion a amcangyfrifir ar gyfer y dyfodol sy'n cael eu targedu gan strategaeth fuddsoddi gyfredol y Gronfa;
3. y graddau mae'r cyfraniadau a dalwyd mewn gwirionedd wedi bod yn unol â'r cyfraniadau disgwyliedig yn seiliedig ar y dystysgrif cyfraniadau ac addasiadau gyfredol; ac
4. y graddau y gall unrhyw gynllun adfer diffyg newydd gael ei gysoni â, ac arddangos ei fod yn parhau ag, unrhyw gynllun adfer diffyg blaenorol, ar ôl darparu ar gyfer gwir brofiad y Gronfa.

Gall ACLlL asesu a chymharu'r metricsau hyn ar sail safonol sy'n berthnasol i'r farchnad, er enghraifft, pan nad yw sail actwaraidd cronfeydd lleol yn gwneud cymariaethau yn syml.

**Atodiad A - Fframwaith Rheoleiddio**

**A1 Pam fo'r Gronfa angen FSS?**

Mae'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol (ACLlL) wedi nodi mai diben yr FSS yw:

*“to establish a clear and transparent fund-specific strategy which will identify how employers’ pension liabilities are best met going forward;*

*to support the regulatory framework to maintain **as nearly constant employer contribution rates as possible**; and*

*to take a **prudent longer-term view** of funding those liabilities.”*

Gall yr amcanion hyn fod yn ddigon dymunol ar wahân, ond gallant wrthdaro wrth eu hystyried ar yr un pryd.

Mae'r gofyn i gynnal a chyhoeddi FSS wedi'i gynnwys yn y Rheoliadau CPLlL sy'n cael eu diweddaru o bryd i'w gilydd. Wrth gyhoeddi'r FSS, mae'r Awdurdod Gweinyddu wedi gorfod ystyried unrhyw ganllawiau a gyhoeddwyd gan y *Chartered Institute of Public Finance and Accountancy* (CIPFA) (yn fwyaf diweddar yn 2016) a'i Ddatganiad o Egwyddorion Buddsoddi / Datganiad Strategaeth Fuddsoddi.

Dyma'r fframwaith mae actwari'r Gronfa'n ei ddefnyddio i gynnal y prisiad bob tair blynedd i sefydlu cyfraniadau'r cyflogwyr ac i wneud argymhellion i'r Awdurdod Gweinyddu pan fo angen gwneud penderfyniadau cyllido eraill, pan a phryd y mae cyflogwyr yn ymuno â’r Gronfa neu yn ei gadael. Mae'r FSS yn berthnasol i'r holl gyflogwyr sy'n cymryd rhan yn y Gronfa.

**A2 A yw'r Awdurdod Gweinyddu yn ymgynghori ag unrhyw un ar yr FSS?**

Ydy. Mae hyn yn ofyn yn Rheoliadau'r CPLlL. Ymdrinnir â hyn mewn mwy o fanylder yng nghanllawiau diweddaraf CIPFA, sy'n nodi bod angen i'r FSS, yn gyntaf, fod yn destun “*consultation with such persons as the authority considers appropriate”,*ac y dylai gynnwys “a *meaningful dialogue at officer and elected member level with council tax raising authorities and with corresponding representatives of other participating employers*”.

Yn ymarferol, ar gyfer y Gronfa, roedd y broses ymgynghori ar gyfer yr FSS hwn fel a ganlyn:

a) Cylchredwyd fersiwn drafft o'r FSS i'r holl gyflogwyr sy'n cymryd rhan ym mis Ionawr 2017 am sylwadau;
b) Gofynnwyd am sylwadau o fewn 30 diwrnod;
c) Cynhaliwyd Fforwm Cyflogwyr ar 10 Tachwedd 2016 ac yno, roedd modd holi cwestiynau ynghylch strategaethau cyllido a chael ateb i'r cwestiynau hynny;
d) Yn dilyn diwedd y cyfnod ymgynghori, cafodd yr FSS ei ddiweddaru ble bo'r angen ac yna cafodd ei gyhoeddi, ym mis Mawrth.

**A3 Sut mae’r FSS yn cael ei gyhoeddi?**

Mae'r FSS ar gael fel a ganlyn:

Caiff ei gyhoeddi ar y wefan www.cronfabensiwngwynedd.org;

Anfonir copi e-bost at bob cyflogwr sy'n cymryd rhan yn y Gronfa;

Anfonir copi at gynrychiolwyr gweithwyr;

Copi llawn wedi'i gysyllt] o'r adroddiad blynyddol a chyfrifon y Gronfa;

Anfonir copïau at y rheolwyr buddsoddi ac ymgynghorwyr annibynnol;

Bydd copïau ar gael ar gais.

**A4 Pa mor aml mae'r FSS yn cael ei adolygu?**
Adolygir yr FSS mewn manylder o leiaf bob tair blynedd fel rhan o'r prisiad bob tair blynedd. Disgwylir i'r fersiwn hon barhau heb ei haddasu hyd nes yr ymgynghorir arni fel rhan o'r broses ffurfiol ar gyfer y prisiad nesaf yn 2019.

Mae’n bosib y bydd angen (mân) addasiadau yn ystod y cyfnod tair blynedd. Byddai angen i'r rhain adlewyrchu unrhyw newidiadau rheoleiddio, neu addasiadau i'r ffordd mae'r Gronfa'n gweithredu (e.e. i ddarparu ar gyfer dosbarth newydd o gyflogwr). Byddai ymgynghoriad yn cael ei gynnal ar unrhyw addasiadau o'r fath fel sy'n briodol:

- rhoddir gwybod i gyflogwyr am unrhyw fân newidiadau dibwys yn ystod y cylch nesaf o gyfathrebu â chyflogwyr,
- os bydd addasiadau yn effeithio ar un dosbarth o gyflogwyr yn unig, bydd ymgynghoriad yn cael ei gynnal â'r cyflogwyr hynny,
- byddai addasiadau mwy arwyddocaol yn destun ymgynghoriad llawn arall.

Mewn unrhyw achos, byddai angen i'r Pwyllgor Pensiynau ddod i gytundeb ar newidiadau i'r FSS a byddai'n cael ei gynnwys yn y cofnodion Cyfarfod Pwyllgor perthnasol.

**A5 Sut mae'r FSS yn ffitio i mewn i ddogfennau eraill y Gronfa?**
Mae'r FSS yn grynodeb o ddull y Gronfa o gyllido ymrwymiadau. Nid yw'n ddatganiad cynhwysfawr o'r polisi ar yr holl faterion, er enghraifft, mae nifer o ddatganiadau ar wahân yn cael eu cyhoeddi gan y Gronfa yn cynnwys y Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi/Datganiad Strategaeth Fuddsoddi, Strategaeth Lywodraethu a'r Strategaeth Gyfathrebu. Yn ogystal, mae'r Gronfa'n cyhoeddi Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol gyda gwybodaeth gyfredol am y Gronfa.

Gweler y dogfennau hyn ar y we yn www.cronfabensiwngwynedd.org

**Atodiad B - Cyfrifoldebau'r partïon allweddol**

Mae angen i'r partïon amrywiol oll chwarae eu rhan er mwyn i'r Gronfa weithredu'n effeithlon ac effeithiol.

**B1 Dylai'r Awdurdod Gweinyddu:-**

1. Weithredu'r Gronfa yn unol â'r Rheoliadau CPLlL;
2. rheoli'n effeithiol unrhyw wrthdaro buddiannau posib sy'n codi o'i rôl ddeublyg fel Awdurdod Gweinyddu a chyflogwr y Gronfa;
3. casglu cyfraniadau gan weithwyr a chyflogwyr, ynghyd ag incwm buddsoddi a symiau eraill sy'n ddyledus i'r Gronfa;
4. sicrhau fod arian parod ar gael i dalu buddion pan fyddant yn ddyledus;
5. talu o'r Gronfa'r buddion perthnasol a'r hawliadau sy'n ddyledus;
6. buddsoddi unrhyw arian dros ben (h.y. cyfraniadau ac incymau eraill nad oes eu hangen ar unwaith i dalu buddion) yn unol â Datganiad y Gronfa ar Egwyddorion Buddsoddi/Datganiad Strategaeth Fuddsoddi (SIP/ISS) a'r Rheoliadau CPLlL;
7. cyfathrebu'n effeithiol gyda chyflogwyr fel eu bod yn llwyr ddeall eu goblygiadau tuag at y Gronfa;
8. cymryd mesurau priodol i ddiogelu'r Gronfa yn erbyn y canlyniadau pan fo cyflogwr yn diffygdalu;
9. rheoli'r broses prisiad mewn ymgynghoriad ag actwari'r Gronfa;
10. darparu data a gwybodaeth fel sydd ei angen gan Adran Actwari'r Llywodraeth i gwblhau eu goblygiadau statudol (gweler Adran 5);
11. darparu a chynnal FSS a SIP/ISS, ar ôl ymgynghori;
12. hysbysu actwari'r Gronfa ynghylch newidiadau perthnasol a allai effeithio ar y cyllid (ymdrinnir â hyn mewn cytundeb ar wahân gyda'r actwari); a
13. monitro holl agweddau o berfformiad y gronfa a'r cyllido ac addasu'r FSS a'r SIP/ISS fel bo'r angen ac fel sy'n briodol.

**B2 Dylai'r Cyflogwr Unigol:-**

1. ddidynnu cyfraniadau o dâl gweithwyr yn gywir;
2. talu'r holl gyfraniadau, yn cynnwys ei rai eu hun fel y pennwyd gan yr actwari, yn brydlon erbyn y dyddiad dyledus;
3. cael polisi a gweithredu disgresiwn o fewn y fframwaith rheoleiddio;
4. gwneud cyfraniadau ychwanegol yn unol â threfniadau y cytunwyd arnynt mewn perthynas â, er enghraifft, gynnydd ym muddion y cynllun, straen yn sgil ymddeoliad cynnar; ac
5. hysbysu'r Awdurdod Gweinyddu yn brydlon ynghylch yr holl newidiadau yn ei amgylchiadau, rhagolygon neu aelodaeth, a allai effeithio ar gyllido yn y dyfodol.

**B3 Dylai Actwari'r Gronfa:-**

1. ddarparu prisiadau, yn cynnwys gosod cyfraddau cyfraniadau cyflogwyr. Bydd hyn yn cynnwys cytuno ar dybiaethau gyda'r Awdurdod Gweinyddu, gan ystyried yr FSS a'r Rheoliadau CPLlL, a thargedu diddyledrwydd pob cyflogwr yn briodol;
2. darparu data a gwybodaeth fel sydd ei angen gan Adran Actwari'r Llywodraeth i gwblhau eu goblygiadau statudol (gweler Adran 5 );
3. rhoi cyngor perthnasol i gyflogwyr newydd yn y Gronfa, gan gynnwys lefel a math y bondiau a ffurfiau eraill o ddiogelwch (a monitro'r rhain);
4. paratoi cyngor a chyfrifiadau mewn perthynas â throsglwyddiadau swmpus a materion unigol yn ymwneud â buddion;
5. cynorthwyo’r Awdurdod Gweinyddu i ystyried newidiadau posib i gyfraniadau cyflogwyr rhwng prisiadau ffurfiol, pan fo amgylchiadau'n awgrymu y gallai hyn fod yn angenrheidiol;
6. cynghori ar derfynu cyfranogiad cyflogwr yn y Gronfa; ac
7. adlewyrchu'n llawn ar ganllawiau proffesiynol actwaraidd ac ar y gofynion yn y cyngor a roddir i'r Awdurdod Gweinyddu.

**B4 Partïon eraill:-**

1. dylai ymgynghorwyr buddsoddi (naill ai'n fewnol neu'n allanol) sicrhau fod SIP/ISS y Gronfa'n parhau'n briodol ac yn gyson â'r FSS hwn;
2. dylai rheolwyr buddsoddi, ceidwaid a bancwyr i gyd chwarae eu rhan mewn perthynas â buddsoddi (a rhoi'r gorau i fuddsoddi) asedau'r Gronfa, yn unol â'u SIP/ISS;
3. dylai archwilwyr gydymffurfio â'u safonau archwilio eu hunain, sicrhau cydymffurfiaeth y Gronfa â'r holl ofynion, monitro a chynghori ar ganfod twyll, ac arwyddo adroddiadau blynyddol a datganiadau ariannol yn derfynol fel bo'r angen;
4. efallai y penodir ymgynghorwyr llywodraethu i gynghori'r Awdurdod Gweinyddu ar brosesau a dulliau gweithio effeithlon o ran rheoli'r Gronfa;
5. dylai ymgynghorwyr cyfreithiol (naill ai'n fewnol neu'n allanol) sicrhau fod gweithrediad y Gronfa a'i rheolaeth yn parhau i gydymffurfio â'r holl reoliadau a gofynion llywodraeth leol ehangach, gan gynnwys gweithdrefnau'r Awdurdod Gweinyddu ei hun;
6. dylai'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol (gyda chymorth gan Adran Actwari'r Llywodraeth) a Bwrdd Cynghori'r Cynllun, weithio â Chronfeydd CPLlL i fodloni gofynion Adran 13.

**Atodiad C - Prif risgiau a rheolaethau**

**C1 Mathau o risg**

Mae gan yr Awdurdod Gweinyddu raglen rheoli risg weithredol yn ei lle. Mae'r mesurau sydd ganddo yn ei le i reoli risgiau allweddol wedi'u crynhoi isod dan y penawdau a ganlyn:

ariannol;

demograffig;

rheoleiddio; a

llywodraethu.

**C2 Risgiau ariannol**

| **Risg** | **Crynodeb o'r Mecanweithiau Rheoli** |
|---|---|
| Asedau'r gronfa yn methu â chyflawni enillion yn unol â'r enillion a ragwelwyd sy'n tanategu prisiad yr ymrwymiadau dros y tymor hir. | Ddim ond yn rhagweld enillion tymor hir ar sail gweddol ddarbodus er mwyn lleihau'r risg o danberfformio.<br><br>Asedau'n cael eu buddsoddi yn seiliedig ar gyngor arbenigol, mewn dull amrywiol addas ar draws y dosbarthiadau ased, daearyddiaeth, rheolwyr, ac ati.<br><br>Dadansoddi cynnydd yn ystod y prisiadau bob tair blynedd i'r holl gyflogwyr.<br><br>Rowlio'r ymrwymiadau ymlaen rhwng prisiadau ar lefel Cronfa gyfan. |
| Strategaeth fuddsoddi hirdymor amhriodol. | Opsiynau ar gyfer y strategaeth fuddsoddi gyffredinol wedi'u hystyried fel rhan hanfodol o'r strategaeth gyllido. Wedi defnyddio Modelu ymrwymiadau ased i fesur 4 deilliant allweddol.<br><br>Ystyrir mai'r opsiwn sydd wedi'i ddewis sy'n rhoi'r cydbwysedd gorau. |
| Cwymp mewn enillion heb risg ar fondiau'r Llywodraeth, gan arwain at gynnydd yn y gwerth a roddir ar ymrwymiadau. | Mae modelu sefydlogi ar lefel y Gronfa gyfan yn caniatáu ar gyfer tebygolrwydd o hyn o fewn cyd-destun mwy hirdymor.<br><br>Monitro rhwng prisiadau, fel yr uchod.<br><br>Mae buddsoddi rhywfaint mewn bondiau yn cynorthwyo i liniaru'r risg. |
| Tanberfformiad rheolwr buddsoddi gweithredol mewn perthynas â'r | Mae monitro buddsoddiadau yn chwarterol yn dadansoddi perfformiad y farchnad a rheolwyr gweithredol o ran eu meincnod |

| Risg | Crynodeb o’r Mecanweithiau Rheoli |
|---|---|
| meincnod. | mewn perthynas â'r farchnad. |
| Chwyddiant cyflog a phrisiau yn sylweddol uwch na ragwelwyd. | Mae ffocws y broses brisio actwaraidd ar wir enillion ar asedau, gan gynnwys cynnydd mewn prisiau a chyflogau.<br><br>Mae monitro rhwng prisiadau, fel yr uchod, yn rhoi rhybudd cynnar.<br><br>Mae buddsoddi rhywfaint mewn bondiau yn cynorthwyo i liniaru'r risg yn ogystal.<br><br>Mae cyflogwyr yn talu am eu cyflogau eu hunain a dylent fod yn ystyriol o'r effaith y caiff unrhyw fias mewn codiadau cyflog pensiynadwy tuag at weithwyr sydd wedi gwasanaethu am gyfnod hwy, ar ymrwymiadau pensiwn. |
| Effaith cynnydd posib mewn cyfraddau cyfraniadau cyflogwyr ar gyflwyniad y gwasanaeth ac ar gyrff a ganiateir / cyrff ar yr atodlen. | Mae mecanwaith sefydlogi penodol wedi'i gytuno fel rhan o'r strategaeth gyllido. Mae mesurau eraill yn eu lle hefyd i gyfyngu ar gynnydd cyflym mewn cyfraniadau. |
| Mae cyflogwyr amddifad yn arwain at gostau ychwanegol i'r Gronfa. | Mae'r Gronfa'n ceisio dyled darfyddiad (neu sicrwydd/gwarantwr) i isafu'r risg y bydd hyn yn digwydd yn y dyfodol.<br><br>Os bydd yn digwydd, mae'r Actwari yn cyfrifo'r gost ychwanegol wedi'i rhannu ar sail pro-rata ymysg yr holl gyflogwyr - gweler 3.9). |

**C3 Risgiau demograffig**

| Risg | Crynodeb o’r Mecanweithiau Rheoli |
|---|---|
| Pensiynwyr yn byw yn hirach, gan gynyddu'r gost i'r Gronfa. | Gosod tybiaethau marwoldeb gyda pheth lwfans am gynnydd mewn disgwyliad oes yn y dyfodol.<br><br>Mae gan Actwari'r Gronfa fynediad uniongyrchol at brofiadau dros 50 o gronfeydd CPLlL sy'n caniatáu ar gyfer adnabod yn gynnar unrhyw newidiadau mewn disgwyliad oes a allai yn eu tro effeithio ar y tybiaethau sy'n tanategu'r prisiad. |

| Risg | Crynodeb o’r Mecanweithiau Rheoli |
|---|---|
| Cronfa sy'n Aeddfedu - h.y. cyfradd y gweithwyr sy'n cyfrannu'n weithredol yn gostwng o gymharu â nifer y gweithwyr sydd wedi ymddeol. | Parhau i fonitro yn ystod pob prisiad, ystyried ceisio symiau o arian yn hytrach na % o'r cyflog ac ystyried strategaethau buddsoddi amgen. |
| Patrymau o ymddeoliadau cynnar sy'n dirywio | Codir ffi ychwanegol ar gyflogwyr mewn perthynas â chostau ychwanegol ymddeoliadau nad ydynt yn seiliedig ar iechyd yn dilyn pob penderfyniad unigol.<br><br>Mae profiad ymddeoliad ar sail iechyd gweithwyr yn cael ei fonitro, ac mae polisi yswiriant ar sail iechyd yn ei le ar gyfer cyflogwyr llai. |
| Gostyngiadau yn y gyflogres yn arwain at daliadau adfer diffyg annigonol | Mewn sawl achos, efallai na fydd hyn yn ddigon o destun pryder, a bydd yn derbyn sylw yn ystod y prisiad ffurfiol nesaf. Fodd bynnag, mae gwarchodaeth pan fo pryderon, fel a ganlyn:<br><br>Efallai y tynnir cyflogwyr sydd wedi'u cynnwys yn y mecanwaith sefydlogi allan o'r mecanwaith hwnnw i ganiatáu ar gyfer cynnydd priodol mewn cyfraniadau (gweler Nodyn (b) i 3.3).<br><br>I gyflogwyr eraill, caniateir adolygu cyfraniadau yn gyffredinol rhwng prisiadau (gweler Nodyn (f) i 3.3). Mae'r Gronfa'n sicrhau fod yr holl gyfraniadau diffyg yn cael eu talu fel symiau penodol o arian yn hytrach na chanran o'r gyflogres. |

**C4 Risgiau rheoleiddio**

| Risg | Crynodeb o’r Mecanweithiau Rheoli |
|---|---|

| | |
|---|---|
| Newidiadau i'r gofynion pensiwn cenedlaethol ac/neu reolau HMRC e.e. newidiadau sy'n codi o ddiwygio pensiynau'r sector cyhoeddus. | Mae'r Awdurdod Gweinyddu'n ystyried yr holl bapurau ymgynghori a gyflwynwyd gan y Llywodraeth ac yn gwneud sylwadau fel sy'n briodol.<br><br>Cafodd canlyniadau'r diwygiadau mwyaf diweddar eu hymgorffori ym mhrisiad 2013. Bydd unrhyw newidiadau i gyfraddau cyfraniadau aelodau neu lefelau buddion yn cael eu cyfathrebu'n ofalus i aelodau er mwyn lleihau'r tebygolrwydd fod aelodau'n dewis peidio ag ymuno â'r cynllun neu gamau andwyol. |
| Amser, cost ac/neu risgiau i enw da sy'n gysylltiedig ag unrhyw ymyrraeth gan yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol wedi'i symbylu gan y dadansoddiad Adran 13 (gweler Adran 5 ). | Cymryd cyngor gan Actwari'r Gronfa ar sefyllfa'r Gronfa fel ag yr oedd yn ystod y prisiad blaenorol, ac ystyried y dull prisio arfaethedig mewn perthynas â'r dadansoddiad Adran 13 a ragwelir. |
| Newidiadau gan y Llywodraeth i gyfranogiad cyflogwr penodol mewn Cronfeydd CPLIL, gan arwain at effeithiau ar gyllido ac/neu strategaethau buddsoddi. | Mae'r Awdurdod Gweinyddu'n ystyried yr holl bapurau ymgynghori a gyflwynwyd gan y Llywodraeth ac yn gwneud sylwadau fel sy'n briodol.<br><br>Cymryd cyngor gan Actwari'r Gronfa ar effaith y newidiadau ar y Gronfa ac addasu'r strategaeth fel sy'n briodol. |

**C5 Risgiau llywodraethu**

| **Risg** | **Crynodeb o’r Mecanweithiau Rheoli** |
|---|---|
| Awdurdod Gweinyddu ddim yn ymwybodol o newidiadau strwythurol mewn aelodaeth cyflogwr (e.e. cwymp mawr yn y niferoedd aelodau, nifer uchel o ymddeoliadau) neu heb gael eu hysbysu fod cyflogwr yn cau'r Gronfa i ddechreuwyr newydd. | Mae gan yr Awdurdod Gweinyddu berthynas agos â chyrff cyflogi ac yn cyfathrebu'r safonau gofynnol iddynt, e.e. cyflwyno data.<br><br>Gall yr Actwari adolygu'r dystysgrif cyfraddau ac Addasiadau i gynyddu cyfraniadau cyflogwyr rhwng y prisiad bob tair blynedd.<br><br>Gellir mynegi cyfraniadau diffyg fel symiau ariannol. |
| Ni cheisir cyngor actwaraidd nac ar fuddsoddi, neu nid ydyw'n cael ei ystyried, neu profir ei fod yn annigonol | Mae'r Awdurdod Gweinyddu yn parhau mewn cysylltiad agos â'i ymgynghorwyr arbenigol. |

| **Risg** | **Crynodeb o’r Mecanweithiau Rheoli** |
|---|---|
| mewn unrhyw ffordd | Cyflwynir data drwy gyfarfodydd ffurfiol sydd hefyd yn cynnwys Aelodau Etholedig, ac fe'u cofnodir yn briodol.<br><br>Mae cyngor actwaraidd yn destun gofynion proffesiynol megis adolygiad cymheiriaid. |
| Yr Awdurdod Gweinyddu'n methu â chomisiynu Actwari'r Gronfa i gynnal prisiad terfynu ar gyfer Corff a Ganiateir sy'n gadael y Gronfa. | Mae'r Awdurdod Gweinyddu’n gofyn i gyflogwyr sydd â chontractwyr Gwerth Gorau i'w hysbysu o'u newidiadau arfaethedig.<br><br>Mae aelodaeth Cyrff Cymunedol a Ganiateir yn cael ei fonitro, ac os bydd aelodaeth weithredol yn gostwng, cymerir camau. |
| Cyflogwr yn dirwyn i ben gyda chyllid neu fond annigonol. | Mae'r Awdurdod Gweinyddu'n credu y byddai fel arfer yn rhy hwyr i ymdrin â'r sefyllfa hon pe byddai'n cael ei gadael hyd nes yr amser ymadael.<br><br>Lliniarir y risg drwy:<br><br>Geisio gwarantwr cyllido gan gyflogwr arall yn y cynllun, neu gorff allanol, ble bynnag y bo modd (gweler Nodiadau (h) a (i) i 3.3).<br><br>Tynnu sylw'r darpar gyflogwr at ei oblygiadau a'i annog i gymryd cyngor actwaraidd annibynnol.<br><br>Archwilio cefndir darpar gyflogwyr cyn eu caniatáu.<br><br>Pan fo'r rheoliadau'n caniatáu hynny, gofyn am fond i amddiffyn y Gronfa rhag risgiau amrywiol.<br><br>Angen i Gyrff Cymunedol a Ganiateir newydd fod â gwarantwr.<br><br>Adolygu trefniadau bondiau neu warantwr yn rheolaidd (gweler Nodyn (f) i 3.3).<br><br>Adolygu cyfraniadau mewn da bryd cyn iddynt roi'r gorau i fod yn aelod, os teimlir fod hynny'n briodol (gweler Nodyn (a) i 3.3). |

## Atodiad D - Cyfrifo cyfraniadau Cyflogwr

Yn Adran 2 cafwyd disgrifiad bras o'r ffordd mae cyfraddau cyfraniadau yn cael eu cyfrifo. Mae'r Atodiad yma yn ystyried y cyfrifiadau hyn yn fanylach.

Caiff y tri cham uchod eu hystyried wrth osod cyfraniadau (ceir rhagor o fanylion yn Adran 3 ac Atodiad D:

1. Seiliwyd y **targed cyllido** ar gyfres o ragdybiaethau am y dyfodol, e.e. enillion buddsoddiadau, chwyddiant, disgwyliadau oes pensiynwyr. Er hynny, os yw Cyflogwr yn dod at ddiwedd ei gyfnod fel aelod o'r Gronfa yna gellid gosod ei darged cyllido ar sail fwy darbodus, fel bod ei ymrwymiadau yn llai tebygol o gael eu gwasgaru ymysg cyflogwyr eraill ar ôl iddo derfynu ei gyfranogiad;
2. Yn fras iawn, **y cyfnod amser** sydd ei angen yw'r cyfnod pan fydd unrhyw ddiffyg yn cael ei adfer. Bydd cyfnod llai yn arwain at gyfraniadau uwch ac fel arall (os fydd popeth arall yn ei le). Efallai y bydd cyflogwyr yn cael cyfnod amser llai os oes ganddynt aelodaeth ragweladwy lai parhaol neu os nad oes ganddynt bwerau i godi trethi i gynyddu cyfraniadau os yw enillion buddsoddiadau yn tanberfformio;
3. Mae'r **tebygolrwydd gofynnol i gyflawni'r** targed cyllido yn ystod y cyfnod hwnnw yn ddibynnol ar farn y Gronfa am gryfder cyfamod y cyflogwr a'i broffil cyllido. Pan ystyrir fod cyflogwr yn wannach, neu o bosib yn rhoi'r gorau i'r Gronfa, yna bydd y tebygolrwydd gofynnol yn cael ei osod yn uwch, ac yn ei dro bydd yn cynyddu'r cyfraniadau gofynnol (ac fel arall).

Mae'r cyfrifiadau yn golygu rhagdybiaethau actwaraidd am brofiad yn y dyfodol, ac fe'i disgrifir yn fanwl yn Atodiad E.

### D1 Beth yw'r gwahaniaeth rhwng cyfrifiadau ar draws y Gronfa gyfan a chyfrifiadau ar gyfer cyflogwr unigol?

Fel arfer, mae cyfraniadau cyflogwr yn cynnwys dwy elfen:

a) amcan gost o fuddiannau parhaus wedi eu cronni, y cyfeiriwyd ato fel "cyfradd cyfraniad sylfaenol" (gweler **D2** isod) yn ogystal â

b) addasiad am y gwahaniaeth rhwng y raddfa Sylfaenol uchod a'r cyfraniad gwirioneddol sydd angen i'r cyflogwr ei dalu, y cyfeiriwyd ato fel y 'raddfa cyfraniadau eilaidd" (gweler **D3** isod).

Mae'r gyfradd gyfrannu i bob cyflogwr yn cael ei mesur fel yr uchod, yn briodol i sefyllfa gyllido bob cyflogwr a'r aelodaeth. Mae sefyllfa'r Gronfa gyfan, yn cynnwys yr hyn a ddefnyddiwyd i adrodd i ACLlL (gweler adran 5) wedi ei gyfrif fel y swm i holl gyfraddau cyflogwr unigol. Ar hyn o bryd mae ACLlL ond yn rheoleiddio ar lefel y Gronfa gyfan heb fonitro sefyllfa cyflogwr unigol.

### D2 Sut mae cyfradd y cyfraniad Sylfaenol yn cael ei gyfrif?

Mae elfen Sylfaenol cyfradd cyfraniad y cyflogwr yn cael ei gyfrif gyda'r nod y bydd y cyfraniadau hyn yn cwrdd â thaliadau buddion o safbwynt gwasanaeth yr aelodau yn y Gronfa yn y **dyfodol**. Seiliwyd hyn ar gost (yn fwy na chyfraniadau'r aelodau) y buddion mae aelodau sy'n weithwyr yn ei ennill o'u gwasanaeth bob blwyddyn.

Caiff y gyfradd Sylfaenol ei chyfrifo ar wahân i'r holl gyflogwyr, er y bydd cyflogwr mewn pŵl yn talu'r gyfradd gyfraniadau fydd yn gymwys i'r gronfa gyfan. Caiff y gyfradd Sylfaenol ei chyfrif fel ei bod yn rhagamcanu ei bod yn:

1. cwrdd â’r targed cyllido gofynnol ar gyfer holl fuddion cronnus blynyddoedd yn y dyfodol*, heb gynnwys unrhyw asedau cronnus,
2. o fewn y cyfnod amser a bennwyd (gweler **nodyn 3.3 Nodyn (c)** am fwy o fanylion),
3. gyda thebygolrwydd digon uchel, fel y nodwyd gan strategaeth y Gronfa i gategori'r cyflogwr (gweler **3.3 Nodyn (e)** am fwy o fanylion).

* Mae'r rhagamcan ar gyfer aelodaeth weithredol bresennol ble nad yw'r cyflogwr bellach yn derbyn dechreuwyr o'r newydd, neu yn ychwanegol yn caniatáu dechreuwyr newydd ble fo hynny yn briodol.

Mae'r rhagamcanion yn cael eu gweithredu drwy ddefnyddio modelwr economaidd a ddatblygwyd gan actwari'r Gronfa sef Hymans Robertson: mae hyn yn caniatáu i ystod eang o ddeilliannau o ran ffactorau allweddol fel enillion asedau (wedi eu seilio ar strategaeth fuddsoddi'r Gronfa), chwyddiant ac elw bondiau. Caiff y cyfraniadau a fesurwyd eu cyfrifo fel bod y gyfran o'r deilliannau yn cwrdd gyda tharged cyllido’r cyflogwr (erbyn diwedd y cyfnod amser) yn hafal i'r tebygolrwydd gofynnol.

Mae'r dull yn cynnwys treuliau gweinyddu i'r graddau fel eu bod yn cael eu hysgwyddo gan y Gronfa ac yn cynnwys lwfansau am fuddion sy’n daladwy os yw rhywun yn marw mewn gwasanaeth ac wrth ymddeol ar sail salwch.

**D3 Sut mae cyfradd y cyfraniad eilaidd yn cael ei gyfrifo?**

Nod y cyfraddau sylfaenol ac eilaidd yw cyflawni targed cyllido’r cyflogwr, o fewn y cyfnod amser priodol, gyda'r raddfa berthnasol o debygolrwydd.

Ar gyfer y targed cyllido, mae actwari'r Gronfa yn cytuno ar y rhagdybiaethau sydd i'w defnyddio gyda'r Awdurdod Gweinyddu - gweler **Atodiad E**. Defnyddir y rhagdybiaethau i gyfrifo gwerth presennol yr holl daliadau buddion a ddisgwylir yn y dyfodol, sy'n berthnasol i weithwyr presennol a chyn-weithwyr y cyflogwr hwnnw, ar sail gwasanaeth pensiynadwy i'r dyddiad prisio yn unig (h.y. anwybyddu unrhyw fuddion pellach fydd yn cael eu cronni yn y dyfodol).

Mae'r Gronfa yn gweithredu ar yr un lefel targed cyllido i'r holl gyflogwyr sef 100% o'r ymrwymiadau cronnus wedi eu prisio ar sail barhaus, oni bai y penderfynir yn wahanol (gweler **Adran 3**).

Caiff y gyfradd eilaidd ei chyfrifo fel y balans dros ac uwchben y gyfradd Sylfaenol, fel bod y cyfanswm yn rhagamcanu i:

1. gwrdd â'r targed cyllido gofynnol sy'n ymwneud â holl fuddion cronnus gwasanaeth yn y dyfodol a'r gorffennol, yn cynnwys cyfran asedau cronnus (gweler **D5** isod)
2. o fewn y cyfnod amser a bennwyd (gweler **3.3 Nodyn (c)** am fwy o fanylion)
3. gyda thebygolrwydd digon uchel, fel y nodwyd gan strategaeth y Gronfa i gategori'r Cyflogwr (gweler **3.3** **Nodyn (e)** am fwy o fanylion).

Mae'r rhagamcanion yn cael eu gweithredu drwy ddefnyddio modelwr economaidd a ddatblygwyd gan actwari'r Gronfa Hymans Robertson: mae hyn yn caniatáu i ystod eang o ddeilliannau o ran ffactorau allweddol fel enillion asedau (wedi eu seilio ar strategaeth fuddsoddi'r Gronfa, chwyddiant ac elw bondiau). Caiff y cyfraniadau a

fesurwyd eu cyfrifo fel bod y gyfran o'r canlyniadau yn cwrdd gyda tharged cyllido'r cyflogwr (erbyn diwedd y cyfnod amser) yn hafal i'r tebygolrwydd gofynnol.

**D4 Beth sydd yn effeithio ar ganlyniadau prisio cyflogwr penodol?**
Bydd canlyniadau'r cyfrifiadau hyn ar gyfer cyflogwr unigol penodol yn cael eu heffeithio gan:

1. gyfraniadau yn y gorffennol o'i gymharu â chost buddion cronnus;
2. gwahanol broffiliau ymrwymiadau'r cyflogwr (e.e. cymysgedd o aelodau yn ôl oed, rhyw, gwasanaeth yn erbyn cyflog);
3. effaith unrhyw wahaniaethau yn y targed cyllido h.y. y sail brisio a ddefnyddiwyd i brisio ymrwymiadau'r cyflogwr;
4. unrhyw gyfnodau amser gwahanol;
5. y gwahaniaeth rhwng cynnydd gwirioneddol a thybiedig i gyflog pensiynadwy;
6. y gwahaniaeth rhwng cynnydd gwirioneddol a thybiedig i daliadau pensiwn a phensiynau gohiriedig;
7. y gwahaniaeth rhwng ymddeoliadau gwirioneddol a thybiedig ar sail salwch o statws gweithredol;
8. y gwahaniaeth rhwng symiau gwirioneddol a thybiedig o bensiwn yn dod i ben wedi marwolaeth;
9. costau ychwanegol unrhyw ymddeoliadau nad ydynt ar sail salwch o'i gymharu ag unrhyw daliadau ychwanegol a wneir; a/neu
10. y gwahaniaethau yn y tebygolrwydd gofynnol o gyflawni'r targed cyllido.

**D5 Sut mae cyfran asedau pob cyflogwr yn cael ei gyfrifo?**
Nid yw'r Awdurdod Gweinyddu yn rhoi cyfrif ar gyfer asedau pob cyflogwr ar wahân. Yn hytrach, mae'n ofynnol fod actwari'r Gronfa yn dyrannu asedau'r Gronfa gyfan rhwng y cyflogwyr ymhob prisiad a gynhelir bob tair blynedd.

Mae'r dyraniad yma yn defnyddio'r ffigyrau incwm a gwariant a ddarparwyd ar gyfer rhai llifoedd arian i bob cyflogwr. Mae'r broses hon yn addasu ar gyfer trosglwyddo ymrwymiadau rhwng cyflogwyr sy'n cymryd rhan yn y Gronfa, ond mae yn gwneud nifer o ragdybiaethau wedi eu symleiddio. Cyfrifir y rhaniad drwy ddefnyddio techneg actwari sef 'dadansoddi'r gwarged'.

Mae'r enillion gwirioneddol ar fuddsoddiadau mae'r Gronfa'n eu derbyn rhwng pob prisiad yn cael eu gosod yn gyfatebol ar draws yr holl gyflogwyr, i'r graddau fod cyflogwyr mewn gwirionedd yn rhannu'r un strategaeth fuddsoddi. Mae trosglwyddo ymrwymiadau rhwng cyflogwyr yn y Gronfa yn digwydd yn awtomatig yn y broses hon gyda swm sy'n gyfwerth yn fras â'r arian wrth gefn sydd ei angen ar y sail barhaus yn cael ei gyfnewid rhwng y ddau gyflogwr.

Nid yw actwari'r Gronfa yn ystyried rhai digwyddiadau penodol cymharol fychan, gan gynnwys ond ddim yn gyfyngedig i:

1. amseriad gwirioneddol cyfraniadau cyflogwr mewn unrhyw flwyddyn ariannol;

2. effaith taliad cynamserol unrhyw bensiynau sy'n cael eu gohirio ar sail analluedd.

Mae'r effeithiau hyn yn cael eu cynnwys dan eitem amrywiol yn y dadansoddiad o warged, sydd wedi'i rannu rhwng y cyflogwyr yn gymesur â'u hymrwymiadau.

Golyga'r fethodoleg a fabwysiadwyd y bydd peth gwahaniaeth anorfod rhwng y cyfrannau asedau a gyfrifir ar gyfer cyflogwyr unigol a'r rheini a fyddai wedi eu cyfrifo pe byddai ganddynt adran benodol o’r Gronfa wedi’i chlustnodi iddynt eu hunain.

Gellir gwirio dosraniad yr asedau ond nid i safon archwilio.  Mae'r Awdurdod Gweinyddu yn cydnabod cyfyngiadau'r broses, ond mae yn ystyried fod dull actwari'r Gronfa yn ymdrin â risgiau croes gymorthdalu cyflogwyr i raddau derbyniol.

**Atodiad E - Rhagdybiaethau Actwaraidd**

**E1 Beth yw rhagdybiaethau actwaraidd?**

Disgwyliadau yw'r rhain o brofiad y dyfodol a ddefnyddiwyd i roi gwerth ar daliadau buddion y dyfodol ("yr ymrwymiadau"). Mae rhagdybiaethau yn cael eu gwneud am swm y buddion sy'n daladwy i'r aelodau (y rhagdybiaethau ariannol) a'r tebygolrwydd neu amseriad y taliadau (y rhagdybiaethau demograffig). Er enghraifft, mae rhagdybiaethau ariannol yn cynnwys enillion buddsoddiad, twf cyflog a chynnydd pensiwn; mae rhagdybiaethau demograffig yn cynnwys disgwyliad oes, tebygolrwydd o ymddeoliad yn sgil salwch a'r cyfraddau o farwolaethau aelodau sy'n arwain at dalu buddion i ddibynyddion.

Bydd newidiadau mewn rhagdybiaethau yn effeithio ar y targed cyllido a fesurwyd. Er hynny, ni fydd rhagdybiaethau gwahanol yn effeithio ar y buddion gwirioneddol sy'n daladwy gan y Gronfa yn y dyfodol.

Disgrifir y cyfuniad o'r holl ragdybiaethau fel y 'sail'. Gallai sail fwy gobeithiol efallai olygu enillion buddsoddi uwch tybiedig (cyfradd disgownt) neu dwf is na'r hyn a dybiwyd mewn cyflog, cynnydd pensiwn neu ddisgwyliad oes; bydd sail fwy gobeithiol yn rhoi targedau cyllido is a chostau cyflogwyr is. Bydd sail fwy darbodus yn rhoi targedau cyllido uwch a chostau cyflogwyr uwch.

**E2 Pa sail a ddefnyddir gan y Gronfa?**

Disgrifir sail cyllido safonol y Gronfa fel y 'sail barhaus', sy'n gymwys i fwyafrif y cyflogwyr yn y mwyafrif o amgylchiadau. Caiff hyn ei ddisgrifio'n fanylach isod. Mae'n rhagdybio y bydd cyflogwyr yn aros yn y Gronfa am yr hirdymor.

Er hynny, mewn rhai amgylchiadau, fel arfer pan na ddisgwylir i gyflogwr aros yn y Gronfa am yr hirdymor, mae sail fwy darbodus yn gymwys: gweler Nodyn (a) i 3.3.

**E3 Pa ragdybiaethau a wneir ar sail barhaus?**

**a) Enillion buddsoddiad /Cyfradd disgownt**

Y rhagdybiaeth ariannol allweddol yw'r enillion a ragwelir ar fuddsoddiadau'r Gronfa. Mae'r rhagdybiaeth 'cyfradd disgownt' yma'n rhoi ystyriaeth i enillion gwell na'r disgwyl o'r Gronfa o'i gymharu gydag enillion hirdymor ar fondiau Llywodraeth y DU (‘giltiau’). Er hynny, nid oes unrhyw sicrwydd y bydd enillion y Gronfa yn perfformio yn well na giltiau. Mae'r risg yn fwy wrth fesur dros gyfnodau byr fel y tair blynedd rhwng prisiadau actwaraidd ffurfiol, pan gall yr enillion gwirioneddol a'r rhai a dybiwyd wyro yn arw.

O gofio am natur hirdymor yr ymrwymiadau, fe gymerir golwg hirdymor ar enillion asedau posib. Yr hirdymor yn y cyd-destun hwn fyddai 20 i 30 mlynedd neu fwy.

I ddibenion y prisiad cyllido bob tair blynedd ar 31 Mawrth 2016 a gosod cyfraddau cyfraniadau yn weithredol o 1 Ebrill 2017, mae actwari'r Gronfa wedi tybio fod yr enillion buddsoddi yn y dyfodol gan y Gronfa dros yr hirdymor yn 1.7% y flwyddyn yn fwy na'r enillion giltiau ar adeg y prisiad (mae hyn yr un fath ag a ddefnyddiwyd ym mhrisiad 2013). Barn actwari’r Gronfa, ar sail strategaeth fuddsoddi bresennol y Gronfa, yw bod rhagdybiaeth perfformiad gwell yr ased yma o fewn ystod a fyddai'n cael ei ystyried yn dderbyniol i ddibenion y prisiad cyllido.

**b) Twf cyflog**

Ar hyn o bryd mae cyflog gweithwyr sector cyhoeddus yn amodol i gyfyngiad gan Lywodraeth y DU tan 2020. Er nad yw'r 'rhewi cyflogau' yma yn swyddogol yn gymwys i lywodraeth leol a chyflogwyr cysylltiedig, fe awgrymwyd eu bod yn debygol o ddangos rheolaeth debyg o ran dyfarniadau cyflog. Ar sail dadansoddiad hanesyddol hirdymor o aelodaeth cronfeydd Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, a pharhad gyda mesurau cyni, mae tybiaeth cynnydd cyflog ar brisiad 2016 wedi ei osod fel cyfradd gymysg sy'n cyfuno:

1. 1% y.f. tan 31 Mawrth 2020 ac yna dilynir gan
2. 0.5% uwchben Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) y flwyddyn wedi hynny.

Mae hyn yn gyfystyr â rhagdybiaeth cynnydd cyflog unigol CPI.

Mae hyn yn newid o'r prisiad blaenorol oedd yn tybio 1%y.f. am dair blynedd ar gyfer Mynegai Perfformiad Parhaus (RPI) ynghyd â 1% y.f. wedi hynny. Mae'r newid wedi arwain i ostyngiad yn y targed cyllido (gyda phopeth arall yn gyfartal).

**c) Cynnydd mewn pensiwn**

Ers 2011 CPI yn hytrach na RPI fu sail cynnydd pensiwn sector cyhoeddus gohiriedig a phensiynau taladwy. Dalier sylw fod sail cynnydd o'r fath wedi ei osod gan y Llywodraeth ac nid yw o dan reolaeth y Gronfa nag unrhyw gyflogwyr.

Fel ag yn y prisiad blaenorol, daw ein rhagdybiaeth am RPI o ddata'r farchnad fel y gwahaniaeth rhwng yr enillion ar log sefydlog cyfnod hir a bondiau'r llywodraeth sy'n gysylltiedig â'r farchnad. Caiff hwn wedyn ei ostwng i gyrraedd at y rhagdybiaeth CPI i ganiatáu i effaith y fformiwla i wahaniaethu rhwng RPI a CPI. Yn y prisiad yma rydym wedi defnyddio gostyngiad o 1.0% y flwyddyn. Mae hwn yn ostyngiad mwy na yn 2013, a bydd yn lleihau'r targed cyllido (gyda phopeth arall yn gyfartal). (Nodwch fod y gostyngiad yn cael ei ddefnyddio ar sail geometrig nid rhifyddeg).

**d) Disgwyliad Oes**

Bwriedir i'r tybiaethau demograffig fod yr amcangyfrifon gorau ar gyfer profiad y Gronfa yn y dyfodol ar sail profiad cronfeydd CPLlL yn y gorffennol sy'n cymryd rhan yn 'Club Vita', y gwasanaeth dadansoddol hirhoedledd a ddefnyddiwyd gan y Gronfa ac a gefnogwyd gan yr actwari.

Mae’r rhagdybiaethau hirhoedledd a fabwysiadwyd ar gyfer prisiad yn gyfres bwrpasol o 'VitaCurves' sydd wedi’u cynhyrchu gan ddadansoddiad manwl Club Vita ac wedi eu teilwra'n benodol i gyd-fynd â phroffil aelodau’r gronfa. Seliwyd y rhain ar y data a ddarparwyd gan y Gronfa i ddibenion y prisiad hwn.

Cydnabyddir fod disgwyliad oes yn y dyfodol ac, yn arbennig, y lwfans ar gyfer gwelliannau mewn disgwyliad oes, yn ansicr. Mae consensws ymysg actiwarïaid, demograffwyr ac arbenigwyr meddygol y bydd disgwyliad oes yn parhau i wella yn y dyfodol. Rhoddwyd lwfans yn y sail prisiad parhaus i welliannau yn y dyfodol yn unol â fersiwn 2013 o'r model Ymchwiliad Parhaus i Farwolaethau a gyhoeddwyd gan y Proffesiwn Actwaraidd gyda lleiafswm o 1.25% y flwyddyn i danategu gostyngiadau yn y dyfodol mewn cyfraddau marwolaeth. Mae hyn yn lwfans tebyg ar gyfer gwelliannau yn y dyfodol a wnaed yn 2013.

Mae'r dull a gymerwyd yn cael ei ystyried yn rhesymol o gofio natur hirdymor y Gronfa a'r lefel dybiedig o sicrwydd i danategu buddion aelodau.

**e) Cyffredinol**

Mabwysiadwyd yr un tybiaethau ariannol ar gyfer y mwyafrif o gyflogwyr wrth gyrraedd at y targed cyllido sy'n tanategu cyfraddau Sylfaenol ac eilaidd fel a ddisgrifiwyd yn ( 3.3 ), mae'r ffigyrau hyn a gyfrifwyd wedi eu trosi mewn gwahanol ffyrdd i gyfraniadau cyflogwr, yn dibynnu ar amgylchiadau'r cyflogwr.

Mae'r rhagdybiaethau demograffig, yn enwedig y rhagdybiaeth disgwyliad oes, mewn gwirionedd yn amrywio yn ôl y math o aelod gan felly adlewyrchu gwahanol broffiliau aelodaeth cyflogwyr.

**Atodiad F - Rhestr Termau**

| | |
|---|---|
| **Rhagdybiaethau /Sail Actwaraidd** | Cyfres gyfunol o ragdybiaethau wnaed gan actwari, am y dyfodol, i gyfrifo gwerth y **targed cyllido**. Bydd y prif ragdybiaethau yn ymwneud â'r **gyfradd disgownt**, twf cyflog, cynnydd pensiwn a hirhoedledd. Bydd rhagdybiaethau mwy darbodus yn rhoi gwerth targed uwch, ble bydd rhagdybiaethau mwy optimistaidd yn rhoi gwerth is. |
| **Yr Awdurdod Gweinyddu** | Y cyngor gyda chyfrifoldeb statudol am redeg y Gronfa, mewn gwirionedd 'ymddiriedolwyr' y Gronfa. |
| **Cyrff Mynediad** | Cyflogwyr ble fo Cytundeb Mynediad yn nodi beth yw rhwymedigaethau'r cyflogwr. Gall y rhain fod yn Gyrff Mynediad Cymunedol neu Gyrff Mynediad wedi eu Trosglwyddo. I gael rhagor o fanylion (ewch i 2.3). |
| **Cyfamod** | Cryfder ariannol y cyflogwr wedi'i asesu. Mae cyfamod cryf yn dangos mwy o allu (a pharodrwydd) i dalu am ymrwymiadau pensiwn yn y tymor hir. Bydd cyfamod gwannach yn golygu ei bod yn ymddangos y gall y cyflogwr gael trafferthion i gwrdd â'i ymrwymiadau pensiwn yn llawn dros y tymor hirach. |
| **Cyflogwr Dynodedig** | Cyflogwyr fel cynghorau cymuned a thref sy'n gallu cymryd rhan yn y CPLlL drwy benderfyniad. Gall y cyflogwyr hyn ddynodi pa weithwyr sy'n gymwys i ymuno â'r Gronfa. |
| **Cyfradd disgownt** | Y gyfradd flynyddol ble bydd llif arian tybiedig yn y dyfodol (i mewn ac allan o'r Gronfa) yn cael ei ostwng hyd y presennol. Mae hyn yn angenrheidiol i ddarparu **targed cyllido** sy'n gyson gyda gwerth cyfredol yr asedau. Mae cyfradd disgownt is yn rhoi gwerth targed uwch, ac i'r gwrthwyneb. Defnyddir hwn i gyfrifo'r **cyfraddau Sylfaenol ac Eilaidd.** |
| **Cyflogwr** | Corff unigol sy'n cymryd rhan yn y Gronfa, sy'n cyflogi (neu yn arfer cyflogi) **aelodau** o'r Gronfa. Fel arfer, bydd gwerth yr asedau a'r **targed cyllido** i bob cyflogwr yn cael eu holrhain yn unigol ynghyd a'r **gyfradd sylfaenol** ymhob **prisiad**. |
| **Targed Cyllido** | Y gwerth cyfredol actiwarïaid i'r holl hawliadau pensiwn i holl **aelodau'r** Gronfa, a adeiladwyd hyd yma. Caiff hyn ei gymharu gyda gwerth presennol y farchnad o asedau'r Gronfa i olrhain y **diffyg**. Caiff ei gyfrif ar set ddethol o **ragdybiaethau actwaraidd.** |
| **Giltiau** | Bond Llywodraeth y DU, h.y. addewid gan y Llywodraeth i dalu llog a chyfalaf yn unol â thelerau'r giltiau penodol hynny, am daliad cychwynnol cyfalaf gan y prynwr. Gall giltiau fod yn rhai gyda 'llog sefydlog' ble mae'r taliadau llog yn parhau yn gyson drwy gyfnod y giltiau neu yn 'gysylltiedig â'r mynegai' ble mae'r taliadau llog yn amrywio bob blwyddyn yn unol â mynegai |

| | |
|---|---|
| | penodol (fel arfer RPI). Gellir prynu giltiau fel asedau gan y Gronfa ond eu prif ddefnydd ariannu yw fel mesur diddyledrwydd gwrthrychol. |
| **Gwarant / gwarantwr** | Addewid ffurfiol gan drydydd parti (y gwarantwr) y bydd yn cwrdd ag unrhyw ymrwymiadau pensiwn nad ydynt yn cael eu cwrdd gan gyflogwr penodol. Bydd presenoldeb gwarantwr yn golygu er enghraifft y gall y Gronfa ystyried **cyfamod** y cyflogwr i fod mor gryf â'i warantwr. |
| **Cyflogwr gosod** | Cyflogwr sy'n allanoli neu'n trosglwyddo rhan o'i wasanaethau a gweithlu i gyflogwr arall (fel arfer contractwr). Bydd y contractwr yn talu tuag at y buddion CPLlL a gasglwyd drwy drosglwyddo aelodau, ond yn y pen draw bydd yr ymrwymiad i dalu am y buddion hyn yn mynd yn ôl i'r cyflogwr gosod. Fel arfer, bydd cyflogwr gosod yn awdurdod lleol, ond weithiau gall fod yn fath arall o gyflogwr fel Academi. |
| **CPLLL** | Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, trefniant pensiwn sector cyhoeddus a sefydlwyd drwy Reoliadau'r Llywodraeth i weithwyr mewn llywodraeth leol. Mae’r rheoliadau hyn hefyd yn pennu cymhwyster (yn arbennig ar gyfer Cyrff ar yr Atodlen) cyfraddau cyfraniadau aelodau, cyfrifon buddion a rhai gofynion llywodraethu. Rhannwyd y CPLlL yn 101 Cronfa sy'n mynd dros y DU. Mae pob Cronfa CPLlL yn annibynnol i'r graddau nad yw yn cael ei bennu gan Reoliadau e.e. ynglŷn â'r strategaeth fuddsoddi, cyfraniadau cyflogwr a dewis o ymgynghorwyr. |
| **Aeddfedrwydd** | Term cyffredinol i ddisgrifio Cronfa (neu sefyllfa cyflogwr mewn Cronfa) ble mae'r aelodau yn agosach i ymddeol (neu mwy ohonynt eisoes wedi ymddeol) a bod y cyfnod buddsoddi yn fyrrach. Mae gan hyn oblygiadau i'r strategaeth fuddsoddi ac yn sgil hynny'r strategaeth gyllido. |
| **Aelodau** | Yr unigolion sydd wedi cronni (ac efallai yn dal i gronni) eu hawliau yn y Gronfa. Cânt eu rhannu yn aelodau gweithredol (aelodau presennol sy'n weithwyr), aelodau gohiriedig (cyn-weithwyr sydd heb ymddeol eto) a phensiynwyr (cyn-weithwyr sydd wedi ymddeol a dibynyddion cyn-weithwyr ymadawedig). |
| **Cyfradd Cyfraniad Sylfaenol** | Cyfradd cyfraniad y cyflogwr sydd ei angen i dalu am fuddion cronnus parhaus aelodau gweithredol (yn cynnwys lwfans am dreuliau gweinyddol). Gweler Atodiad D am fwy o fanylion. |
| **Proffil** | Mae proffil aelodaeth y cyflogwr neu'r ymrwymiad yn adlewyrchu amryfal fesuriadau **aelodau'r** cyflogwr hwnnw, h.y. gweithwyr presennol a chyn-weithwyr. Mae hyn yn cynnwys: y cyfrannau sy'n weithredol, gohiriedig neu yn bensiynwyr; oed cyfartalog bob categori; amryfal lefel cyflogau neu bensiwn; hyd gwasanaeth aelodau gweithredol yn erbyn eu lefel cyflog ac ati. Gall proffil |

| | |
|---|---|
| | aelodaeth (neu ymrwymiad) hefyd gael ei fesur ar gyfer ei **aeddfedrwydd**. |
| **Tystysgrif Cyfraddau ac Addasiadau** | Dogfen ffurfiol sy'n ofynnol gan Reoliadau CPLlL, ac mae'n rhaid ei diweddaru o leiaf bob tair blynedd wedi cwblhau'r **prisiad** ffurfiol. Caiff hwn ei gwblhau gan yr actwari ac mae yn cadarnhau'r cyfraniadau sydd i'w talu gan bob cyflogwr (neu gronfa o gyflogwyr) i'r Gronfa am y cyfnod tair blynedd tan fo'r prisiad nesaf wedi ei gwblhau. |
| **Cyrff ar yr Atodlen** | Mathau o gyflogwr a ddiffinnir yn benodol yn Rheoliadau CPLlL, y mae'n rhaid cynnig aelodaeth i'r cyflogwyr o'u Cronfa CPLlL. Mae'r rhain yn cynnwys Cynghorau, colegau, prifysgolion, academïau, yr awdurdodau'r heddlu a thân ac ati heblaw am y gweithwyr hynny sydd â hawl i gynllun pensiwn sector cyhoeddus gwahanol (e.e. athrawon, swyddogion yr heddlu a thân, darlithwyr prifysgol). |
| **Cyfradd Cyfraniad Eilaidd** | Y gwahaniaeth rhwng cyfraddau gwirioneddol a **chyfraddau sylfaenol y cyflogwr**. Yn fras, mae hyn yn ymwneud â'r diffyg yng nghyfran ei ased i'w **darged cyllido**. Gweler Atodiad D am fwy o fanylion. |
| **Sefydlogi** | Unrhyw ddull a ddefnyddir i lyfnhau newidiadau yng nghyfraniadau cyflogwr o un flwyddyn i'r llall. Mae hyn yn ofynnol yn fras gan y rheoliadau CPLlL ond yn ymarferol caiff ei ddefnyddio ar gyfer cyflogwyr mawr sefydlog yn y Gronfa. Gall dulliau gwahanol olygu: modelu ar sail tebygolrwydd symudiadau'r farchnad yn y dyfodol; cyfnodau hirach i adfer diffyg; cyfraddau disgownt uwch; neu gyfuniadau o'r rhain. |
| **Prisiad** | Ymchwiliad actwaraidd i gyfrif yr ymrwymiadau, cyfradd cyfraniadau gwasanaeth yn y dyfodol a'r gyfradd gyfraniadau gyffredin i Gronfa ac fel arfer i gyflogwyr unigol hefyd. Cynhelir hyn fel arfer yn llawn bob tair blynedd (y tro diwethaf ar 31 Mawrth 2016) ond gellir ei ddiweddaru ar adegau eraill. Mae gwerth yr asedau wedi ei seilio ar werthoedd y farchnad ar y dyddiad prisiad gyda gwerth yr ymrwymiadau a'r cyfraddau cyfraniadau wedi eu seilio ar enillion hirdymor y farchnad bondiau hefyd ar y dyddiad hwnnw. |

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | **PWYLLGOR PENSIYNAU** |
| **DYDDIAD** | **19 IONAWR 2017** |
| **PWRPAS** | **Cadarnhau'r Datganiad Strategaeth Buddsoddi cyn ymgynghori gyda'r partïon a diddordeb** |
| **TEITL** | **DATGANIAD STRATEGAETH BUDDSODDI** |
| **AWDUR** | **CAROLINE ROBERTS, RHEOLWR BUDDSODDI** |

## 1. CYFLWYNIAD

**1.1** Mae'r Gronfa Bensiwn gyda Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi (DEB) ar hyn o bryd yn unol â'r gofynion y ddeddfwriaeth. O 1af Ebrill 2017 mae'r DEB yn cael ei newid i Ddatganiad Strategaeth Buddsoddi (DSB) yn unol â'r gofynion newydd. Mae'r proses yn cynnwys ymgynghoriad gyda phartïon a diddordeb a rhaid ei gwblhau erbyn 31 Mawrth 2017.

## 2. CYFYNGIADAU AR FUDDSODDIADAU

**2.1** O dan y gofyn ar gyfer y SIP roedd cyfyngiadau ar fuddsoddiadau penodol ac roedd bob cronfa yn gallu penderfynu codi'r cyfyngiadau os yn berthnasol er mwyn gosod dyraniad priodol ar gyfer ei anghenion penodol. Nid oes cyfyngiadau penodol yn y ddeddfwriaeth newydd ac felly nid oes angen i godi cyfyngiadau yn swyddogol. Er hynny mae'n ymarfer da i gael cyfyngiadau llydan a chynhwysir y rheiny yn y DSB.

## 3. Y DATGANIAD STRATEGAETH BUDDSODDI

**3.1** Fel yr amlinellir yn baragraff 1 mae rhaid i'r DSB mewn lle ar gyfer dechrau'r flwyddyn ariannol 2017/18.

**3.2** Mae'r broses yn cynnwys ymgynghoriad gyda phartïon a diddordeb cyn mabwysiadu'r Datganiad terfynol.

**3.3** Er mwyn gwneud hyn atodir DSB draft fek Atodiad A er mwyn i'r Pwyllgor i gytuno ar gyfer ymgynghoriad**.**

**3.4** Bydd unrhyw sylwadau yn dilyn yr ymgynghoriad a'r fersiwn terfynol arfaethedig yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Pensiynau ym mis Mawrth 2017 ar gyfer trafodaeth a chymeradwyaeth.

## 4. ARGYMHELLIAD

**4.1** Gofynnir y Pwyllgor i gymeradwyo'r datganiad draft ar gyfer ymgynghoriad gyda'r holl bartïon a diddordeb.

**ATODIAD A**

# Datganiad Strategaeth Fuddsoddi

## 1. Cyflwyniad a Chefndir

Dyma Ddatganiad Strategaeth Fuddsoddi ("ISS") Cronfa Bensiwn Gwynedd ("y Gronfa"), a weinyddir gan Gyngor Gwynedd ("yr Awdurdod Gweinyddu"). Mae'r ISS yn cael ei lunio yn unol â Rheoliad 7 Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Rheoli a Buddsoddi Cronfeydd) 2016 ("y Rheoliadau").

Darparwyd yr ISS gan Bwyllgor Pensiynau'r Gronfa ("y Pwyllgor") yn dilyn derbyn cyngor gan ymgynghorydd buddsoddi'r Gronfa, Hymans Robertson LLP. Mae'r Pwyllgor yn gweithredu ar awdurdod dirprwyedig yr Awdurdod Gweinyddu.

Mae'r ISS, a gymeradwyir gan y Pwyllgor ar 16 Mawrth 2017, yn destun adolygiad cyfnodol o leiaf bob tair blynedd ac ar unwaith yn dilyn unrhyw newid sylweddol mewn polisi buddsoddi. Mae'r Pwyllgor wedi ymgynghori ar gynnwys strategaeth fuddsoddi'r Gronfa gyda'r personau y mae'n eu hystyried yn briodol.

Mae'r Pwyllgor yn ceisio buddsoddi unrhyw arian yn y Gronfa nad oes ei angen ar unwaith i wneud taliadau o'r Gronfa, yn unol â'r ISS. Dylid darllen yr ISS ar y cyd â Datganiad Strategaeth Gyllido'r Gronfa (sydd yn cael ei adolygu ar hyn o bryd).

## 2. Addasrwydd buddsoddiadau penodol a mathau o fuddsoddiadau

Prif amcan y Gronfa yw darparu buddion pensiwn a lwmp swm i aelodau pan fyddant yn ymddeol ac/neu fuddion marwolaeth, cyn neu'n dilyn ymddeoliad, ar gyfer eu dibynyddion, ar sail buddion diffiniedig. Adolygir y sefyllfa gyllido yn ystod pob prisiad actwaraidd a gynhelir bob tair blynedd, neu'n fwy aml fel bo'r angen.

Mae'r Pwyllgor yn ceisio cyllido'r Gronfa yn y fath fodd, mewn amgylchiadau marchnad arferol, fel bo'r holl fuddion a gronnir yn cael eu cyfrif yn llawn gan werth asedau'r Gronfa ac y deuir i gytundeb ar lefel cyfraniadau priodol gan y cyflogwr i gwrdd â chostau'r buddion sy'n cronni i'r dyfodol. I aelodau sy'n weithwyr, bydd buddion yn seiliedig ar y gwasanaeth a gwblhawyd ond bydd hefyd yn ystyried codiadau cyflog yn y dyfodol ac/neu chwyddiant.

Mae'r Pwyllgor wedi cyfieithu ei amcanion i feincnod dyrannu asedau strategol addas ar gyfer y Gronfa. Mae'r meincnod hwn yn cyd-fynd â barn y Pwyllgor ar y cydbwysedd priodol rhwng cynhyrchu enillion hirdymor boddhaol ar fuddsoddiadau ac ystyried anweddolrwydd y farchnad a risg a natur ymrwymiadau'r Gronfa ar yr un pryd.

Bwriedir i strategaeth fuddsoddi'r Gronfa gael ei hadolygu o leiaf unwaith bob tair blynedd yn dilyn prisiad actwaraidd y Gronfa. Dyma sut mae'r Gronfa'n mynd ati i osod strategaeth fuddsoddi addas:

Mae'r gronfa wedi ymgymryd ymarfer modeli ased rhwymedigaethau fel rhan o'r prisiad actiwaraidd 2016. Modelwyd nifer o wahanol strategaethau cyfraniadau a buddsoddiadau ac ystyriwyd esblygiad y Gronfa yn y dyfodol o dan amrediad eang o

senarios gwahanol. Mae’r Pwyllgor wedi gosod targed i gael siawns o leiaf 67% i gyrraedd eu targed cyllido tymor hir - yn dod yn ôl i sefyllfa wedi cyllido’n llawn o fewn y 20 blynedd nesaf. Maent wedi ystyried y risg o beidio cyrraedd y targed yn y strategaethau amrywiol wrth adnabod y lefelau cyllido isel y gellir ymddangos os byddai canlyniadau gwael.

Mae'r dull hwn yn gymorth i sicrhau fod y strategaeth fuddsoddi'n rhoi ystyriaeth ddilys i broffil aeddfedrwydd y Gronfa (o ran y cyfrannau perthnasol o ymrwymiadau o ran pensiynwyr, aelodau gohiriedig a gweithredol), ynghyd â lefel y gwarged neu'r diffyg (perthnasol i'r sail gyllido a ddefnyddiwyd).

Yn ogystal, mae'r Pwyllgor yn monitro'r strategaeth fuddsoddi'n barhaus, gan ganolbwyntio ar ffactorau yn cynnwys, ond nad ydynt yn gyfyngedig i:

- Addasrwydd o ystyried lefel cyllido'r Gronfa a'r proffil ymrwymiadau
- Lefel y risg ddisgwyliedig
- Rhagolygon ar gyfer enillion ar asedau

Yn ogystal, mae'r Pwyllgor yn monitro dyraniad actwaraidd y Gronfa'n rheolaidd i sicrhau nad ydyw'n gwyro'n amlwg oddi wrth y dyraniad targed.

Roedd y dychweliadau asedau tymor hir fesul dosbarth sydd wedi eu tybio ar gyfer yr ymarfer modeli fel a ganlyn:

| Dosbarth Asedau | Dychweliad Canolrif a Disgwylir 10 mlynedd (%yf) | Dychweliad Canolrif a Disgwylir 20 mlynedd (%yf) |
|---|---|---|
| Ecwiti'r DU | 5.0 | 5.9 |
| Ecwiti Tramor | 4.6 | 5.6 |
| Ecwiti Preifat | 5.9 | 7.0 |
| Eiddo'r DU | 2.8 | 3.7 |
| Bondiau Dychweliad Absoliwt | 2.6 | 3.6 |

## 3. Buddsoddi arian mewn amrediad o fuddsoddiadau

### Dosbarthiadau o asedau

Gall y Gronfa fuddsoddi mewn buddsoddiadau a ddyfynnwyd a rhai na ddyfynnwyd ym marchnadoedd y DU a thramor, yn cynnwys ecwiti, bondiau llog sefydlog a bondiau llog sy'n gysylltiedig â'r farchnad, arian parod, eiddo a phrif nwyddau, naill ai'n uniongyrchol neu drwy bŵlio arian. Yn ogystal, gall y Gronfa ddefnyddio contractau ar gyfer gwahaniaethau neu ddeilliadau eraill yn uniongyrchol neu drwy bŵlio arian i fuddsoddi yn y cynnyrch hwn, er diben rheoli portffolio yn effeithlon neu gyfyngu ar risgiau penodol.

Mae'r Pwyllgor yn adolygu natur buddsoddiadau'r Gronfa yn rheolaidd, gan gyfeirio'n benodol at addasrwydd ac amrywiaeth. Mae’r Pwyllgor yn ceisio ac yn ystyried cyngor ysgrifenedig gan berson sydd wedi cymhwyso'n addas i gynnal adolygiad o'r fath. Os, ar unrhyw adeg, y cynigir buddsoddiad mewn buddsoddiad neu gynnyrch

nad ydyw'n wybodus i'r Pwyllgor, ceisir cyngor priodol ac fe'i hystyrir er mwyn sicrhau ei addasrwydd a'i amrywiaeth.

Gweler isod strategaeth fuddsoddi targed y Gronfa. Yn unol â'r Rheoliadau, nid yw strategaeth fuddsoddi'r awdurdod yn caniatáu i fwy na 5% o gyfanswm gwerth holl fuddsoddiadau arian y gronfa i gael eu buddsoddi mewn endidau sy'n gysylltiedig â'r awdurdod hwnnw yn unol ag ystyr adran 212 Deddf Llywodraeth Leol a Chynnwys y Cyhoedd Mewn Iechyd 2007".

**Tabl 1: Dyraniad y Gronfa**

| Dosbarth ased | Dyraniad targed % |
|---|---|
| Ecwiti'r DU | 19.5 |
| Ecwiti tramor | 53.0 |
| Cyfanswm ecwiti | 72.5 |
| Eiddo | 10.0 |
| Bondiau | 15.0 |
| Isadeiladwaith | 2.5 |
| Cyfanswm | 100.0 |

**Rheolwyr**

Mae'r Pwyllgor wedi penodi nifer o reolwyr buddsoddi ac mae pob un ohonynt wedi'u hawdurdodi dan Ddeddf Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol 2000 i ymgymryd â busnes buddsoddi.

Mae'r Pwyllgor, wedi cael cyngor priodol ar fuddsoddi, wedi cytuno ar feincnodau penodol â phob rheolwr er mwyn, ar gyfanred, iddynt fod yn gyson â'r dyraniad asedau cyffredinol ar gyfer y Gronfa. Bydd rheolwyr buddsoddi'r Gronfa yn dal cymysgedd o fuddsoddiadau sy'n adlewyrchu eu barn mewn perthynas â'u meincnodau perthnasol. O fewn pob marchnad fawr a dosbarth ased, bydd y rheolwyr yn cynnal portffolios amrywiol drwy fuddsoddi'n uniongyrchol neu fel rhan o bŵl. Bydd rheolwyr y cronfeydd goddefol y mae'r Gronfa'n buddsoddi ynddi yn dal cymysgedd o fuddsoddiadau o fewn pob cronfa sydd wedi'i phŵlio sy'n adlewyrchu eu meincnodau perthnasol.

## 4. Y dull o ymdrin â risg, gan gynnwys sut mae risgiau'n cael eu mesur a'u rheoli

Mae'r Pwyllgor yn ymwybodol fod angen i'r Gronfa gymryd risgiau (e.e. buddsoddi mewn asedau twf) i'w gynorthwyo i gyflawni ei amcanion cyllido. Mae ganddo raglen rheoli risg weithredol yn ei lle sy'n ceisio'i gynorthwyo i adnabod y risgiau sy'n cael eu cymryd ac yn rhoi prosesau yn eu lle i reoli, mesur, monitro a (ble bo modd) lliniaru'r risgiau sy'n cael eu cymryd. Mae'r Pwyllgor yn grediniol nad oes arno angen cymryd mwy o risg fuddsoddi nag sydd angen.

Mae'r prif risgiau sy'n effeithio ar y Gronfa wedi'u nodi isod; rydym hefyd yn trafod dull y Gronfa o reoli'r risgiau hyn a'r cynlluniau argyfwng sydd yn eu lle:

**Risgiau ariannu**

- Camgymheiriad Ariannol - Y risg y bydd asedau'r Gronfa'n methu â thyfu'n unol â'r gost ddatblygol o gwrdd â'r ymrwymiadau.

- Newid demograffig - Y risg fod hirhoedledd yn gwella a bod ffactorau demograffig eraill yn newid, gan gynyddu cost buddion y Gronfa.

- Risg systemig– Y posibilrwydd o fethiant cysylltiedig ar yr un pryd o sawl dosbarth ased ac/neu reolwyr buddsoddi, o bosib wedi'u llesteirio gan '*contagion'* ariannol, gan arwain at gynnydd yn y gost o fodloni ymrwymiadau'r Gronfa.

Mae'r Pwyllgor yn mesur ac yn rheoli camgymhariad ariannol mewn dwy ffordd. Fel y nodwyd uchod, mae'r Pwyllgor wedi gosod meincnod dyrannu asedau strategol ar gyfer y Gronfa. Gosodwyd y meincnod hwn gan roi ystyriaeth i fodelu ymrwymiadau ased oedd yn canolbwyntio ar y tebygolrwydd o lwyddiant a lefel y risg anfanteisiol. Dengys canlyniadau dadansoddiad 2016 fod gan y Gronfa debygolrwydd o 77% y bydd yn cyflawni cronfa sydd wedi'i hariannu'n llawn dros y cyfnod i 2037 a mesur risg is yn unol â lefel cyllido o 38% ar y dyddiad yna yn gyfartalog y 5% alldodau gwaetha . Bydd y dadansoddiad hwn yn cael ei ailymweld fel rhan o broses brisio 2016. Mae'r Pwyllgor yn asesu risg sy'n berthnasol i'r meincnod strategol drwy fonitro dyraniad asedau'r Gronfa ac enillion ar fuddsoddiadau sy'n gymharol i'r meincnod. Yn ogystal, mae'r Pwyllgor yn asesu risg sy'n gymharol i'r ymrwymiadau drwy fonitro cyflawniad enillion meincnod sy'n gymharol i'r ymrwymiadau.

Mae'r Pwyllgor hefyd yn ceisio deall y tybiaethau a ddefnyddiwyd mewn unrhyw ddadansoddiad a modelu fel y gellir eu cymharu â'u barn eu hunain a lefel y risgiau sy'n gysylltiedig â'r tybiaethau hyn sydd i'w hasesu.

Mae'r Pwyllgor yn ceisio lliniaru risg systemig drwy gael portffolio amrywiol ond nid yw'n bosib gwneud darpariaeth benodol ar gyfer pob sefyllfa allai godi dan y pennawd hwn.

**Risgiau ased**

- Crynhoad - Y risg y gallai dyraniad sylweddol i unrhyw gategori ased unigol a'i danberfformiad cymharol i'r disgwyliad arwain at anawsterau o ran cyflawni amcanion ariannu.
- Anhylifedd - Y risg na all y Gronfa gwrdd â'i ymrwymiadau ar hyn o bryd gan nad oes ganddo ddigon o asedau hylifol.
- Risg Arian Cyfred (*currency*) - Y risg fod arian cyfred asedau'r Gronfa'n tanberfformio o gymharu â Sterling (h.y. arian cyfred yr ymrwymiadau).
- Amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu ("ESG") - Y risg fod ffactorau ESG yn lleihau gallu'r Gronfa i gynhyrchu'r enillion hirdymor.
- Tanberfformiad y rheolwr - Methiant rheolwyr y gronfa i gyflawni'r raddfa enillion ar fuddsoddiadau a dybiwyd wrth osod eu mandadau.

Mae'r Pwyllgor yn mesur ac yn rheoli risgiau asedau fel a ganlyn.

Mae meincnod dyrannu asedau strategol y Gronfa'n buddsoddi mewn amrediad amrywiol o ddosbarthiadau ased. Mae'r Pwyllgor wedi rhoi trefniadau ail-gydbwyso yn eu lle er mwyn sicrhau nad yw "gwir ddyraniad" y Gronfa'n tynnu'n sylweddol oddi ar ei darged. Mae'r Gronfa'n buddsoddi mewn amrediad o fandadau buddsoddi; pob un ag amcan, meincnod perfformi a phroses reoli ddiffiniedig, sydd, mewn cyfanred, yn cynorthwyo i leihau risg grynhoi asedau'r Gronfa. Drwy fuddsoddi ar draws amrediad o asedau, yn cynnwys ecwiti a bondiau hylifol wedi'u dyfynnu, ynghyd ag eiddo, mae'r Pwyllgor yn cydnabod yr angen i gael mynediad i hylifedd yn y tymor byr.

Mae'r Gronfa'n buddsoddi mewn amrediad o farchnadoedd tramor sy'n darparu dull amrywiol o ymdrin â'r marchnadoedd arian cyfred; mae'r Pwyllgor hefyd yn asesu risg arian cyfred y Gronfa yn cynnwys eu dadansoddiad risg. Mae manylion dull y Gronfa o ymdrin â risgiau ESG wedi'i nodi yn ddiweddarach yn y ddogfen hon.

Mae'r Pwyllgor wedi ystyried y risg o danberfformiad gan unrhyw reolwr buddsoddi sengl ac wedi ceisio lleihau'r risg yma drwy benodi mwy nag un rheolwr a chael cyfran arwyddocaol o asedau'r Cynllun i gael eu rheoli ar sail oddefol. Mae'r Pwyllgor yn asesu perfformiad rheolwyr y Gronfa yn rheolaidd, a bydd yn cymryd camau, yn cynnwys amnewid un neu fwy o'u rheolwyr, os bydd y tanberfformiad yn parhau.

**Risgiau darparwyr eraill**

- Risg trosglwyddo - Y risg o fynd i gostau annisgwyl mewn perthynas â throsglwyddo asedau ymysg rheolwyr. Wrth ymgymryd â throsglwyddiadau arwyddocaol, mae'r Pwyllgor yn ceisio cyngor proffesiynol addas.

- Risg ceidwad - y risg o golli hawliau economaidd i asedau'r Gronfa, pan fônt yn cael eu dal gan geidwad neu wrth iddynt gael eu masnachu.

- Diffygdalu credyd - y posibilrwydd o wrthbarti yn methu â bodloni ei oblygiadau.

- Benthyca stoc - Y posibilrwydd o ddiffygdalu a cholli hawliau economaidd i asedau'r Gronfa.

Mae'r Pwyllgor yn monitro ac yn rheoli risgiau yn yr ardaloedd hyn drwy broses o graffu ei ddarparwyr yn rheolaidd, ac archwilio'r gweithrediadau mae'n eu gwneud ar gyfer y Gronfa, neu wedi dirprwyo'r fath fonitro a rheoli risg i'r rheolwyr buddsoddi a benodwyd fel sy'n briodol (e.e. risg ceidwad mewn perthynas â chronfeydd wedi'u pŵlio). Mae gan y Pwyllgor bŵer i amnewid darparwr os bydd ganddo bryderon difrifol.

Mae atodlen ar wahân o risgiau mae'r Gronfa'n eu monitro wedi'u nodi yn Natganiad Strategaeth Gyllido'r Gronfa.

## 5. Y dull o ymdrin â buddsoddiadau wedi'u pŵlio, yn cynnwys y defnydd o gerbydau buddsoddi cyfunol a gwasanaethau a rennir

Mae'r Gronfa yn gynllun sy'n cymryd rhan ym Mhŵl CYMRU. Nodwyd y strwythur arfaethedig a'r sail y bydd Pŵl CYMRU yn gweithredu ynddi yn y cyflwyniad a roddwyd i'r Llywodraeth ym mis Gorffennaf 2016.

**Asedau i'w buddsoddi yn y Pŵl**

Bwriad y Gronfa yw buddsoddi ei asedau drwy Bŵl CYMRU pan a phryd y daw datrysiadau buddsoddi'r Gronfa ar gael. Nodwyd amserlen ddangosol ar gyfer buddsoddi drwy'r Pŵl yn y cyflwyniad a roddwyd i'r Llywodraeth ym mis Gorffennaf 2016. Bydd y meini prawf allweddol ar gyfer asesu datrysiadau'r Pŵl fel a ganlyn:

1 Fod y Pŵl yn galluogi mynediad at ddatrysiad priodol sy'n bodloni'r amcanion a'r meini prawf meincnod a osodwyd gan y Gronfa.

2 Fod budd ariannol clir i'r Gronfa fuddsoddi yn y datrysiad a gynigir gan y Pŵl, pe byddai angen newid darparwr.

Ar adeg paratoi'r datganiad hwn, mae'r Gronfa wedi buddsoddi'n barod yn yr asedau a ganlyn drwy Bŵl CYMRU:

| Dosbarth ased | Rheolwr | % asedau'r Gronfa | Meincnod ac amcan perfformiad |
|---|---|---|---|
| Ecwiti Goddefol | BlackRock | 22.5 | FTSE All-Share a’r FTSE All-World Indices<br><br>Elw’r Meincnod |


Ar adeg paratoi'r datganiad hwn, mae'r Gronfa wedi dewis i beidio buddsoddi’r asedau a ganlyn drwy Bŵl CYMRU:

| Dosbarth ased | Rheolwr | % asedau'r Gronfa | Meincnod ac amcanion perfformiad | Y rheswm am beidio â buddsoddi drwy Bŵl CYMRU |
|---|---|---|---|---|
| Ecwiti Preifat | Partners | 5.0 | MSCI World Meincnod + 5% y flwyddyn | Ymrwymiadau cytundebol cyfredol sydd â bywyd terfynedig |
| Isadeiladwaith | Partners | 2.5 | MSCI World Meincnod + 5% y flwyddyn | Ymrwymiadau cytundebol cyfredol sydd â bywyd terfynedig |

Adolygir unrhyw asedau nad ydynt yn cael eu buddsoddi yn y Pŵl ar hyn o bryd bob tair blynedd fan leiaf er mwyn penderfynu p'un a yw'r rhesymeg yn parhau'n briodol, a p'un ai yw'n parhau i arddangos gwerth am arian. Ni fydd yr adolygiad nesaf o'r fath yn digwydd ddim hwyrach na 2020.

**Strwythur a llywodraethu Pŵl CYMRU**

Bydd y Pŵl yn penodi gweithredwr trydydd parti a awdurdodir gan y FCA i ddarparu cyfres o is-gronfeydd buddsoddi ac fe fuddsoddir asedau'r cronfeydd sy'n cymryd rhan ynddynt.




Sefydlir Cydbwyllgor Llywodraethu (CLl) i oruchwylio'r gweithredwr. Bydd y Pwyllgor yn cynnwys aelodau etholedig - un o bob un o'r cronfeydd sy'n cymryd rhan. Rhagwelir mai Cadeiryddion y Pwyllgorau Pensiynau fydd y bobl debygol i wasanaethu ar y pwyllgor, er y gallai awdurdodau gweinyddu ddewis enwebu aelodau amgen os yw hynny'n briodol. Bydd y trefniant hwn yn rhoi atebolrwydd i'r gweithredwr yn ôl i awdurdodau gweinyddu unigol.

Bydd y Cydbwyllgor Llywodraethu'n cael ei sefydlu'n ffurfiol fel Cydbwyllgor rhwng yr awdurdodau gweinyddu sy'n cymryd rhan. Bydd gan bob cronfa un aelod etholedig ar y Pwyllgor. Bydd yn gweithredu ar sail 'Un Gronfa, Un Bleidlais', er mai'r bwriad fydd dod i gonsensws ar unrhyw benderfyniadau, ble bynnag y bo modd. Bydd Cylch Gorchwyl ffurfiol yn cael ei lunio ar gyfer y Pwyllgor.

Bydd y Pwyllgor yn gyfrifol am sicrhau, ble bo modd, fod amrediad priodol o is-gronfeydd ar gael er mwyn i awdurdodau gweinyddu weithredu dyraniadau ased o'u

dewis eu hunain. Bydd y CLl mewn trafodaethau rheolaidd â'r gweithredwr ynghylch yr is-gronfeydd penodol ddylid eu sefydlu o fewn y Pŵl, ar y dechrau ac yn barhaus.

Bydd swyddogion o bob awdurdod gweinyddu'n mynychu cyfarfodydd y CLl (ni fydd ganddynt bleidlais). Mae'r swyddogion yn cydweithio'n barod fel Is-grŵp Pensiynau'r SWT (*Society of Welsh Treasurers*). Bydd cylch gorchwyl terfynol y grŵp swyddogion hwn yn cael ei adolygu yn sgil y trefniadau pŵlio newydd. Bydd y swyddogion yn cynghori'r CLl ar y gwaith o sefydlu a monitro'r is-gronfeydd amrywiol ynghyd â chysylltu'n uniongyrchol â'r gweithredwr ar unrhyw faterion buddsoddi dydd i ddydd.

Yn y lle cyntaf, disgwylir i gynrychiolwyr y gronfa ar y CLl adrodd yn ôl i bwyllgorau pensiwn eu cronfeydd unigol a byddant hwy'n gyfrifol am fodloni eu hunain ynghylch effeithiolrwydd y trefniadau pŵlio cyffredinol a gweithrediad y CLl. Fodd bynnag, gallai Pwyllgorau Pensiynau lleol hefyd geisio sicrwydd ar agweddau o reoli buddsoddiadau'r gronfa.

Yn ogystal, bydd y FCA yn ymgymryd â chaffael allanol a diwydrwydd dyledus y gweithredwr a'r ceidwad yn ei rôl fel rheoleiddiwr.

Bydd y gweithredwr yn gyfrifol am ddewis a mynd i gytundeb â rheolwyr buddsoddi ar gyfer pob un o'r is-gronfeydd ac am benodi darparwyr gwasanaeth eraill megis gwasanaethwr asedau i geidwaid, ac fel prisiwr allanol fel bo'r angen.

Ar hyn o bryd, rydym yn rhagweld fod y bondiau a'r ecwiti sydd wedi'u rhestru yn debygol o gael eu buddsoddi drwy Gynllun Cytundebu Awdurdodedig (ACS) yn seiliedig yn y DU er mwyn elwa o natur tryloywder treth y cerbyd, er y byddwn yn trafod y mater hwn gyda'r gweithredwr sydd wedi'i benodi. Efallai y bydd cerbydau amgen yn fwy priodol ar gyfer rhai dosbarthiadau ased eraill. Ynghyd ag ystyried yr opsiynau gyda'r gweithredwr, byddwn hefyd yn cymryd cyngor allanol ar y dull arfaethedig terfynol ar sail effeithiolrwydd treth a chydymffurfiaeth â'r gyfraith.

Dan y strwythur arfaethedig, y ceidwad fydd yn dal y teitl cyfreithiol i asedau'r Pŵl. Y gweithredwr fydd yn gyfrifol am reoli a gweithredu'r Pŵl, gan gynnwys ymrwymo i gytundebau cyfreithiol â'r rheolwyr buddsoddi.

Bydd y gweithredwr a benodir yn darparu ac yn gweithredu amrediad o gerbydau buddsoddi i ganiatáu buddsoddiad cyfunol gan y cronfeydd sy'n cymryd rhan.

Bydd y gweithredwr yn gyfrifol am ddewis a chytundebu â rheolwyr buddsoddi ar gyfer rheoli'r asedau gwaelodol. Yn ogystal, byddant yn gyfrifol am weinyddu mewn perthynas â'r cerbydau o ran prisio unedau, prisiad, ymdrin â llif arian i mewn ac allan o'r amrywiol is-gronfeydd, prosesu masnach ac adrodd ar berfformiad.

Byddant yn gyfrifol am ddiwydrwydd dyladwy o safbwynt archwilio, cyfreithiol a threth ar gyfer yr is-gronfeydd perthnasol a hefyd am ethol ceidwad i'r Pŵl.

Yn ogystal, bydd y Pŵl yn caffael cyngor cyfreithiol a threthiant allanol fel bo'r angen er mwyn eu cefnogi yn eu perthynas â'r gweithredwr.

## 5. Sut mae ystyriaethau cymdeithasol, amgylcheddol neu lywodraethu corfforaethol yn derbyn sylw wrth ddewis, peidio â dewis, cadw a gwireddu buddsoddiadau

Cydnabyddir y gall ffactorau ESG ddylanwadu ar berfformiad buddsoddi hirdymor a'r gallu i gyflawni enillion cynaliadwy yn yr hirdymor. Mae'r Pwyllgor yn ystyried fod dull y Gronfa o ymdrin â buddsoddiad yn cynnwys dau brif faes:

- **Buddsoddiad cynaliadwy / ffactorau ESG** - ystyried effaith ariannol ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu (ESG) ar ei fuddsoddiadau.

- **Stiwardiaeth a llywodraethu** - yn gweithredu fel buddsoddwyr/perchnogion cyfrifol a gweithredol, drwy gymryd pleidlais ystyriol ar gyfranddaliadau ac ymgysylltu â rheolwyr y cwmni y buddsoddir ynddo fel rhan o'r broses fuddsoddi.

Ar hyn o bryd nid yw’r Pwyllgor yn cymryd materion di-gyllid i ystyried wrth ddewis, cadw neu werthu’i buddsoddiadau. Mae’r Pwyllgor yn deall nad yw’r Gronfa yn gallu gwahardd buddsoddiadau er mwyn dilyn boicot, gwerthiad ac ataliad yn erbyn cenhedloedd tramor a diwylliannau amddiffyn y DU, oni bai bod ataliadau cyfreithiol ffurfiol, gwaharddiadau a chyfyngiadau wedi cael ei datgan gan y Llywodraeth.

Hyd yma, mae'r Gronfa wedi ymdrin â buddsoddiadau Cymdeithasol drwy ddirprwyo hyn i'w rheolwyr buddsoddi gwaelodol fel rhan o'u dyletswyddau ESG cyffredinol. Mae rheolwyr y Gronfa'n adrodd ar y mater hwn fel rhan o adolygiad ESG blynyddol y Gronfa.

Nid yw'r Gronfa'n dal unrhyw asedau y mae'n eu hystyried i fod yn fuddsoddiadau cymdeithasol.

**Ymarfer hawliau (gan gynnwys hawliau pleidleisio) sy'n gysylltiedig â buddsoddiadau**

**Hawliau pleidleisio**

Mae’r Pwyllgor wedi dirprwyo’r ymarferiad o hawliau pleidleisio i’r Rheolwyr Cronfa ar y sail y bydd yn defnyddio hawliau pleidleisio gyda’r bwriad o gynnal neu gynyddu gwerth hirdymor i'r cyfranddaliwr. Yn unol â hynny, mae rheolwyr y Gronfa wedi cynhyrchu canllawiau ysgrifenedig yn nodi eu prosesau a’u hymarferion yn y cyswllt hwn. Anogir rheolwyr yn gryf i bleidleisio yn unol â’u canllawiau o ran yr holl benderfyniadau yng nghyfarfodydd cyffredinol blynyddol ac arbennig y cwmnïau dan Reoliad 7(2)(f).

**Stiwardiaeth**

Mae'r Pwyllgor wedi cytuno mewn egwyddor i fod llofnodwr y Cod Stiwardiaeth fel y'i cyhoeddwyd gan y Cyngor Adrodd Ariannol (FRC). Mae'r Pwyllgor yn disgwyl i Bŵl CYMRU ac unrhyw reolwyr buddsoddi a benodir yn uniongyrchol i gydymffurfio â'r Cod Stiwardiaeth hefyd.

Mae'r Gronfa'n credu mewn ymgysylltiad cyfunol ac mae'n aelod o Fforwm Cronfeydd Pensiwn Llywodraeth Leol (LAPFF), ac fel aelod o'r fforwm, mae'n lleisio barn ar amrediad o faterion llywodraethu corfforaethol.

# Eitem 7

PWYLLGOR: **Pwyllgor Pensiynau**

DYDDIAD: **19 Ionawr 2017**

TEITL: **Pŵl Buddsoddi Cymru**

PWRPAS**:** **Argymell Cytundeb Rhwng-Awdurdodau i'r Cyngor llawn**

AWDUR: **Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid**

---

**Rhesymau am yr Adroddiad**

1. Mae'r adroddiad wedi'i pharatoi i hysbysu Aelodau'r Pwyllgor o'r cynnydd gyda datblygu Pŵl Buddsoddi Cymru i reoli asedion buddsoddi'r wyth Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL) yng Nghymru ar sail gydweithredol, ac i geisio cymeradwyaeth y Pwyllgor ar gyfer y Cytundeb Rhwng-Awdurdodau i'w argymell i'r Cyngor llawn dderbyn, er mwyn ymrwymo i sefydu'r Pŵl Cymru Gyfan a llywodraethu'r Cyd-Bwyllgor perthnasol.

**Cefndir**

2. Mae'r wyth CPLlL yng Nghymru wedi bod yn gweithio gyda'u gilydd ers sawl blwyddyn i adnabod ardaloedd o gydweithredu posib. Adroddwyd i'r Pwyllgor Pensiynau 20 Hydref ar gynnydd i sefydlu Cerbyd Buddsoddi Cyffredin ar sail wirfoddol.

3. Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi nifer o ymgynghoriadau ar reolaeth y buddsoddiadau CPLlL ac yn 2015 datganodd y byddai rhaid i bob cronfa CPLlL yn Lloegr a Chymru ymuno gyda'i gilydd i ffurfio pŵliau buddsoddi, yn hytrach na'r trefniadau presennol ble mae cronfeydd yn penodi rheolwyr buddsoddi eu hunain. Cyflwynwyd cynnig amlinellol gan y cronfeydd Cymreig ar gyfer Pŵl Buddsoddi Cymru yn Chwefror 2016 a chyflwynwyd cynigion manwl yn ôl y gofyn ar 15 Gorffennaf 2016. Roedd y cynigion yn cynnwys llythyrau o gefnogaeth oddi wrth Gadeiryddion Pwyllgorau Pensiwn yr wyth cronfa.

4. Yn dilyn hynny, aeth dirprwyaeth o gronfeydd CPLlL Cymru i gwrdd â'r Gweinidog ar 16 Tachwedd 2016, pryd trafodwyd y cynnig a chynnydd diweddar y pŵl. Ar 23 Tachwedd 2016 rhoddodd y Gweinidog gymeradwyaeth ffurfiol i'r Pŵl Buddsoddi Cymru Gyfan. Ysgrifennodd Marcus Jones AS:

   *"Mae hanes hir o gydweithredu rhwng cronfeydd Cymru, ac maent yn gweithio'n llwyddiannus gyda'i gilydd i ddatblygu'r pŵl Cymru gyfan. Rwy'n eich llongyfarch ar y ffi eithriadol o isel 'rydych chi eisoes wedi'i sicrhau ar gyfer buddsoddi portffolio ecwiti goddefol yr holl gronfeydd Cymreig. Roeddwn hefyd yn falch o weld eich uchelgais i gynyddu'r buddsoddiad mewn isadeiledd. Wedi ystyried eich partneriaeth gref, a'r sefyllfa arbennig Cymru ...... rwy'n falch o gadarnhau fy mod yn fodlon i chi fynd ymlaen yn unol â'ch cynnig terfynol chi."*

Mae swyddogion a chadeiryddion y cronfeydd pensiwn Cymreig yn parhau i gyd-weithio er mwyn sefydlu Cerbyd Fuddsoddi Cyfunol erbyn 1 Ebrill 2018.

5. Ni fydd y pŵl yn golygu cyfuno'r wyth gronfa. Bydd bob cronfa yn cadw ei hunaniaeth unigryw a bydd yr awdurdodau gweinyddol yn parhau yn gyfrifol am gydymffurfio a rheoliadau cynlyn CPLIL a'r ddeddfwriaeth pensiwn o safbwynt eu haelodaeth. Bydd cyfrifon blynyddol a phrisiadau actiwarial teirblynyddol yn parhau i gael eu paratoi ar gyfer pob cronfa bensiwn unigol a bydd pob cronfa yn penderfynu ar eu strategaeth ariannu (rhaniad y portffolio rhwng categorïau o asedau fel ecwiti, eiddo, ayb).

6. Bydd gan y pŵl gylch gorchwyl cyfyngedig a'i amcanion fel y nodir yn y ddogfen gynnig, fydd:

- Darparu trefniadau pŵlio fydd yn caniatáu i gronfeydd unigol weithredu eu strategaethau buddsoddi eu hunain (lle'n ymarferol).
- Sicrhau arbedion costau o sylwedd ar gyfer cronfeydd sydd yn cymryd rhan wrth wella neu gynnal perfformiad buddsoddi wedi ffioedd.
- Rhoi trefniadau llywodraethu cadarn mewn lle i oruchwylio gweithgareddau'r pŵl.
- Gweithio'n agos gyda phŵls eraill, er mwyn ymchwilio'r manteision y gall budd ddeiliad yng Nghymru gael o ddatrysiadau pŵlio ehangach, neu fuddsoddiadau uniongyrchol posibl.

**Ystyriaethau Llywodraethu**

7. Mae'r cynnig ar gyfer Pŵl Buddsoddi Cymru yn cynnwys sefydlu Cyd-Bwyllgor Llywodraethu sydd yn cynnwys aelodau etholedig o bob awdurdod gweinyddu a gefnogir gan Weithgor Swyddogion. Cynigir hefyd i benodi Gweithredwr a reolir gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA) i ddarparu'r is adeiladwaith ar gyfer sefydlu cerbyd pŵlio ac i reoli'r Pŵl ar ran yr wyth cronfa.

8. Mae gwaith yn parhau gyda therfynau amser tyn i sefydlu'r trefniadau llywodraethu ar gyfer y Pŵl, gan gynnwys paratoi'r drafft amgaeedig o gytundeb rhwng-awdurdod (yn cynnwys cylch gorchwyl ar gyfer Cyd-Bwyllgor), y fanyleb ar gyfer y gwasanaethau a ddarperir gan y Gweithredwr, a rôl y Gweithgor Swyddogion. Mae ystyriaeth yn cael ei roi hefyd i anghenion y Pŵl ar gyfer cyngor cyfreithiol a buddsoddi arbenigol.

9. Mae'r Cyd-Bwyllgor wedi cyfarfod mewn ffurf gysgodol (h.y. heb hawl i wneud penderfyniadau) fel Grŵp Cadeiryddion ar y Cyd yn ystod 2016 ac ar 11 Ionawr 2017. Y bwriad yw i sefydlu'r Cyd-Bwyllgor yn ffurfiol yn fuan yn 2017. Mae cylch gorchwyl y Cyd-Bwyllgor yn cael ei osod allan yn y Cytundeb Rhwng-Awdurdod arfaethedig a gysylltir yn Atodiad 1. Bydd y Cyd-Bwyllgor yn goruchwylio'r broses caffael ar gyfer y Gweithredwr, ac yn argymell apwyntio'r cynigydd gorau o ran cyrraedd gofynion y fanyleb.

10. Bydd y Cytundeb Rhwng-Awdurdod arfaethedig, a sefydlu'r Cyd-Bwyllgor Llywodraethu, yn creu ymrwymiad cyfreithiol i awdurdodau, a bydd angen iddo gael ei gymeradwyo gan y Cyngor llawn.

**Ystyriaethau Cyfreithiol**

11. Mae'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer buddsoddiadau cronfa bensiwn a weithredir gan yr Awdurdodau Gweinyddu wedi'i osod gan y "Local Government Pension Scheme (Management and Investment of Funds) Regulations 2009" (ac addasiadau dilynol). Mae'r gyfraith ynglŷn â phensiynau yn gymhleth ac yn arbenigol. Mae arweiniad y Llywodraeth Genedlaethol yn awgrymu bod pŵlio CPLlL yn cael ei ganiatáu yn ôl y gyfraith bresennol (ac wrth gwrs mae canllawiau'r "DCLG" yn mynnu bod cronfeydd yn pŵlio).

**Ystyriaethau Ariannol**

12. Cynigir bod y costau 'gweinyddol' a gyfyd o dan y trefniadau newydd, gan gynnwys costau llywodraethu'r Cyd-Bwyllgor, yn cael eu rhannu'n gyfartal rhwng yr wyth cronfa Gymreig, ond bydd costau buddsoddi dilynol i'w priodoli i fuddsoddiadau penodol, cymesur â'r buddsoddiad.

**Amserlen / Addasiadau**

13. Bydd yr 8 awdurdod gweinyddu cronfeydd pensiwn yng Nghymru yn cyflwyno'r Cytundeb Rhwng-Awdurdodau terfynol i'w cyfarfodydd Cyngor llawn yn Chwefror / Mawrth 2017 am gymeradwyaeth. Rhwng rhyddhau'r drafft cyfredol a chyfarfod 2 Mawrth, bydd mân addasiadau i fanylder y gytundeb.

**Argymhellion**

**i. Bod y Pwyllgor yn nodi'r cynnydd yn datblygu Pŵl Buddsoddi Cymru ac yn cefnogi ymrywmo i'r Pŵl.**

**ii. Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r Cytundeb Rhwng-Awdurdod drafft, ac yn cefnogi ei argymell i'r Cyngor llawn ar 2 Mawrth 2017.**

**iii. Bod y Pwyllgor yn argymell sefydlu Cyd-Bwyllgor Cymru Gyfan yn unol a'r Gytundeb.**

**iv. Bod y Pwyllgor yn dirprwyo hawl i'r Pennaeth Cyllid mewn ymgynghoriad a'r Pennaeth Cyfretihiol â'r Cadeirydd i gytuno unrhyw newidiadau i'r Cytundeb Rhwng-Awdurdod cyn ei gyflwyno i'r Cyngor am gymeradwyaeth.**

**Atodiad 1** – Cytundeb Rhwng-Awdurdod Drafft

Dyddiedig ________________________________ 2017

# D R A F F T

## **Cytundeb Rhwng-Awdurdodau**
rhwng

| | |
|---|---|
| Cyngor Sir Gâr | (1) |
| Cyngor Dinas a Sir Abertawe | (2) |
| Cyngor Dinas Caerdydd | (3) |
| Cyngor Sir y Fflint | (4) |
| Cyngor Gwynedd | (5) |
| Cyngor Sir Powys | (6) |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf | (7) |
| Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Torfaen | (8) |

DRAFFT

RB27
Burges Salmon LLP
www.burges-salmon.com
**Tel: +44 (0)117 307 6997**
Fax: +44 (0)117 902 4400

**CYNNWYS**

| Cymal | Pennawd | Tudalen |
|---|---|---|

1 DEHONGLIAD .......... 2

2 CYCHWYN A THERFYNU'R MEMORANDWM O DDEALLTWRIAETH .......... 4

3 FFURFIO'R CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU .......... 5

4 GWEITHGOR SWYDDOGION .......... 6

5 GWNEUD PENDERFYNIADAU .......... 7

6 CYNLLUN BUSNES .......... 7

7 CYNGOR LLETYA .......... 8

8 CONTRACT Y GWEITHREDWR .......... 10

9 ATEBOLRWYDD AC INDEMNIAD Y CYNGOR LLETYA .......... 10

10 YMRWYMIAD YR AWDURDODAU CYFANSODDOL A CHYFRANIADAU .......... 10

11 CYFRIFON .......... 11

12 COSTAU RHEOLI BUDDSODDIADAU .......... 12

13 EIDDO DEALLUSOL .......... 12

14 ADRODDIADAU .......... 12

15 YSWIRIANT .......... 12

16 DYLETSWYDDAU A GRYM .......... 13

17 DIRPRWYO .......... 14

18 RHWYMEDIGAETHAU AR AWDURDODAU CYFANSODDOL .......... 14

19 INDEMNIAD .......... 14

20 POLISÏAU A GWEITHDREFNAU .......... 15

21 GADAEL GWIRFODDOL (VE) .......... 15



DRAFT

22 GADAEL GORFODOL (CE) ........................................................................................ 16

23 DARPARIAETHAU PELLACH SY'N YMWNEUD AG AWDURDOD VE NEU AWDURDOD CE ........................................................................................ 18

24 AWDURDOD CYFANSODDOL NEWYDD ........................................................................................ 18

25 CYFRINACHEDD ........................................................................................ 18

26 PENSIYNAU ........................................................................................ 19

27 RHYDDID GWYBODAETH ........................................................................................ 20

28 DIOGELU DATA ........................................................................................ 21

29 DIDDYMU ........................................................................................ 21

30 Y CYTUNDEB CYFLAWN ........................................................................................ 21

31 HYSBYSIADAU ........................................................................................ 22

32 CONTRACTAU (HAWLIAU TRYDYDD PARTI) ........................................................................................ 22

33 DATGYSYLLTU ........................................................................................ 22

34 NEWIDIADAU ........................................................................................ 23

35 CYFRAITH LYWODRAETHU AC AWDURDODAETH ........................................................................................ 23

36 DATRYS ANGHYDFOD MEWN FFORDD AMGEN ........................................................................................ 23

ATODLEN 1 - Manylion Cyswllt ........................................................................................ 25

ATODLEN 2 - Materion a Gedwir i’r Awdurdodau Cyfansoddol ........................................................................................ 26

ATODLEN 3 - Materion y Cydbwyllgor Llywodraethu ........................................................................................ 27

ATODLEN 4 - Cydbwyllgor Llywodraeth (CBLl) - Cylch Gorchwyl ........................................................................................ 28

ATODLEN 5 - Polisïau a Gweithdrefnau ........................................................................................ 30

ATODLEN 6 - Gweithrefnau'r Cydbwyllgor Llywodraethu ........................................................................................ 31

ATODLEN 7 - TUPE ........................................................................................ 36

DRAFT

Gwneir y **WEITHRED HON** ar 2017

**GAN**

(1) **CYNGOR SIR GÂR** [CYFEIRIAD] ("**Cyngor Sir Gâr**")

(2) **CYNGOR DINAS A SIR ABERTAWE** [CYFEIRIAD] ("**Cyngor Abertawe**").

(3) **CYNGOR DINAS CAERDYDD** [CYFEIRIAD] ("**Cyngor Caerdydd**").

(4) **CYNGOR SIR Y FFLINT** [CYFEIRIAD] ("**Cyngor Sir y Fflint**").

(5) **CYNGOR GWYNEDD** [CYFEIRIAD] ("**Cyngor Gwynedd**")

(6) **CYNGOR SIR POWYS** [CYFEIRIAD] ("**Cyngor Powys**")

(7) **CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF** [CYFEIRIAD] ("**Cyngor Rhondda**")

(8) **CYNGOR BWRDEISTREFOL SIROL TORFAEN** [CYFEIRIAD] ("**Cyngor Torfaen**")

(y cyfeirir atynt ar y cyd fel "**Awdurdodau Cyfansoddol**" ac yn unigol fel "**Awdurdod Cyfansoddol**")

**CEFNDIR**

(A) Mae'r Awdurdodau Cyfansoddol wedi ymrwymo i ddatblygu Cydbwyllgor ffurfiol yn unol ag adran 101 ac adran 102 Deddf Llywodraeth Leol 1972 i sicrhau gweithredu'r trefniadau'n effeithiol er mwyn pŵlio asedau o fewn y CPLlL dan fframwaith o drefn lywodraethol fewnol gref i gyflawni darbodion maint ac isadeiledd buddsoddi gwell.

(B) Mae'r Awdurdodau Cyfansoddol oll yn gynghorau sy'n gyfrifol am weinyddu llywodraeth leol o fewn eu hardaloedd fel y nodir yn Neddf Llywodraeth Leol 1972. Yn ei llythyr, dyddiedig 23 Tachwedd 2016, mae'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol wedi cadarnhau bod yr Awdurdodau Cyfansoddol wedi cael caniatâd i bob un o'r Awdurdodau Cyfansoddol unigol i barhau i gydweithio gyda phob Awdurdod Cyfansoddol arall i ffurfio pŵl o asedau yng nghyswllt pob un o'u cronfeydd unigol dan y CPLlL.

(C) Bydd yr Awdurdodau Cyfansoddol yn bwrw ymlaen â'r Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd (fel y diffinnir isod) dan delerau'r Cytundeb hwn i oruchwylio ei drefn lywodraethu.

**TELERAU Y CYTUNWYD ARNYNT**

**1 DEHONGLIAD**

1.1 Mae’r diffiniadau a’r rheolau dehongli a ganlyn yn berthnasol yn y Cytundeb hwn.

**Diwrnod Busnes**, sef unrhyw ddiwrnod heblaw dydd Sadwrn, dydd Sul neu wyliau cyhoeddus yn Lloegr pan fo'r banciau yn Llundain ar agor.

**Cynllun Busnes**, sef yr ystyr a roir dan gymal 6.

**Canllawiau CIPFA**, sef y canllawiau sydd wedi'u cyhoeddi ym mis Hydref 2016 gan y *Chartered Institute of Public Finance and Accountancy* o'r enw *Investment pooling governance principles for LGPS Administering Authorities*.

**Dyddiad Cychwyn** [17 Mawrth 2016] neu [dyddiad y cytundeb neu'r dyddiad pryd bydd yr holl Awdurdodau Cyfansoddol wedi llofnodi].

**Awdurdodau Cyfansoddol**, sef y partïon i'r Cytundeb hwn, a'r holl awdurdodau gweinyddu eraill o fewn y CPLlL sydd yn bartïon i'r Cytundeb hwn, neu a fydd yn dod yn bartïon ryw bryd.

**Blwyddyn Ariannol**, sef, yn achos y Flwyddyn Ariannol gyntaf, y cyfnod o'r Dyddiad Cychwyn hyd at (ac yn cynnwys) y 31 Mawrth dilynol. Ar gyfer Blynyddoedd Ariannol dilynol, y cyfnod rhwng 1 Ebrill a 31 Mawrth (yn gynwysedig).

**Cyngor Lletya**, sef yr Awdurdod Cyfansoddol sydd wedi'i benodi yn unol â chymal 7 ac y mae ei ddyletswyddau wedi'u disgrifio o fewn y cymal hwnnw.

**Pŵl Buddsoddi**, sef y buddsoddiadau wedi'u pŵlio (p'un a ydynt mewn cronfeydd unigol neu is-gronfeydd niferus) a ddaw o asedau a ddelir gan yr Awdurdodau Cyfansoddol yn rhinwedd eu rôl fel awdurdodau gweinyddu o fewn y CPLlL er dibenion y Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd a ddisgrifir gan y Cytundeb hwn.

**Rheoliadau Buddsoddi**, sef Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Rheoli a Buddsoddi Cronfeydd) 2016 (OS 2016/946).

**Cydbwyllgor Llywodraethu**, sef y cydbwyllgor a ffurfir gan y Cytundeb hwn.

**CPLlL**, sef y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a sefydlwyd yn unol â rheoliadau a wnaed gan yr Ysgrifennydd Gwladol wrth weithredu pwerau dan adran 7 ac adran 12 Deddf Blwydd-daliadau 1972 fel y’i diwygiwyd o bryd i'w gilydd.

Yn y cytundeb hwn, golyga **Aelod**, aelod o'r Cydbwyllgor Llywodraethu a benodwyd yn unol â chymal 3.3 neu ei ddirprwy a benodwyd yn unol â chymal 3.4.

**Swyddog Monitro**, sef y person a glustnodir gan bob Awdurdod Cyfansoddol er dibenion adran 5 Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989.

**Gweithredwr**, sef gweithredwr y cerbyd buddsoddiadau wedi'u pŵlio sy'n Gynllun ar y Cyd wedi'i Awdurdodi sy'n cael ei gaffael gan y Cyngor Lletya ar ran yr Awdurdodau Cyfansoddol.

**Contract y Gweithredwr**, sef y cytundeb rhwng y Cyngor Lletya a’r Gweithredwr.

**Y Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd**, sef y trefniadau pŵlio asedau dan y Pŵl Buddsoddi o fewn fframwaith o drefn lywodraethu fewnol gref i gyflawni darbodion maint ac isadeiledd buddsoddi gwell a weithredir gan yr Awdurdodau Cyfansoddol fel y disgrifir gan y Cytundeb hwn.

**Swyddog A151**, sef y person a benodir gan bob Awdurdod Cyfansoddol er dibenion adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Golyga **Yr Ysgrifennydd Gwladol** yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol neu unrhyw adran arall sydd â chyfrifoldeb am y CPLlL.

Golyga **Cyflwyniad** y ddogfen a grëir gan yr Awdurdodau Cyfansoddol o'r enw "*Cyflwyniad gan Bŵl Cymru i'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol (DCLG) mewn ymateb i'r cyhoeddiad ym mis Tachwedd 2015: LGPS: Investment Reform Criteria and Guidance*" dyddiedig 15 Gorffennaf 2016.

**Cylch Gorchwyl**, sef y ddogfen fframwaith llywodraethu ynghylch swyddogaethau a gweithrediadau'r Cydbwyllgor Llywodraethu.

**TUPE**, sef Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 2006 (fel y'i diwygiwyd o bryd i'w gilydd).

1.2 Ni fydd penawdau cymalau, atodlenni a pharagraffau yn effeithio ar y dehongliad o'r cytundeb hwn.

1.3 Mae **person** yn cynnwys person naturiol, corff corfforaethol neu anghorfforedig (p'un a oes ganddynt bersonoliaeth gyfreithiol ar wahân neu ddim).

1.4 Mae'r atodlenni'n ffurfio rhan o'r cytundeb hwn a bydd ganddynt yr un effaith â phe baent wedi’u nodi'n llawn yng nghorff y cytundeb hwn. Mae unrhyw gyfeiriad at y cytundeb hwn yn cynnwys yr atodlenni.

1.5 Bydd cyfeiriad at **gwmni** yn cynnwys unrhyw gwmni, corfforaeth neu gorff corfforaethol arall, lle bynnag a sut bynnag y cafodd ei ymgorffori neu ei sefydlu.

DRAFT

1.6 Oni bai bod y cyd-destun yn awgrymu'n wahanol, mae geiriau unigol yn cynnwys y lluosog, a'r lluosog yn cynnwys yr unigol.

1.7 Oni bai bod y cyd-destun yn awgrymu'n wahanol, bydd cyfeiriad at genedl enw o un math yn gyfeiriad at bob cenedl enw.

1.8 Mae cyfeiriad at statud neu ddarpariaeth statudol yn cyfeirio ato fel y mae wedi'i ddiwygio, ei ymestyn neu ei ailddeddfu o bryd i'w gilydd, ac yn cynnwys unrhyw is-ddeddfwriaeth a wneir o bryd i'w gilydd yn ei sgil.

1.9 Mae cyfeiriad at **ysgrifennu** neu **ysgrifenedig** yn cynnwys ffacs ac e-bost.

1.10 Mae dogfennau ar **ffurf y cytunwyd arni** yn ddogfennau ar ffurf y cytunwyd arni gan y partïon ac y rhoddwyd llythrennau cyntaf eu henw arnynt neu ar eu rhan er mwyn gallu eu hadnabod.

1.11 Mae cyfeiriadau at gymalau ac atodlenni yn cyfeirio at gymalau ac atodlenni'r Cytundeb hwn; mae cyfeiriadau at baragraffau yn baragraffau yn yr atodlen berthnasol.

1.12 Bydd unrhyw eiriau sy'n dilyn y termau **yn cynnwys, gan gynnwys, yn benodol** neu **er enghraifft** neu fynegiad tebyg yn cael eu dehongli fel ffordd o egluro ac ni fydd yn cyfyngu ystyr y geiriau, y disgrifiad, y diffiniad, yr ymadrodd neu'r term blaenorol.

1.13 Mae unrhyw rwymedigaeth yn y cytundeb hwn ar berson i beidio â gwneud rhywbeth yn cynnwys ymrwymiad i beidio â chytuno neu ganiatáu gwneud y peth hwnnw.

1.14 Bydd unrhyw gyfeiriad at deitl swyddog neu unrhyw un o'r Awdurdodau Cyfansoddol yn cynnwys unrhyw berson sy'n dal y swydd honno o bryd i'w gilydd dan yr un teitl neu deitl gaiff ei amnewid wedi hynny, neu unrhyw swyddog arall o'r Awdurdod Cyfansoddol perthnasol y bydd yr Awdurdod Cyfansoddol hwnnw o bryd i'w gilydd yn ei benodi i gyflawni dyletswyddau'r swyddog y cyfeiriwyd ato.

## 2 CYCHWYN A THERFYNU'R MEMORANDWM O DDEALLTWRIAETH

2.1 Bydd y Cytundeb yn cychwyn ar y Dyddiad Cychwyn. Er mwyn osgoi amheuaeth, bydd y Cytundeb hwn mewn grym pan fo pob Awdurdod Cyfansoddol wedi ei weithredu yn unig a bydd gan bob Awdurdod Cyfansoddol statws cyfartal a chanddynt hawliau cyfartal ac eithrio ble nodir yn wahanol yn benodol a bydd yn parhau ar delerau'r Cytundeb hwn hyd nes y cynharaf o'r dyddiadau a ganlyn:-

(a) pan fo'r holl Awdurdodau Cyfansoddol yn cytuno'n ysgrifenedig i'w derfynu; neu

(b) nad oes ond un Awdurdod Cyfansoddol ar ôl nad yw wedi tynnu'n ôl o'r Cytundeb hwn yn unol â chymalau 21 neu 22.



DRAFT

2.2 Mae'r Awdurdodau Cyfansoddol yn cadarnhau y bydd y memorandwm o ddealltwriaeth rhyngddynt yn ymwneud â *Chaffael gwasanaethau gan awdurdodau gweinyddu'r cynllun pensiwn llywodraeth leol yng Nghymru* yn dod i ben o'r Dyddiad Cychwyn.

**3 FFURFIO'R CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU**

3.1 Yn sgil y Cytundeb hwn, mae'r Awdurdodau Cyfansoddol drwy hyn yn ffurfio'r Cydbwyllgor Llywodraethu yn unol ag adran 101(5) a 102(1) Deddf Llywodraeth Leol 1972 er dibenion goruchwylio ac adrodd ar berfformiad y Pŵl Buddsoddi. Ni fydd y Cydbwyllgor Llywodraethu yn gyfrifol am ffurfio nac adolygu'r strategaeth fuddsoddi a ddisgrifir gan reoliad 7 y Rheoliadau Buddsoddi yng nghyswllt bob un neu unrhyw un o'r Awdurdodau Cyfansoddol.

3.2 Mae cyfarfodydd y Cydbwyllgor yn destun darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 1972, gan gynnwys y darpariaethau ar fynediad at wybodaeth, a chyfarfodydd a gynhelir yn gyhoeddus.

3.3 Bydd Aelodaeth y Cydbwyllgor yn un aelod etholedig a enwebir gan bob un o'r Awdurdodau Cyfansoddol a bwrw bod yr aelod etholedig yn aelod o bwyllgor pensiynau'r Awdurdod Cyfansoddol hwnnw (neu gorff cyfatebol) er dibenion Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013.

3.4 Er dibenion cymal 3.3, gall pob Awdurdod Cyfansoddol benodi eilydd a enwir y bydd yn rhaid iddo fod yn aelod etholedig o'r un Awdurdod Cyfansoddol â'r aelod etholedig y mae'n eilio ar ei ran a bwrw bod yr aelod yn aelod o bwyllgor pensiynau'r Awdurdod Cyfansoddol hwnnw (neu gorff cyfatebol) er dibenion Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013.

3.5 Bydd y Cydbwyllgor Llywodraethu yn ymgymryd â'i rôl ac yn gweithredu yn unol â'r Cylch Gorchwyl a nodir yn Atodlen 4.

3.6 Bydd pob cyfarfod yn gweithredu dan reolau'r drefn a'r gofynion a nodir yn atodlen 6.

3.7 Darperir rhaglen hyfforddiant i Aelodau a'u dirprwyon ynghylch Canllawiau CIPFA. Er mwyn bod yn gymwys i gymryd rhan yn y Cydbwyllgor Llywodraethu, rhaid i'r Aelodau fynychu a chwblhau'r hyfforddiant hwn o fewn [3 mis] o gael eu penodi i'r Cydbwyllgor Llywodraethu a rhaid iddynt fynychu sesiynau diweddaru a gloywi wedi hynny a ddarperir o leiaf unwaith [bob dwy flynedd] [fel y pennir yn briodol gan y Cydbwyllgor Llywodraethu]. Os nad yw'r Aelodau'n mynychu'r sesiynau hyfforddiant gorfodol, rhaid iddynt ymgymryd â hyfforddiant o'r fath ar gost yr Awdurdod Cyfansoddol y mae'r Aelod yn ei gynrychioli.



DRAFT

## 4 GWEITHGOR SWYDDOGION

4.1 Bydd y Cydbwyllgor Llywodraethu yn penodi'r Gweithgor Swyddogion ar sail y telerau a ganlyn:

(a) **Diben**: bydd y Gweithgor yn cefnogi ac yn cynghori'r Cydbwyllgor Llywodraethu ar faterion y gall y Cydbwyllgor Llywodraethu wneud cais rhesymol amdanynt neu unrhyw faterion yn ymwneud â'r Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd a godir gan Swyddog Adran 151 neu Swyddog Monitro unrhyw Awdurdod Cyfansoddol;

(b) **Aelodaeth**: bydd pob Awdurdod Cyfansoddol yn enwebu hyd at [ddau] swyddog a gyflogir gan yr Awdurdod Cyfansoddol hwnnw fel ei gynrychiolwyr ar y Gweithgor;

(c) **Cylch Gwaith**: bydd cylch gwaith y Gweithgor yn cynnwys:

(i) cynnig i'r Cydbwyllgor Llywodraethu a chaffael gofynion cefnogaeth allanol (yn cynnwys cefnogaeth gyfreithiol, llywodraethu, trethiant a chefnogaeth ariannol arall) sy'n berthnasol i'r Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd;

(ii) Cynigion i'r Cydbwyllgor Llywodraethu ar drefniadau llywodraethu, yn cynnwys sut fydd y Gweithredwr yn cael ei ddal i gyfrif drwy gyfeirio at Delerau'r Gweithredwr;

(iii) cynigion i'r Cydbwyllgor Llywodraethu ar strwythur y Pŵl Buddsoddi gan gynnwys nifer a ffurfiad yr is-gronfeydd;

(iv) herio a chyfrannu at ddatblygu'r Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd er mwyn galluogi i'r Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd a'r Cydbwyllgor Llywodraethu gyflawni'i nod;

(v) ystyried a gwneud argymhellion i'r Cydbwyllgor Llywodraethu o ran ffurfio'r Cynllun Busnes;

(vi) monitro ac adolygu perfformiad y Gweithredwr wrth gyflawni ei amcanion, ei lefelau gwasanaeth a'i ddangosyddion perfformiad allweddol;

(vii) paratoi Cynllun Busnes drafft i'w ystyried gan y Cydbwyllgor Llywodraethu, ymgynghori ar y drafft cymeradwy ac adrodd ar ddeilliannau ymgynghoriad o'r fath yn cynnwys cynnig unrhyw ddiwygiadau i'r drafft i'r Cydbwyllgor Llywodraethu;

DRAFFT

(viii) datblygu ac adolygu'n gyson y rhaglen o hyfforddiant i'w gyflwyno i Aelodau gan sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r holl reoliadau perthnasol a'r canllawiau cymwys;

(ix) ceisio cyngor gan ymgynghorwyr proffesiynol sydd wedi'u hawdurdodi a'u rheoleiddio gan awdurdodau cymwys;

(x) unrhyw faterion eraill y bydd y Cydbwyllgor Llywodraethu yn gofyn amdanynt neu'n eu dirprwyo i'r Gweithgor.

4.2 Bydd y Gweithgor yn ymgymryd â'i rôl ac yn gweithredu yn unol â'r Cylch Gorchwyl a fydd yn cynnwys y manylion sydd wedi'u nodi yn Atodlen [4][*cylch gorchwyl JGC wedi'u diweddaru i gynnwys cyfeiriad at y Gweithgor*].

## 5 GWNEUD PENDERFYNIADAU

5.1 Mae'r Awdurdodau Cyfansoddol wedi adnabod y ddau gategori a ganlyn o benderfyniadau, ynghyd â'r modd y byddant yn cael eu gwneud:

(a) "**Mater Cydbwyllgor Llywodraethu**": mater y penderfynir arno mewn cyfarfod o'r Cydbwyllgor (rhaid cael cworwm ynddo) gan y rheini sy'n bresennol ac sydd â'r hawl i bleidleisio, a bydd unrhyw benderfyniad o'r fath yn rhwymo'r holl Awdurdodau Cyfansoddol ac mae materion o'r fath wedi'u hadnabod yn Atodlen 3;

(b) "**Materion a Gedwir i'r Awdurdodau Cyfansoddol**": mater y bydd rhaid ei gyfeirio at bob Awdurdod Cyfansoddol er penderfyniad ac ni fydd y Cydbwyllgor Llywodraethu yn ymdrin ag unrhyw fater o'r fath hyd nes bod pob un o'r Awdurdodau Cyfansoddol wedi penderfynu arno. Os yw'r Awdurdodau Cyfansoddol yn methu dod i'r un penderfyniad yng nghyswllt mater o'r fath, caiff y mater ei gyfeirio dan gymal 36 (Datrys Anghydfod) fel anghydfod sydd i'w ddatrys, ac mae materion o'r fath wedi'u hadnabod yn Atodlen 2.

## 6 CYNLLUN BUSNES

6.1 Bydd y Cydbwyllgor Llywodraethu yn cynhyrchu Cynllun Busnes drafft, gyda chefnogaeth y Gweithgor, bob tair blynedd o leiaf er mwyn ymgynghori gyda'r Awdurdodau Cyfansoddol. Bydd y Cynllun Busnes drafft yn ystyried yr isod:

(a) amcanion strategol y Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd dros y cyfnod tair blynedd perthnasol;

(b) y gyllideb ariannol gymeradwy ar gyfer y cyfnod tair blynedd perthnasol;

DRAFFT

(c) y cynllun busnes a gynhyrchir gan y Gweithredwr yng nghyswllt y Pŵl Buddsoddi;

(d) gofynion pob un o'r Awdurdodau Cyfansoddol yn unigol fel awdurdod gweinyddu yn unol â’r Rheoliadau Buddsoddi;

(e) cyngor ymgynghorwyr proffesiynol sydd wedi'u cymhwyso, eu hawdurdodi a'u rheoleiddio'n briodol;

(f) y canllawiau a gyhoeddir o bryd i'w gilydd gan yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol fel y cyfeirir atynt yn rheoliad 7(1) y Rheoliadau Buddsoddi;

(g) unrhyw faterion eraill y gall yr Awdurdodau Cyfansoddol eu hystyried yn angenrheidiol i hyrwyddo'r Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd.

6.2 Bydd ymgynghoriad ar y Cynllun Busnes drafft yn cael ei wneud gan y Gweithgor a fydd yn adrodd ar ddeilliannau'r ymgynghoriad hwnnw. Bydd y Cydbwyllgor Llywodraethu yn cynnal cyfarfod i drafod ac, wedi rhoi sylw priodol i'r adroddiad ar yr ymateb i'r ymgynghoriad a chyngor yr ymgynghorydd proffesiynol sydd wedi'i gymhwyso a'i reoleiddio'n briodol, yn cytuno ar Gynllun Busnes terfynol a allai gynnwys unrhyw ddiwygiadau i'r drafft y mae'r Cydbwyllgor Llywodraethu yn eu hystyried yn briodol.

6.3 Yn dilyn derbyn cymeradwyaeth y Cydbwyllgor Llywodraethu, caiff y Cynllun Busnes ei anfon i'r holl Awdurdodau Cyfansoddol er mwyn cael eu cymeradwyaeth ysgrifenedig.

6.4 Er mwyn osgoi amheuaeth, bydd cytuno ar y Cynllun Busnes yn cael ei drin fel Mater a Gedwir i'r Awdurdodau Cyfansoddol (fel y diffinnir yng nghymal 5).

## 7 CYNGOR LLETYA

7.1 Mae'r Awdurdodau Cyfansoddol wedi cytuno, gan gychwyn o'r Dyddiad Cychwyn, mai [*nodwch enw’r Cyngor Lletya*] fydd y Cyngor Lletya ar gyfer y Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd ac y bydd hynny’n dod i rym o’r Dyddiad Cychwyn. Cyflawnir hyn ar ei gyfer ac ar ei ran ei hun a’r Awdurdodau Cyfansoddol ac mae [*nodwch enw’r Cyngor Lletya*] yn cytuno i weithredu yn y capasiti hwnnw dan amodau, yn unol â, ac i’r graddau y darperir ar eu cyfer gan delerau’r Cytundeb hwn. Er mwyn osgoi amheuaeth, mae rôl y Cyngor Lletya yn cynnwys:-

(a) gweithredu fel yr awdurdod cyflogi ar gyfer unrhyw staff sy’n rhan o gyflawni swyddogaethau’r Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd (penodi, cyflogi neu dderbyn secondiadau staff) yn unol â’r Cytundeb hwn;

(b) bod yn bwynt cyswllt cyfreithiol er dibenion rheoli’r Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd;

(c) darparu’r holl adnoddau a chyfleusterau gweinyddol allai fod yn angenrheidiol er dibenion darparu’r Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd, a dal yr holl [Gyfraniadau Pŵlio];

(d) darparu’r gwasanaethau llywodraethu a gweinyddol allai fod yn angenrheidiol er dibenion cefnogi'r Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd;

(e) darparu hyfforddiant i Aelodau i gefnogi eu rôl ar y Cydbwyllgor Llywodraethu yn unol â'r cynllun hyfforddiant y cytunwyd arno gan y Gweithgor.

(f) darparu swyddogion sydd â'r cymwysterau a'r profiad priodol a fydd yn gweithredu fel y prif ymgynghorwyr cyfreithiol ac ariannol i’r Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd; [***Noder: rhagwelwn y cedwir y rolau hyn i'w rheoli gan y Cydbwyllgor Llywodraethu, ond rhowch unrhyw farn sydd gennych ar hyn os gwelwch yn dda***]

(g) er dibenion y Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd, bydd gofyn i'r Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro (neu eu dirprwyon) sicrhau eu bod yn goruchwylio ac yn adolygu gweithrediad y Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd a phenderfyniadau'r Cydbwyllgor Llywodraethu ar ran yr holl Awdurdodau Cyfansoddol; ***[Er eich ystyriaeth]***

(h) y pŵer i ymrwymo i gontractau am nwyddau a gwasanaethau sydd eu hangen at ddibenion y Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd.

7.2 [Er osgoi amheuaeth nid yw dyletswyddau a chyfrifoldebau’r Awdurdod Lletya yn unol â’r cytundeb hwn ond yn ymrwymo’r Awdurdod Lletya cyn belled â bod adnoddau ar ei gyfer gan yr Awdurdodau Cyfansoddol drwy’r Cytundeb hwn.]

7.3 Eithr ac oni bai fod y gyfraith yn gofyn yn wahanol, bydd yr holl staff a gyflogir gan yr Awdurdod Lletya yn unol â’r cytundeb hwn yn cael eu cyflogi ar amodau a thelerau cyflogaeth perthnasol yr Awdurdod Lletya, a pholisïau staff cysylltiedig, gan gynnwys strwythurau cyflog.

7.4 Gellir penodi Cyngor Lletya gwahanol drwy benderfyniad gan fwyafrif yr Awdurdodau Cyfansoddol a bwrw bod y [Cyngor Lletya presennol a'r] Cyngor Lletya olynol yn cytuno.

7.5 Os yw’r Cyngor Lletya yn tynnu’n ôl o'r Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd yn unol â chymal 21 (Gadael Gwirfoddol) neu gymal 22 (Gadael Gorfodol), penodir Awdurdod Lletya yn ei le drwy benderfyniad gan fwyafrif yr Awdurdodau Cyfansoddol a bwrw bod y Cyngor Lletya olynol yn cytuno. Ni fydd gan y Cyngor sydd wedi tynnu’n ôl yr hawl i bleidleisio yng nghyswllt unrhyw benodiad o’r fath.

DRAFT

7.6 Os yw TUPE yn berthnasol i benodi unrhyw Gyngor Lletya olynol, bydd yr Awdurdodau Cyfansoddol yn cydymffurfio â darpariaethau Atodlen 7

7.7 Am hyd y Cytundeb hwn, bydd y Cyngor Lletya yn gweithredu’n ddiwyd ac yn ddidwyll ym mhob peth a wna gyda’r Awdurdodau Cyfansoddol eraill.

7.8 Am hyd y Cytundeb hwn, bydd yr Awdurdodau Cyfansoddol eraill yn gweithredu’n ddiwyd ac yn ddidwyll ym mhob peth a wnânt gyda’r Cyngor Lletya, a byddant yn gwneud pob ymdrech resymol i gynorthwyo’r Cyngor Lletya i gefnogi’r Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd.

**8 CONTRACT Y GWEITHREDWR**

8.1 [Mae’r Awdurdodau Cyfansoddol yn awdurdodi'r Cyngor Lletya i gytuno ar Gontract y Gweithredwr ar eu rhan. Cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol, bydd y Cyngor Lletya yn cadarnhau bod Contract y Gweithredwr wedi'i weithredu'n briodol ac mewn grym.]

**9 ATEBOLRWYDD AC INDEMNIAD Y CYNGOR LLETYA**

9.1 Ni fydd unrhyw beth yn y Cytundeb hwn yn gwneud y Cyngor Lletya yn atebol yng nghyswllt unrhyw beth a wnaed neu nas gwnaed gan Awdurdod Cyfansoddol hyd at y Dyddiad Cychwyn.

9.2 Bydd yr Awdurdodau Cyfansoddol, gyda'i gilydd, yn indemnio’r Cyngor Lletya yn llawn rhag unrhyw Golledion all ddod i law’r Cyngor Lletya yn uniongyrchol neu’n anuniongyrchol, o ganlyniad i'r Cyngor Lletya yn ymrwymo i Gontract y Gweithredwr.

9.3 Bydd y Cyngor Lletya yn cael ei indemnio rhag ac yn erbyn yr holl atebolrwydd, costau, treuliau, iawndal a cholledion (yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i unrhyw golled uniongyrchol, anuniongyrchol neu ôl-ddilynol, colli elw, colli enw da a'r holl log, cosbau a chostau cyfreithiol (a gyfrifir ar sail indemniad llawn) a'r holl gostau a threuliau rhesymol eraill) allai godi wrth iddo ymgymryd â'i rôl a awdurdodir yn unol â'r cymal hwn [9] ac eithrio mewn achos o ddiffygdalu neu dwyll bwriadol.

**10 YMRWYMIAD YR AWDURDODAU CYFANSODDOL A CHYFRANIADAU**

10.1 Mae’r Awdurdodau Cyfansoddol yn cytuno i dalu'r cyfraniadau a fydd yn cael eu cyfrifo [yn unol â’u cyfran] / [yn gyfartal] o'u costau llywodraethu, caffael a gweinyddu a amcangyfrifir ac sydd wedi'u cynnwys o fewn y Cynllun Busnes (y "**Cyfraniadau Pŵlio**").

10.2 Mae’r Awdurdodau Cyfansoddol yn cytuno i dalu'r Cyfraniadau Pŵlio i'r Cyngor Lletya ar ddyddiadau ac amlder fel y pennir gan y Cynllun Busnes.

10.3 Bydd y Cyngor Lletya yn paratoi cyfrifon blynyddol yng nghyswllt pob Blwyddyn Ariannol ar gyfer y Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd yn unol â pholisïau cyfrifo'r Cyngor Lletya (neu bolisi cyfrifo arall o'r fath y cytunir arno gan yr Awdurdodau Cyfansoddol) erbyn dim hwyrach na [31 Mai] yn y Flwyddyn Ariannol ddilynol.

10.4 Gwneir yr holl Gyfraniadau Pŵlio drwy daliad i'r cyfrif banc y rhoddir gwybodaeth amdano i'r Awdurdodau Cyfansoddol gan y Cyngor Lletya er dibenion y Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd. Bydd y Cyngor Lletya yn cynnal cyfrif neu gyfrifon ar wahân fel sy'n briodol ar gyfer yr holl arian a dderbynnir neu a warir yng nghyswllt y Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd mewn modd sy'n cydymffurfio â'u trefniadau cyfrifo.

10.5 Yn dilyn terfynu'r Cytundeb hwn, unwaith y telir costau'r Cyngor Lletya, bydd y swm sy'n sefyll i gredyd y cyfrif neu'r cyfrifon ble cedwir arian y Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd yn cael ei ddychwelyd i'r Awdurdodau Cyfansoddol sydd ar ôl ar y pryd yn unol â'r gyfran y'u cyfrannwyd yn wreiddiol.

10.6 Os oes angen unrhyw gyfraniad cyfalaf pellach, neu os gwneir ad-daliadau cyfalaf, bydd yr Awdurdodau Cyfansoddol yn penderfynu ar yr hyn a ganlyn:

(a) y cyfanswm;

(b) dosraniad cyfraniad neu ad-daliad o'r fath rhwng yr Awdurdodau Cyfansoddol; a

(c) ffurf cyfraniad neu ad-daliad o'r fath.

Yn absenoldeb unrhyw gytundeb i'r gwrthwyneb, bydd y cyfraniadau neu'r ad-daliadau hyn gan ac i'r holl Awdurdodau Cyfansoddol yn gyfartal.

10.7 Er mwyn osgoi amheuaeth, bydd unrhyw gostau a geir yng nghyswllt rheoli buddsoddiadau'r Pŵl Buddsoddi yn cael eu priodoli i bob Awdurdod Cyfansoddol yn unol â chyfran yr asedau y gwnaethant eu cyfrannu i'r Pŵl Buddsoddi.

**11 CYFRIFON**

11.1 Bydd y Cyngor Lletya yn cadw cyfriflyfrau priodol (a fydd yn cynnwys unrhyw system gyfrifo gyfrifiadurol a ddefnyddir gan y Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd am y tro) a bydd yn gyfrifol am sicrhau bod cofnod llawn a chywir o'r holl dderbynebion a thaliadau yn cael eu gwneud yn brydlon. Cedwir y cyfriflyfrau yn eiddo'r Cyngor Lletya a byddant ar gael i'w harchwilio gan yr holl Awdurdodau Cyfansoddol (sydd â'r hawl i gymryd copïau hefyd). Ar gais rhesymol, bydd y Cyngor Lletya yn sicrhau bod gwybodaeth sydd ei hangen ar unrhyw Awdurdod Cyfansoddol er mwyn iddynt baratoi eu cyfrifon eu hunain neu ymateb i unrhyw archwilio mewnol neu allanol, ar gael iddynt.

DRAFT

11.2 Bydd y Cyngor Lletya yn sicrhau bod y cyfraniadau a'r taliadau a wnaed gan bob Awdurdod Cyfansoddol yn cael eu cadw mewn cyfrif yn enw'r Cyngor Lletya nad yw'n torri rheoliad 6 y Rheoliadau Buddsoddi.

11.3 Bydd y Cyngor Lletya yn gyfrifol am sicrhau bod y cyfrifon sy'n ymwneud â'r Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd yn cael eu harchwilio pryd a phan fo angen hynny yn ôl y gyfraith neu awdurdod cymwys arall a bydd yn sicrhau bod copïau o'r cyfrifon wedi'u harchwilio ar gael i'r holl Awdurdodau Cyfansoddol.

**12 COSTAU RHEOLI BUDDSODDIADAU**

12.1 Er gwaethaf cymal 10, bydd pob Awdurdod Cyfansoddol yn ysgwyddo ei gostau ei hun yn nhermau rheoli buddsoddiadau y cânt neu y disgwylient eu cael yn y Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd. Cyfeirir at fanylion costau o'r fath yn y Cynllun Busnes.

**13 EIDDO DEALLUSOL**

13.1 Bydd unrhyw Eiddo Deallusol a ddatblygir gan unrhyw Awdurdod Cyfansoddol o'r Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd yn cael ei gadw gan yr Awdurdodau Cyfansoddol a bydd pob Awdurdod Cyfansoddol yn rhoi i bob Awdurdod Cyfansoddol arall drwydded anghyfyngedig a pharhaol na ellir ei throsglwyddo ac sy’n rhydd o unrhyw freindal, i'w ddefnyddio, ei addasu, ei newid a'i ddatblygu er dibenion y Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd, waeth a yw’r parti sy’n rhoi’r drwydded yn parhau i fod yn barti yn y Cytundeb hwn ai peidio. Bydd yr holl gostau a threuliau sy'n ymwneud ag Eiddo Deallusol o'r fath yn cael eu hysgwyddo gan yr Awdurdodau Cyfansoddol a bydd yr Awdurdodau Cyfansoddol eraill yn indemnio'r Awdurdod Cyfansoddol neu'r Awdurdodau Cyfansoddol y mae eiddo o'r fath wedi'i freinio gyda hwy, yn erbyn yr holl atebolrwydd a allai godi'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol wrth ei ddefnyddio.

**14 ADRODDIADAU**

14.1 Bydd y Cydbwyllgor Llywodraethu yn goruchwylio'r Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd ac yn sicrhau ei bod yn cael ei darparu yn unol â'r Cynllun Busnes.

14.2 Er mwyn sicrhau bod yr Awdurdodau Cyfansoddol yn cael eu diweddaru gyda pherfformiad y Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd, bydd y Cydbwyllgor Llywodraethu yn adrodd yn chwarterol ac yn flynyddol i'r Awdurdodau Cyfansoddol yn unol â dangosyddion perfformiad allweddol ac y cyfeirir atynt yn y Cynllun Busnes ar adegau.

**15 YSWIRIANT**

15.1 Os nad yw gweithredu'r Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd yn rhan o unrhyw yswiriant presennol sydd gan yr Awdurdodau Cyfansoddol, bydd y Cyngor Lletya yn gweithredu polisïau yswiriant o'r fath ar gyfer symiau y bydd yn penderfynu arnynt ac yn eu cadw

mewn grym drwy'r adeg (er budd Aelodau'r Cydbwyllgor Llywodraethu a'r swyddogion a benodir i'r Gweithgor). Bydd polisïau o'r fath yn cael eu cynnal ar gost yr Awdurdodau Cyfansoddol a byddant yn gost weinyddol y Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd hon yn nhermau cymal 10.1.

**16 DYLETSWYDDAU A GRYM**

16.1 Bydd pob Awdurdod Cyfansoddol yn cydymffurfio â'r isod bob amser:

(a) defnyddio ei sgiliau a'i ymdrechion rhesymol i hyrwyddo a bwrw ymlaen â'r Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd er lles yr Awdurdodau Cyfansoddol, ac ymddwyn mewn modd priodol a chyfrifol;

(b) ymroddi'r amser a'r sylw y mae'r Awdurdodau Cyfansoddol yn penderfynu'n ysgrifenedig sydd yn angenrheidiol ac yn briodol i'r Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd;

(c) cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaethau, rheoliadau, safonau proffesiynol a darpariaethau eraill a all reoli ymddygiad y Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd neu a bennir gan yr Awdurdodau Cyfansoddol fel safonau i'w gweithredu'n wirfoddol i'r Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd;

(d) arddangos didwylledd i'r Awdurdodau Cyfansoddol eraill yn yr holl drafodion sy'n ymwneud â'r Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd a rhoi hanes cywir a gwybodaeth lawn am bopeth sy'n effeithio ar y Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd;

(e) rhoi gwybod i'r Awdurdodau Cyfansoddol ar unwaith wedi iddynt gael gwybod am unrhyw achos cyfreithiol yng nghyswllt y Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd.

(f) talu a gweithredu ar ei ddyledion a'i ymrwymiadau ariannol presennol a rhai'r dyfodol yn brydlon;

(g) ni fyddant yn gwneud neu'n methu gwneud unrhyw beth fyddai'n dwyn gwarth ar ei enw da ei hun nac ar enw da unrhyw un o'r Awdurdodau Cyfansoddol eraill;

(h) ceisio'r holl ganiatadau angenrheidiol sy'n ddigonol i fwrw ymlaen â'u dyletswyddau i'r Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd.

16.2 Ni fydd unrhyw weithred a fyddai, fel arall, yn golygu torri'r cymal hwn, yn gyfystyr â thorri'r cymal os oedd gofyn i'r Awdurdod Cyfansoddol ymgymryd â'r weithred honno i gydymffurfio â dyletswydd statudol neu orchymyn llys, tribiwnlys neu ombwdsmon.

**17 DIRPRWYO**

17.1 Cyn cychwyn y Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd, bydd yr Awdurdodau Cyfansoddol yn rhoi awdurdodiadau yn eu lle fel sy'n ofynnol o fewn eu trefniadau llywodraethu mewnol er mwyn;

(a) dirprwyo gwneud penderfyniadau fel y nodir yn atodlen 6 (Materion Cydbwyllgor Llywodraethu) i'w Haelod a dirprwy'r Aelod hwnnw.

(b) dirprwyo unrhyw fater arall sy'n ofynnol er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaethau'r Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd hon, yn cynnwys dirprwyo i'w swyddogion ei hun i'r Cyngor Lletya fel sydd angen.

17.2 Bydd yr Awdurdodau Cyfansoddol yn adolygu a, ble bo angen, yn diwygio eu trefniadau dirprwy drwy gydol oes y Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd i sicrhau y gallant gydymffurfio â'r darpariaethau ynghylch hynny.

17.3 Bydd y Cydbwyllgor Llywodraethu yn prynu hynny os rhoir grym iddo benodi asiantau i ymgymryd â'i ddyletswyddau a bydd y Cydbwyllgor Llywodraethu yn gweithredu yn ddidwyll ac â sgil a gofal rhesymol wrth ddewis, defnyddio a monitro asiantau o'r fath.

**18 RHWYMEDIGAETHAU AR AWDURDODAU CYFANSODDOL**

18.1 Heb ragfarnu telerau'r Cytundeb hwn, bydd yr Awdurdodau Cyfansoddol, ar sail unigol, yn ymrwymo i weithredu'r Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd yn gyson â'r Cyflwyniad (yn amodol ar unrhyw amrywiad y cytunir arno gan yr Awdurdodau Cyfansoddol) ac i wneud pob ymdrech resymol i sicrhau llwyddiant y Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd.

18.2 Ni fydd dim byd yn y Cytundeb hwn yn llyffethair i ddisgresiwn pob Awdurdod Cyfansoddol i ffurfio strategaeth fuddsoddi sy'n briodol i'w cronfa nhw o fewn y CPLlL yn unol â rheoliad 7 y Rheoliadau Buddsoddi.

*18.3* ***[Nodwch unrhyw rwymedigaethau penodol eraill yr hoffai'r Awdurdodau Cyfansoddol eu cynnwys] [Mae gennym gyfeiriad at y 'Cyflwyniad' sy'n ymwneud â chynigion pŵlio pob Awdurdod Cyfansoddol. Gallwn wneud yr ymrwymiad gofynnol hwn yn fwy penodol os oes angen?]***

**19 INDEMNIAD**

19.1 Bydd unrhyw Awdurdod Cyfansoddol sy'n torri unrhyw rai o ddarpariaethau'r Cytundeb hwn yn faterol, yn indemnio'r Awdurdodau Cyfansoddol eraill rhag ac yn erbyn yr holl atebolrwydd, costau, treuliau, iawndal a cholledion (yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i unrhyw golled uniongyrchol, anuniongyrchol neu ôl-ddilynol, colli elw, colli enw da a'r holl log, cosbau a chostau cyfreithiol (a gyfrifir ar sail indemniad llawn) a'r



DRAFFT

holl gostau a threuliau rhesymol eraill) allai godi o'r tor-amod hwnnw, heb ragfarnu yn erbyn unrhyw hawl neu gywiriad sydd gan yr Awdurdodau Cyfansoddol eraill, sut bynnag y codant.

**20 POLISÏAU A GWEITHDREFNAU**

20.1 Bydd y Cydbwyllgor Llywodraethu yn paratoi, yn cynnal ac yn cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau yn unol â chyfraith a rheoliadau perthnasol, yr awdurdod cymwys a Chanllawiau CIPFA, sydd wedi'u rhestru yn Atodlen 5 ac wedi ystyried y canllawiau perthnasol sy'n benodol i reoli arian neu ofynion cyfrifo ac archwilio mewn llywodraeth leol. Bydd y Cydbwyllgor Llywodraethu yn eu darparu i'r Awdurdodau Cyfansoddol a'r Gweithgor ac yn eu darparu i is-ddirprwyon a phartïon angenrheidiol eraill gyda'r nod o gyflawni unffurfiaeth ac effeithlonrwydd o fewn arferion gweithredu.

**21 GADAEL GWIRFODDOL (VE)**

21.1 Gall unrhyw Awdurdod Cyfansoddol (yr "**Awdurdod VE**") adael y Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd drwy roi dim llai na 18 (deunaw) mis o rybudd ysgrifenedig i'r Cyngor Lletya o'i fwriad i adael y Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd a dyddiad olaf y rhybudd hwnnw yw'r 31 Mawrth nesaf wedi hynny neu sy'n cyd-fynd â diwedd y cyfnod rhybudd 18 (deunaw) mis a bwrw bod yr Awdurdodau Cyfansoddol yn cytuno gyda'r Awdurdod VE bod cyfnod rhybudd gwahanol yn berthnasol (y "**Dyddiad Gadael**").

21.2 Gall Awdurdod VE adael y Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd a chael ei ryddhau o'i rwymedigaethau dan y Cytundeb hwn a bwrw bod yr isod yn berthnasol:

(a) ei fod wedi bodloni ei holl rwymedigaethau hyd at y Dyddiad Gadael;

(b) ei fod wedi bodloni ei gyfran o'r costau a'r treuliau hyd at y Dyddiad Gadael, ynghyd ag unrhyw gostau a threuliau angenrheidiol eraill i hwyluso'r gadael p'un a ydynt yn codi ar ôl y Dyddiad Gadael neu beidio;

(c) yn amodol ar gymal 21.5 isod, ei fod yn clirio'i holl fuddsoddiadau o'r Pŵl Buddsoddi;

(d) bod ei gynrychiolwyr ar y Cydbwyllgor Llywodraethu a'r Gweithgor yn ymddiswyddo ar y dyddiad Gadael neu cyn hynny.

21.3 Yn weithredol o [ddyddiad y rhybudd a roddir gan yr Awdurdod VE yn unol â chymal 21.1] [Dyddiad Gadael] ni fydd gan yr Aelod Pleidleisio (ac unrhyw ddirprwy a enwebir) a enwebir gan yr Awdurdod VE er dibenion cymal 3.3 unrhyw hawliau pleidleisio mwyach er dibenion y Cydbwyllgor Llywodraethu a bydd yr Awdurdod VE yn peidio â bod yn Awdurdod Cyfansoddol.21.13.3

21.4 Er mwyn osgoi amheuaeth, bydd yr Awdurdod VE yn parhau'n atebol i wneud y Cyfraniadau Pŵlio sy'n ddyledus cyn y Dyddiad Gadael.

21.5 Mae’r Awdurdodau Cyfansoddol yn cydnabod y gall fod amgylchiadau ble na allai'r Awdurdod VE glirio'i holl asedau o'r Pŵl Buddsoddi oherwydd natur buddsoddiad penodol (er enghraifft os yw buddsoddiad yn anhylif neu y byddai clirio'r ased yn golygu torri'r cytundeb) (yr "**Ased(au) a Gedwir**") a bwrw bod yr Awdurdodau Cyfansoddol a'r Awdurdod VE yn gweithio gyda'i gilydd yn ddidwyll i glirio'r Ased(au) a Gedwir cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol. Mewn amgylchiadau o'r fath, bydd yr Awdurdod VE yn parhau i wneud Cyfraniadau Pŵlio ar ôl y Dyddiad Gadael hyd nes bod yr holl Ased(au) a Gedwir wedi'u clirio o'r Pŵl Buddsoddi. Bydd y Cyfraniadau Pŵlio yn cael eu pennu gan y Cynllun Busnes a fydd yn ystyried gwerth cymharol yr Asedau a Gedwir wrth gymharu â'r asedau sy'n berthnasol i'r Awdurdodau Cyfansoddol yn y Pŵl Buddsoddi.

**22 GADAEL GORFODOL (CE)**

22.1 Gall yr Awdurdodau Cyfansoddol, wedi dilyn y weithdrefn yn Atodlen 6; Pleidleisiau ar Adael Gorfodol, orfodi unrhyw Awdurdod Cyfansoddol (yr "**Awdurdod CE**") i adael y Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd, drwy i'r Cyngor Lletya roi rhybudd ysgrifenedig i'r Awdurdod CE os yw'r Awdurdod CE yn gwneud unrhyw un o'r isod:

(a) yn torri'r Cytundeb hwn yn ddifrifol neu'n barhaus;

(b) yn methu talu unrhyw arian sy'n ddyledus ganddo i'r Cyngor Lletya o fewn [14 (pedwar diwrnod ar ddeg)] diwrnod o gais ysgrifenedig am daliad gan y [Cyngor Lletya];

(c) yn methu cyfrifo am, neu dalu dros neu ad-dalu unrhyw arian a dderbyniwyd sy'n eiddo i'r Awdurdodau Cyfansoddol o fewn [14 (rhif)] diwrnod wedi cael cais i wneud hynny drwy rybudd gan y Cyngor Lletya;

(d) yn esgeuluso, yn gwrthod neu'n hepgor yn fwriadol ei ddyletswyddau, ei rwymedigaethau a'i gyfrifoldebau dan y Cytundeb hwn; neu

(e) yn euog o ymddygiad sydd, ym marn resymol yr Awdurdodau Cyfansoddol eraill, yn debygol o gael effaith andwyol ddifrifol ar y Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd;

a bwrw bod yr Awdurdod CE yn cael [25 Diwrnod Busnes] i ddechrau, ym mhob achos, yn dilyn derbyn rhybudd ysgrifenedig i gywiro'r toriad neu'r broblem a ddisgrifir ym mharagraffau (a) i (e) a bod yr Awdurdod CE wedi methu cywiro'r toriad neu'r broblem na chymryd camau rhesymol i wneud hynny.

DRAFT

22.2 Y dyddiad gweithredol pan fydd gofyn i'r Awdurdod CE adael y Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd yw'r 31 Mawrth nesaf wedi hynny neu sy'n cyd-fynd â diwedd y cyfnod o 18 (deunaw) mis ar ôl y rhybudd a roddwyd yng nghymal 22.1 uchod a bwrw bod yr Awdurdodau Cyfansoddol eraill yn medru rhoi gwybod i'r Awdurdod CE bod cyfnod rhybudd gwahanol yn berthnasol (y "**Dyddiad Gadael Gorfodol**").

22.3 Bydd yr Awdurdod CE yn gadael y Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd o'r Dyddiad Gadael Gorfodol a, chyn y Dyddiad Gadael Gorfodol, rhaid iddo fod wedi gwneud yr isod:

(a) bodloni ei holl rwymedigaethau hyd at y Dyddiad Gadael Gorfodol;

(b) bodloni ei gyfran o'r costau a'r treuliau hyd at y Dyddiad Gadael Gorfodol, ynghyd ag unrhyw gostau a threuliau angenrheidiol eraill i hwyluso'r gadael p'un a ydynt yn codi ar ôl y Dyddiad Gadael Gorfodol neu beidio.

(c) yn amodol ar yr un amgylchiadau yng nghymal 21.5, ei fod yn clirio'i holl fuddsoddiadau o'r Pŵl Buddsoddi;

(d) bod ei gynrychiolwyr ar y Cydbwyllgor Llywodraethu a'r Gweithgor yn ymddiswyddo [ar y Dyddiad Gadael Gorfodol neu cyn hynny].

22.4 Yn weithredol o ddyddiad y rhybudd a roddir gan y Cyngor Lletya i'r Awdurdod CE yn unol â chymal 22.1 ni fydd gan yr aelod etholedig (nac unrhyw ddirprwy a enwebir) a enwebir gan yr Awdurdod CE er dibenion cymal 3.3 unrhyw hawliau pleidleisio mwyach er dibenion y Cydbwyllgor Llywodraethu a bydd yn peidio â bod yn Awdurdod Cyfansoddol.

22.5 Er mwyn osgoi amheuaeth, bydd yr Awdurdod CE yn parhau'n atebol i wneud y Cyfraniadau Pŵlio sy'n ddyledus cyn y Dyddiad Gadael Gorfodol.

22.6 Mae'r Awdurdodau Cyfansoddol yn cydnabod y gall fod amgylchiadau ble na fydd modd i'r Awdurdod CE gadw'r Ased(au) a Gedwir a bwrw bod yr Awdurdodau Cyfansoddol a'r Awdurdod CE yn gweithio gyda'i gilydd yn ddidwyll i glirio'r Ased(au) a Gedwir cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol. Mewn amgylchiadau o'r fath, bydd yr Awdurdod CE yn parhau i wneud Cyfraniadau Pŵlio ar ôl y Dyddiad Gadael Gorfodol hyd nes bod yr holl Ased(au) a Gedwir wedi'u clirio o'r Pŵl Buddsoddi. Bydd y Cyfraniadau Pŵlio yn cael eu pennu gan y Cynllun Busnes a fydd yn ystyried gwerth cymharol yr Ased(au) a Gedwir wrth gymharu â'r asedau sy'n berthnasol i'r Awdurdodau Cyfansoddol yn y Pŵl Buddsoddi.



DRAFT

**23 DARPARIAETHAU PELLACH SY'N YMWNEUD AG AWDURDOD VE NEU AWDURDOD CE**

23.1 Pan fod unrhyw Awdurdod Cyfansoddol yn peidio â bod yn Awdurdod Cyfansoddol yn sgil bod yn Awdurdod VE neu'n Awdurdod CE, bydd yr Awdurdodau Cyfansoddol sy'n parhau yn cyhoeddi rhybudd o newid yn y Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd a bydd yn rhoi rhybudd ysgrifenedig o'r newid yn y Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd i'r holl drydydd partïon sydd wedi cael unrhyw drafodion gyda'r Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd yn y 12 (deuddeg) mis diwethaf (fel y'u cynghorir gan y Cyngor Lletya a ph'un a ydynt yn gyflenwyr i'r Cyngor Lletya neu'n gleientiaid neu'n gwsmeriaid iddo).

23.2 Mae'r Awdurdod VE a'r Awdurdod CE (fel sy'n berthnasol) yn cytuno'n derfynol i weithredu a chyflawni o fewn pum diwrnod gwaith o gais am yr holl weithredoedd a dogfennau a gwneud pob cam a phopeth sy'n angenrheidiol i weithredu telerau'r Cytundeb hwn a breinio yn yr Awdurdodau Cyfansoddol sy'n parhau fuddion llawn yr asedau, yr hawliau a'r buddion i'w trosglwyddo i'r Awdurdodau Cyfansoddol sy'n parhau dan y Cytundeb hwn.

**24 AWDURDOD CYFANSODDOL NEWYDD**

24.1 Bydd yr Awdurdodau Cyfansoddol yn ystyried ceisiadau gan awdurdodau eraill sy'n gweinyddu cronfeydd o fewn y CPLlL i ymuno â'r Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd ("**Cais Aelod Newydd**").

24.2 Bydd Cais Aelod Newydd yn cael ei ystyried ar haeddiannau ei achos busnes a'r amodau y mae'r Awdurdodau Cyfansoddol yn eu hystyried yn briodol o bryd i'w gilydd.

24.3 Bydd yr Awdurdodau Cyfansoddol ond yn cymeradwyo Cais Aelod Newydd ar eu disgresiwn absoliwt eu hunain ac, yn amodol ar reoliad 8 y Rheoliadau Buddsoddi, ni fydd unrhyw rwymedigaeth dan delerau'r Cytundeb hwn i Gais Aelod Newydd gael ei dderbyn.

**25 CYFRINACHEDD**

Er dibenion y Cytundeb hwn, golyga **Gwybodaeth Gyfrinachol** unrhyw wybodaeth sydd wedi'i hardystio fel gwybodaeth eithriedig yn unol ag Adran 100I Deddf Llywodraeth Leol 1972 a'r holl wybodaeth gyfrinachol (sut bynnag y caiff ei chofnodi neu ei chadw) a ddatgelir gan Awdurdod Cyfansoddol neu ei gynrychiolwyr neu ei ymgynghorwyr i Awdurdod Cyfansoddol arall a'i gynrychiolwyr neu ei ymgynghorwyr yntau (ac eithrio pan na ellir cadw'r wybodaeth yn gyfrinachol yn ôl y gyfraith) yn ymwneud â:



DRAFT

(a) unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â 'r busnes arfaethedig, prosesau technegol, meddalwedd cyfrifiadurol neu hawliau eiddo deallusol y Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd;

(b) yr holl ddogfennau, papurau ac eiddo a allai fod wedi'u gwneud neu eu paratoi gan, neu ar gais, unrhyw Awdurdod Cyfansoddol ac sydd wedi'u nodi'n wybodaeth eithriedig neu gyfrinachol ac sy'n dod i eiddo unrhyw Awdurdod Cyfansoddol neu dan ei reolaeth yn ystod y Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd; a

(c) chyfuniadau o ddwy neu fwy o eitemau o wybodaeth o'r fath a'r holl wybodaeth sydd wedi dod, neu a allai fod wedi dod neu ei gael o unrhyw wybodaeth o'r fath sydd yn dod i eiddo unrhyw Awdurdod Cyfansoddol neu sydd dan ei reolaeth unrhyw bryd yn ystod y Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd ac y mae'r Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd yn ei hystyried neu y gellid yn rhesymol ddisgwyl iddo ei hystyried yn gyfrinachol, p'un a yw'r wybodaeth, yn ei hun, yn gyfrinachol, wedi'i nodi'n "gyfrinachol" neu wedi'i leihau i ffurf bendant, neu beidio.

25.2 Ac eithrio'r hyn sydd wedi'i ddarparu fel arall yn y cytundeb hwn naill ai'n benodol neu drwy ymhlygiad, ni fydd yr un Awdurdod Cyfansoddol yn datgelu unrhyw Wybodaeth Gyfrinachol gan yr Awdurdodau Cyfansoddol eraill i unrhyw berson, unrhyw bryd, a bydd yn gwneud pob ymdrech resymol i gadw holl Wybodaeth Gyfrinachol yr Awdurdodau Cyfansoddol eraill yn gyfrinachol (p'un a yw wedi'i nodi felly ai peidio) ac eithrio fel y caniateir gan gymal 25.3.25.3

25.3 Gall pob Awdurdod Cyfansoddol ddatgelu Gwybodaeth Gyfrinachol yr Awdurdod Cyfansoddol arall:

(a) i'w gynrychiolwyr neu ei ymgynghorwyr sydd angen gwybod am wybodaeth o'r fath er dibenion ymgymryd â rhwymedigaethau'r Awdurdod Cyfansoddol dan y Cytundeb hwn neu'n gysylltiedig ag ef. Bydd pob Awdurdod Cyfansoddol yn sicrhau bod ei gynrychiolwyr a'i ymgynghorwyr y mae wedi datgelu Gwybodaeth Gyfrinachol yr Awdurdod Cyfansoddol arall iddynt yn cydymffurfio â'r cymal hwn.

(b) fel sy'n ofynnol dan y gyfraith o bosib, llys o awdurdod cymwys neu unrhyw awdurdod llywodraethol neu reolaethol yn cynnwys ombwdsmon.

**26 PENSIYNAU**

26.1 Mae'r Awdurdodau Cyfansoddol yn gyflogwyr ar yr atodlen yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Bydd y gweithwyr a gyflogir gan y Cyngor Lletya yn y Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd yn aelodau gweithredol o'r CPLlL, o'r Dyddiad Cychwyn ymlaen

neu ddyddiad diweddarach cychwyn cyflogaeth yn amodol ar Reoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013.

**27 RHYDDID GWYBODAETH**

27.1 Mae pob Awdurdod Cyfansoddol yn cydnabod bod yr Awdurdodau Cyfansoddol eraill yn ddarostyngedig i ofynion Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 ("**FoIA**") a bydd pob Awdurdod Cyfansoddol pan fo hynny'n rhesymol yn cynorthwyo a chydweithredu â'r Awdurdodau Cyfansoddol eraill [(ar eu traul eu hunain)] i alluogi'r Awdurdodau Cyfansoddol eraill gydymffurfio â'r rhwymedigaethau hyn o ran rhyddhau gwybodaeth.

27.2 Pan fo Awdurdod Cyfansoddol yn derbyn cais am wybodaeth dan y FoIA ynghylch gwybodaeth mae'n ei dal ar ran unrhyw un o'r Awdurdodau Cyfansoddol eraill mewn perthynas â'r Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd, bydd yn:

(a) trosglwyddo'r cais am wybodaeth i'r Awdurdodau Cyfansoddol eraill cyn gynted ag sy'n ymarferol bosib ar ôl ei dderbyn, a beth bynnag o fewn dau (2) Ddiwrnod Busnes o dderbyn cais am wybodaeth;

(b) rhoi copi i'r Awdurdodau Cyfansoddol eraill o'r holl wybodaeth sydd yn ei feddiant, neu y mae ganddo rym drosti, yn y ffurf y mae'r Awdurdodau Cyfansoddol yn gofyn yn rhesymol amdani, o fewn deg (10) Diwrnod Busnes (neu gyfnod hirach os yw'r Awdurdodau Cyfansoddol yn nodi hynny) o pan fo'r Awdurdod Cyfansoddol yn gwneud y cais am y wybodaeth; ac

(c) yn rhoi pob cymorth angenrheidiol y mae'r Awdurdodau Cyfansoddol eraill wedi gofyn yn rhesymol amdano i alluogi i'r Awdurdod Cyfansoddol ymateb i gais am wybodaeth o fewn yr amserlen a ganiateir yn y FoIA.

27.3 Pan fydd Awdurdod Cyfansoddol yn derbyn cais am wybodaeth dan y FoIA sy'n berthnasol i'r Cytundeb hwn neu i'r Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd, bydd yn rhoi gwybod i'r Cyngor Lletya am y cais am wybodaeth cyn gynted ag sy'n ymarferol bosib ar ôl ei dderbyn, a beth bynnag o leiaf bum (5) Diwrnod Busnes cyn rhyddhau'r wybodaeth, a bydd yr Awdurdod Cyfansoddol perthnasol yn gwneud pob ymdrech resymol i ymgynghori â'r Awdurdodau Cyfansoddol eraill cyn ei rhyddhau, ac yn ystyried yr holl sylwadau a wnaed gan yr Awdurdodau Cyfansoddol eraill mewn perthynas â'r penderfyniad i naill ai ryddhau'r wybodaeth y gofynnir amdani neu beidio.

27.4 Bydd yr Awdurdodau Cyfansoddol yn gyfrifol am benderfynu yn ôl eu disgresiwn absoliwt p'un a yw gwybodaeth y ceisiwyd amdani dan y FoIA:-

(a) yn eithriedig rhag ei rhyddhau dan y FoIA;

(b) i gael ei rhyddhau mewn ymateb i gais am wybodaeth.



DRAFT

27.5 Mae pob Awdurdod Cyfansoddol yn cydnabod y bydd rhaid i'r Awdurdodau Cyfansoddol eraill dan y FoIA, o bosib, ryddhau gwybodaeth:

(a) heb ymgynghori â'r Awdurdodau Cyfansoddol eraill lle nad oedd yn ymarferol i gael ymgynghoriad o'r fath; neu

(b) yn dilyn ymgynghori â'r Awdurdodau Cyfansoddol eraill ac ar ôl rhoi llwyr ystyriaeth i'w barn hwy.

**28 DIOGELU DATA**

28.1 Bydd yr Awdurdodau Cyfansoddol yn cydymffurfio â Deddf Diogelu Data 1998.

**29 DIDDYMU**

29.1 Ni fydd yr un Awdurdod Cyfansoddol yn medru diddymu'r Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd yn unochrog drwy rybudd.

29.2 Bydd y Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd a'r Cytundeb hwn yn cael eu terfynu yn dilyn cytundeb unfrydol yr holl Awdurdodau Cyfansoddol.

29.3 Bydd pob Awdurdod Cyfansoddol yn gweithredu'n ddidwyll wrth ddirwyn y Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd i ben yn dilyn penderfyniad unfrydol i'w diddymu cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol wedi hynny, a bydd yr holl gostau a threuliau'n cael eu hysgwyddo'n gyfartal gan yr Awdurdodau Cyfansoddol.

**30 Y CYTUNDEB CYFLAWN**

30.1 Y Cytundeb hwn yw'r cytundeb cyflawn rhwng y partïon ac mae'n disodli ac yn dileu bob cytundeb, addewid, sicrwydd, gwarant, sylw a dealltwriaeth blaenorol rhyngddynt, p'un a oedd hynny'n ysgrifenedig neu'n llafar, yn ymwneud â'i bwnc.

30.2 Mae pob un o'r Awdurdodau Cyfansoddol yn cydnabod wrth ymrwymo i'r Cytundeb hwn nad ydynt yn dibynnu ar ddatganiad, cynrychiolaeth, sicrwydd neu warant (p'un a wnaed yn esgeulus neu'n ddieuog) ac na fydd modd iddynt eu cywiro, nad yw wedi'i nodi yn y cytundeb hwn.

30.3 Mae pob Awdurdod Cyfansoddol yn cytuno na fydd ganddo unrhyw hawl am gamgyflead dieuog neu esgeulus (neu gamddatganiad esgeulus) yn seiliedig ar unrhyw ddatganiad yn y cytundeb hwn.

30.4 Ni fydd unrhyw beth yn y cymal hwn yn eithrio nac yn cyfyngu ar unrhyw atebolrwydd am dwyll.

**31 HYSBYSIADAU**

31.1 Bydd unrhyw rybudd, hawliad neu ohebiaeth mewn cysylltiad â'r Cytundeb hwn yn rhai ysgrifenedig a gellir eu danfon â llaw, drwy bost neu neges ffacs gyda chyfeiriad y derbynnydd fel y nodwyd yn Atodlen 1 neu unrhyw gyfeiriad arall y rhoddwyd gwybod amdano i'r parti arall yn ysgrifenedig yn unol â'r cymal hwn fel cyfeiriad y gellir anfon rhybuddion, anfonebau a dogfennau eraill iddo. Tybir bod yr hysbysiad, yr hawliad neu'r ohebiaeth wedi'u cyflwyno'n briodol os:

(a) ydynt yn cael eu danfon yn bersonol yn ystod oriau busnes, ar yr amser y mae'n cael ei ddanfon;

(b) ydynt yn cael eu danfon drwy'r post, 48 awr ar ôl iddynt gael eu postio (ac eithrio dyddiau Sadwrn, Sul a gwyliau cyhoeddus);

(c) ydynt yn cael eu danfon drwy neges ffacs yn ystod oriau busnes, ar adeg ei drosglwyddo, cyn belled ag yr anfonir copi'n cadarnhau iddo gael ei anfon drwy bost dosbarth cyntaf at y parti arall o fewn 24 awr ar ôl cael ei drosglwyddo; neu

(d) os ydynt yn cael eu danfon drwy e-bost neu ffurf electronig arall o gyfathrebu yn ystod oriau busnes, ar adeg ei drosglwyddo, cyn belled ag yr anfonir copi'n cadarnhau iddo gael ei anfon drwy bost dosbarth cyntaf at y parti arall o fewn 24 awr ar ôl cael ei drosglwyddo.

31.2 Os yw rhybudd yn cael ei gyflwyno'n bersonol, drwy neges ffacs neu e-bost y tu allan i oriau busnes, pennir eu bod wedi'u cyflwyno ar y diwrnod busnes nesaf.

**32 CONTRACTAU (HAWLIAU TRYDYDD PARTI)**

32.1 Nid yw'n fwriad gan yr Awdurdodau Cyfansoddol fel partïon i'r Cytundeb hwn i unrhyw un o'i delerau allu cael eu gorfodi dan Ddeddf Contractau (Hawliau Trydydd Partïon) 1999 gan unrhyw unigolyn nad yw'n barti i'r Cytundeb hwn.

**33 DATGYSYLLTU**

33.1 Os yw unrhyw ddarpariaeth neu ran-ddarpariaeth o'r Cytundeb hwn yn dod yn annilys, yn anghyfreithlon neu'n anorfodadwy, caiff ei addasu i'r graddau lleiaf sydd angen i'w wneud yn ddilys, yn gyfreithlon ac yn orfodadwy. Os nas yw addasiadau o'r fath yn bosib, pennir bod y ddarpariaeth neu'r rhan-ddarpariaeth berthnasol wedi'i dileu. Ni fydd addasu neu ddileu darpariaeth neu ran-ddarpariaeth dan y cymal hwn yn effeithiol ar ddilysrwydd na'r gallu i orfodi gweddill y Cytundeb hwn.

33.2 Os yw un Awdurdod Cyfansoddol yn rhoi rhybudd i'r Awdurdodau Cyfansoddol eraill o'r posibilrwydd y gall unrhyw ddarpariaeth neu ran-ddarpariaeth o'r Cytundeb hwn fod yn



DRAFT

annilys, yn anghyfreithlon neu'n anorfodadwy, bydd yr Awdurdodau Cyfansoddol yn negydu'n ddidwyll i ddiwygio darpariaeth o'r fath fel y bydd, wedi'i ddiwygio, yn gyfreithlon, yn ddilys ac yn orfodadwy ac, i'r graddau mwyaf posib, yn cyflawni canlyniad bwriedig y ddarpariaeth wreiddiol.

**34 NEWIDIADAU**

34.1 Ni fydd unrhyw newid i'r Cytundeb hwn yn rhwymo'r un parti oni bai ei fod yn ysgrifenedig ac wedi'i lofnodi gan gynrychiolydd awdurdodedig pob Awdurdod Cyfansoddol, ac y datganwyd ei fod er diben newid o'r fath.

**35 CYFRAITH LYWODRAETHU AC AWDURDODAETH**

35.1 Bydd y cytundeb hwn ac unrhyw anghydfod neu hawliad sy'n codi ohono neu mewn cysylltiad ag o, ei bwnc neu ei ffurfiad (gan gynnwys anghydfod neu hawliad ynghylch materion nad ydynt wedi'u cynnwys mewn contract) yn cael eu llywodraethu a'u dehongli yn unol â chyfraith Cymru a Lloegr fel y mae'n berthnasol yng Nghymru.

35.2 Mae bob parti'n cytuno'n derfynol mai llysoedd Cymru a Lloegr yn unig fydd â'r awdurdodaeth i setlo unrhyw anghydfod neu hawliad sy'n deillio o'r cytundeb hwn, neu sy'n gysylltiedig ag o, ei bwnc neu ei ffurfiad (gan gynnwys anghydfod neu hawliad ynghylch materion nad ydynt wedi'u cynnwys mewn contract).

**36 DATRYS ANGHYDFOD MEWN FFORDD AMGEN**

36.1 Mae'r Awdurdodau Cyfansoddol yn cytuno:

(a) i ddilyn ymagwedd bositif tuag at ddatrys anghydfod sy'n ceisio canfod consensws heb orfod cychwyn camau datrys anghydfod ffurfiol a/neu gamau cyfreithiol, a chynnal perthynas weithio gref rhwng yr Awdurdodau Cyfansoddol;

(b) y bydd unrhyw anghydfod rhwng yr Awdurdodau Cyfansoddol yng nghyswllt materion yr ymdrinnir â hwy gan y Cytundeb hwn, yn cael eu cyfeirio yn y lle cyntaf at Brif Weithredwyr yr Awdurdodau Cyfansoddol a all, ar eu disgresiwn eu hunain yn unig, ddirprwyo'r anghydfod i'r uwch swyddog priodol o fewn 10 Diwrnod Busnes o dderbyn rhybudd ysgrifenedig am yr anghydfod;

(c) os nad yw'r Prif Weithredwyr neu eu dirprwyon yn medru datrys yr anghydfod o fewn 5 Diwrnod Busnes o gyfarfod neu os oes anghytundeb ynghylch mater am Aelod, yna gall unrhyw Aelod gyfeirio'r mater i broses gymodi a hwylusir gan [Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru] neu i berson cymwys ac annibynnol addas, fel yr argymhellir gan y Prif Weithredwyr a bod yr Awdurdodau Cyfansoddol yn cytuno;

DRAFT

(d) os cytunir bod unrhyw anghydfod o natur gyfreithiol neu dechnegol, gall y partïon i'r anghydfod (ond nid oes raid iddynt) gymryd barn arbenigwr priodol, ar y cyd, yn cynnwys barn uwch gwnsler cyfreithiol ble bo hynny'n briodol. Rhaid i farn arbenigol o'r fath gael ei chyfarwyddo drwy'r Gweithgor a hynny o fewn [ ] diwrnod o gyfeiriad i Brif Weithredwyr dan is-gymal (b) ac yn dilyn hynny dylai'r farn gael ei chyflwyno o fewn [ ] diwrnod pellach. Os, ar ôl mynd drwy'r holl ddulliau eraill o ddatrys anghydfod, y mae un o'r Awdurdodau Cyfansoddol yn cychwyn camau cyfreithiol, bydd hyn yn ddarostyngedig i awdurdodaeth Llysoedd Cymru a Lloegr yn unig.

Ysgwyddir yr holl gostau'n gyfartal rhwng yr Awdurdodau Cyfansoddol sy'n rhan o'r anghydfod oni chytunir yn wahanol gan y Cydbwyllgor Llywodraethu neu y gorchmynnir gan y Llysoedd.

***[Ystyriwch beth fyddai'n digwydd os yw anghydfod nid yn unig yn un cytundebol ond bod swyddog a151 neu swyddog monitro yn ystyried gweithrediadau i fod yn anawdurdodedig neu'n gamweinyddu. A oes gennych farn ar yr agwedd hon?]***

[Cyflawnwyd y ddogfen hon fel gweithred ac fe gaiff ei chyflwyno a daw i rym ar y dyddiad a nodir ar ddechrau'r ddogfen.]

DRAFFT

**Atodlen 1**

Manylion Cyswllt

Cyngor Sir Gâr
[Enw a Manylion Cyswllt]

Cyngor Dinas a Sir Abertawe
[Enw a Manylion Cyswllt]

Cyngor Dinas Caerdydd
[Enw a Manylion Cyswllt]

Cyngor Sir y Fflint
[Enw a Manylion Cyswllt]

Cyngor Gwynedd
[Enw a Manylion Cyswllt]

Cyngor Sir Powys
[Enw a Manylion Cyswllt]

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
[Enw a Manylion Cyswllt]

Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Torfaen
[Enw a Manylion Cyswllt]

DRAFFT

**Atodlen 2**

Materion a Gedwir i'r Awdurdodau Cyfansoddol

1 Cymeradwyo gwariant ychwanegol nas cynhwysir o fewn y Cynllun Busnes sy'n fwy na [£ ] mewn unrhyw Flwyddyn Ariannol.

2 Ffurfio neu adolygu strategaeth fuddsoddi pob Awdurdod Cyfansoddol er dibenion rheoliad 7 y Rheoliadau Buddsoddi.

3 Derbyn awdurdod gweinyddu newydd o fewn y CPLIL i'r Pŵl Buddsoddi

4 Newid y Cytundeb hwn

5 Terfynu'r Cytundeb hwn

6 Newid materol i natur Contract y Gweithredwr

7 Cymeradwyo'r Cynllun Busnes

DRAFFT

## Atodlen 3

Materion y Cydbwyllgor Llywodraethu

Yn amodol ar delerau'r Cytundeb hwn, bydd y Cydbwyllgor Llywodraethu yn ymgymryd â'r materion hynny nad ydynt yn Faterion a Gedwir i'r Awdurdodau Cyfansoddol a fydd yn cynnwys (heb ragfarnu cyffredinolrwydd yr uchod);

1 Cael Gweithredwr newydd

2 Penodi a disodli darparwyr gwasanaeth, ymgynghorwyr a gwarcheidwaid (ac eithrio'r Gweithredwr)

3 Cymeradwyo creu cerbydau pŵlio newydd ar gyfer y Gweithredwr

4 Cymeradwyo creu is-gronfeydd newydd a ddarperir gan y Gweithredwr

5 Cymeradwyo terfynu is-gronfeydd a ddarperir gan y Gweithredwr

6 Cymeradwyo materion sy'n ymwneud â throsglwyddo asedau

7 Cymeradwyo newidiadau i Gontract y Gweithredwr nad ydynt yn newidiadau materol i natur Contract y Gweithredwr

8 Ymdrin â rheolaeth barhaus a chyffredinol angenrheidiol y Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd

9 Dirprwyo tasgau i'r Gweithgor, yn cynnwys paratoi adroddiadau a dogfennau drafft a chynnal ymgynghoriadau.

10 Cyswllt gyda chynrychiolwyr aelodau'r cynllun

DRAFFT

## Atodlen 4

Cydbwyllgor Llywodraeth (CBLl) - Cylch Gorchwyl

Yn ystod y cyfnod Gweithredol, cyfrifoldebau'r CBLl yw:

- Gwneud argymhellion i'r Awdurdodau Cyfansoddol ar derfynu Contract y Gweithredwr cyn gorffen contract tymor penodol, os ystyrir bod perfformiad y Gweithredwr yn annerbyniol;

- Sicrhau fod yna amrediad priodol o is-gronfeydd ar gael er mwyn caniatáu i'r Awdurdodau Cyfansoddol fodloni eu nodau buddsoddi strategol. Yn dilyn sylwadau gan unrhyw rai, rhai neu'r holl Awdurdodau Cyfansoddol, gall y CBLl gyfarwyddo'r Gweithredwr i sefydlu is-gronfa mewn dosbarth ased penodol. Rhaid i'r CBLl fod yn ystyriol drwy'r amser o'r angen i gydbwyso'r gofyn i ddarparu is-gronfa benodol gyda manteision dal asedau wedi'u hagregu.

- Monitro perfformiad y Gweithredwr yn erbyn y gyfres o ddangosyddion perfformiad allweddol y cytunwyd arni;

- Adrodd ar berfformiad y Pŵl Buddsoddi, ei gostau a gweithgareddau eraill, ond nid yn gyfyngedig i, yr Awdurdodau Cyfansoddol, llywodraeth, Bwrdd Ymgynghorol y Cynllun a'r cyhoedd yn gyffredinol;

- O bryd i'w gilydd, adolygu pa mor briodol yw'r strwythurau presennol a gwneud argymhellion i'r Awdurdodau Cyfansoddol ynghylch haeddiannau unigol caffael gwasanaethau Gweithredwr drwy drydydd parti neu drwy berchnogaeth gan yr Awdurdodau Cyfansoddol o'r Gweithredwr;

- Cysylltu gyda'r Gweithredwr, yn y meysydd hynny y mae'r Gweithredwr yn ceisio dewisiadau a barn y CBLl, ar benodi cyflenwyr, er enghraifft dewisiadau rheolwyr neu benodi ymddiriedolwyr;

- Cysylltu â'r Awdurdodau Cyfansoddol ar amrediad priodol yr is-gronfeydd i'w darparu yn y Pŵl Buddsoddi;

- O bryd i'w gilydd, adolygu polisïau yn nhermau materion moesegol, cymdeithasol a llywodraethu a hawliau pleidleisio a ble bo hynny'n briodol, gwneud argymhellion i'r Awdurdodau Cyfansoddol ynghylch unrhyw newidiadau y pennir eu bod yn angenrheidiol;

- Gweithredu unrhyw brosesau neu bolisïau sydd wedi'u neilltuo iddo o fewn y Cytundeb Rhwng-Awdurdodau (IAA) a wneir rhwng yr Awdurdodau Cyfansoddol. Er enghraifft,

DRAFFT

unrhyw Awdurdod Cyfansoddol yn gadael y Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd a chlustnodi costau rhwng yr Awdurdodau Cyfansoddol.

- Argymell cynllun lefel uchel ar gyfer trosglwyddo cychwynnol yr asedau i'r pŵl a throsglwyddiadau asedau pellach os bydd, er enghraifft, is-gronfeydd newydd yn cael eu creu neu os bydd newidiadau ymysg rheolwyr o fewn yr is-gronfeydd.

DRAFFT

# Atodlen 5

Polisïau a Gweithdrefnau

- Hyfforddiant a Chymhwysedd
- Cwynion
- Toriadau a Chamgymeriadau
- Buddiannau sy’n Gwrthdaro
- Cynllunio Parhad Busnes
- DSAR/FOI

DRAFFT

## Atodlen 6

Gweithdrefnau'r Cydbwyllgor Llywodraethu

### 1 AELODAETH

1.1 Bydd Aelodaeth y Cydbwyllgor Llywodraethu yn cynnwys un aelod etholedig neu ei ddirprwy o bob Awdurdod Cyfansoddol.

1.2 Ni chaniateir eilyddion ac eithrio dirprwyon.

1.3 Ni fydd y Cydbwyllgor Llywodraethu yn cynnwys unrhyw aelodau heb bleidlais neu aelodau cyfetholedig.

### 2 CYFARFODYDD

2.1 Cynhelir cyfarfodydd o leiaf bedair gwaith y flwyddyn. Cytunir ar amserlen arfaethedig y cyfarfodydd cyn cychwyn y flwyddyn ddilynol a dim hwyrach na chyfarfod olaf y flwyddyn gyfredol.

2.2 Gellir galw cyfarfod o'r Cydbwyllgor Llywodraethu gan [unrhyw rai o'r Aelodau][cadeirydd y Cydbwyllgor Llywodraethu].

2.3 Gellir cynnal cyfarfodydd ar amser ac mewn lleoliad yr ystyria Cadeirydd y Cydbwyllgor Llywodraethu yn addas.

2.4 Rhaid i aelodau ddatgan unrhyw fuddiannau sy'n gwrthdaro yng nghyswllt unrhyw fusnes a gynhelir yn y cyfarfod a fyddai'n debygol o gael ei ystyried i fod yn rhagfarnu gweithrediad rôl rhywun fel aelod o'r cyfarfod.

2.5 Mae'r Cadeirydd yn gyfrifol am redeg y cyfarfodydd. Bydd y Cadeirydd yn gwahodd yr Aelodau i fynegi dymuniad i siarad yn eu tro. Bydd yr holl drafodaethau a'r dadleuon yn cael eu cynnal drwy'r Gadair a gall y Cadeirydd symud trafodaeth i bleidlais unrhyw bryd os yw'n ystyried bod pob Aelod wedi cael cyfle teg i siarad.

2.6 Cedwir cofnodion o'r holl gyfarfodydd. Bydd y Cadeirydd yn llofnodi cofnodion y trafodaethau yn y cyfarfod nesaf addas.

2.7 Rhybudd o gyfarfodydd

a) Bydd rhybudd o gyfarfod, sy'n nodi lleoliad, dyddiad ac amser y cyfarfod ac yn cynnwys datganiad o'r materion i'w trafod yn y cyfarfod, yn cael ei anfon at holl Aelodau'r Cydbwyllgor Llywodraethu gan y swyddog llywodraethu priodol o'r Cyngor Lletya;



DRAFFT

b) Rhoddir rhybudd am bob cyfarfod, copïau o'r rhaglen ac unrhyw adroddiadau i'w cyflwyno yn y cyfarfod i'r holl Awdurdodau Cyfansoddol gan y Cyngor Lletya ddim hwyrach na [14] diwrnod clir cyn dyddiad y cyfarfod. Bydd yr Awdurdodau Cyfansoddol yn sicrhau y rhoddir lleiafswm o bum diwrnod clir o rybudd o'r holl gyfarfodydd yn unol â'u trefnau arferol o hysbysu am gyfarfodydd y Cyngor a bydd yr holl bapurau ar gael ym mhrif swyddfeydd pob un o'r Awdurdodau Cyfansoddol i'w harchwilio am y pum diwrnod hynny oni bai eu bod wedi'u nodi'n gyfrinachol; yn yr achos hwnnw dim ond rhaglenni ac eitemau nad ydynt wedi'u nodi'n gyfrinachol fydd ar gael.

c) Os oes gofyn cynnal cyfarfod gyda llai na 5 diwrnod o rybudd, rhaid i'r Cadeirydd gytuno fod ei angen ar frys, cymeradwyo'r cyfnod rhybudd byrrach a chaniatáu i gymaint o rybudd â phosib gael ei roi. Dylid rhoi rhybudd yn yr un modd, a dylai'r dogfennau fod ar gael i'r holl Awdurdodau Cyfansoddol am gymaint o ddyddiau ag sy'n ymarferol cyn y cyfarfod.

2.8 Eithrio'r cyhoedd a’r wasg

a) Os yw unrhyw eitem i'w thrafod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig, bydd y Cadeirydd yn cynnig eithrio'r cyhoedd a'r wasg o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth a'r bleidlais ar yr eitem honno. Nid oes angen i gynigion i eithrio'r wasg a'r cyhoedd gael eu heilio ac fe'u pennir drwy bleidlais fwyafrif syml gan yr Aelodau sy'n bresennol.

b) Gellir eithrio unrhyw un o gyfarfod neu ei orfodi i adael cyfarfod os, ym marn y Cadeirydd, ei fod yn aflonyddu ar rediad y cyfarfod ac nad yw wedi peidio â gwneud hynny yn dilyn cais; neu os yw rhywun mor aflonyddgar y byddai ei ymddygiad, pe bai'n cael aros, yn atal y cyfarfod rhag bwrw ymlaen mewn modd teg a derbyniol.

2.9 Gall y Cydbwyllgor Llywodraethu, drwy'r Gadair, wahodd unrhyw un i siarad mewn cyfarfod.

2.10 Gellir gofyn cwestiynau i swyddogion o'r Gweithgor sy'n cyflwyno adroddiadau i'r Cydbwyllgor Llywodraethu yn dilyn cyflwyniad o'r fath.

2.11 Mae gan gynrychiolwyr aelodau'r cynllun yr hawl i fynychu'r holl gyfarfodydd. Bydd y Cadeirydd yn rhoi cyfle i gynrychiolwyr aelodau'r cynllun siarad mewn unrhyw gyfarfod os ydynt wedi nodi eu bod yn dymuno gwneud hynny ond gall gyfyngu am ba mor hir y gall y cynrychiolwyr siarad.

2.12 Mae gan swyddogion y Gweithgor, Swyddogion Adran 151 a Swyddogion Monitro unrhyw Awdurdod Cyfansoddol a chynrychiolwyr aelodau'r Cynllun hawl i fynychu'r holl

DRAFT

gyfarfodydd yn cynnwys unrhyw ran o unrhyw gyfarfod sydd wedi'i gau i'r cyhoedd a'r wasg.

**3 CWORWM**

3.1 [Pum] Aelod fydd y cworwm.

3.2 Os nad oes cworwm yn bresennol o fewn 15 munud i ddechrau'r cyfarfod, ni chynhelir y cyfarfod a gofynnir i'r Cyngor Lletya ail-drefnu a rhoi rhybudd am gyfarfod newydd.

3.3 Os nad oes cworwm yn bresennol yn ystod unrhyw gyfarfod, bydd y cyfarfod yn cael ei ohirio ar unwaith. Os nad yw'r Cadeirydd wedi gallu canfod o fewn 15 munud bod cworwm wedi'i adfer, ystyrir y busnes sy'n weddill ar ddyddiad ac amser arall i'w drefnu gan y Cadeirydd.

**4 CADEIRYDD AC IS-GADEIRYDD**

4.1 Bydd y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd yn Aelodau a gaiff eu penodi drwy bleidlais.

4.2 Yn absenoldeb y Cadeirydd, bydd gan yr Is-gadeirydd hawl i weithredu holl swyddogaethau'r Cadeirydd.

4.3 Bydd penderfyniad Cadeirydd y cyfarfod ar yr holl bwyntiau o drefn a bydd dehongliad y Cadeirydd o unrhyw reol yn yr atodlen hon yn derfynol ac ni ellir cynnal unrhyw ddadl wedi hynny. Bydd gan y Cadeirydd hawl i dderbyn cyngor gan swyddog llywodraethu wrth ddehongli unrhyw reol neu wrthwynebiad ar drefn.

4.4 Gall swyddog llywodraethu gynorthwyo'r Cadeirydd yn ystod cyfarfodydd ar faterion trefniadaethol ynghyd ag unrhyw swyddogion gweinyddol y mae'r Cadeirydd yn eu hystyried yn briodol. Bydd gan y swyddogion llywodraethu ac ysgrifenyddol hyn yr hawl i aros yn y cyfarfod os caiff y cyhoedd a'r wasg eu heithrio.

**5 RHAGLEN**

5.1 Bydd rhaglen yn cael ei chynhyrchu cyn bob cyfarfod gan y Cyngor Lletya yn dilyn ymgynghoriad gyda'r Cadeirydd.

5.2 Bydd rhaglen pob cyfarfod yn cynnwys, fel y brif eitem gyntaf, cymeradwyo cofnodion y cyfarfod blaenorol. Bydd y Cadeirydd yn cynnig y gellir llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol fel cofnod cywir. Cywirdeb y cofnodion yw'r unig ran ohonynt y gellir ei thrafod.

5.3 Gall y Gweithgor ofyn i'r Cadeirydd gynnwys unrhyw fater ar y rhaglen yr ystyriant y dylid ei drafod gan y Cydbwyllgor Llywodraethu.

DRAFFT

5.4 Y Cadeirydd fydd yn penderfynu p'un a yw am ganiatáu trafodaeth ar unrhyw fater arall nad yw ar raglen cyfarfod yn y cyfarfod hwnnw.

**6 CYNIGION**

6.1 Gall unrhyw Aelod wneud cynnig. Rhaid i bob cynnig gael ei eilio. Bydd cynigon a wrthwynebir yn cael eu rhoi i bleidlais yn unol â darpariaethau pleidleisio'r atodlen hon.

6.2 Gall aelod godi mater o drefn ar unrhyw adeg. Bydd y Cadeirydd yn gwrando arnynt ar unwaith. Gall pwynt o drefn gyfeirio at honiad o dorri darpariaethau'r Atodlen hon, neu'r gyfraith neu awdurdod cymwys arall, yn unig. Rhaid i'r Aelod nodi pa ddarpariaeth neu gyfraith neu reoliad ac ym mha ffordd y creda y mae wedi'i d/thorri. Bydd penderfyniad y Cadeirydd ar y mater yn derfynol. Gall y Cadeirydd dderbyn cyngor ar y pwynt o drefn gan y swyddog priodol.

**7 PLEIDLEISIO**

7.1 Gall y Cadeirydd ofyn am gonsensws ble bo hynny'n bosib; fodd bynnag, os bydd angen pleidlais, bydd darpariaethau'r adran hon yn berthnasol.

7.2 Bydd gan bob aelod sy'n bresennol un bleidlais ac fe bleidleisir drwy godi llaw. Os digwydd i'r pleidleisiau fod yn gyfartal, bydd gan y Cadeirydd bleidlais fwrw.

7.3 Pennir bod rhai penderfyniadau penodol yn Benderfyniadau o Bwys.

a) [Diffiniad a sut pennir bod penderfyniad yn benderfyniad o bwys]

b) Penderfyniadau o Bwys [dull pleidleisio].

7.4 Gwneir unrhyw benderfyniad nad yw'n benderfyniad o bwys drwy fwyafrif syml.

7.5 Os cymerir pleidlais, cofnodir safbwynt pleidleisio ac unrhyw ymatal gan aelodau yn y cofnodion.

7.6 Pleidleisiau ar Adael Gorfodol (CE)

a) [Diffiniad a sut pennir bod penderfyniad yn benderfyniad o bwys]

b) Gadael Gorfodol [dull pleidleisio]. [***Ystyriwch a oes angen y lefel hon o wneud penderfyniadau h.y. gwahaniaeth rhwng Penderfyniadau o Bwys a Phenderfyniadau Llai Pwysig. Os na, gallwn ddileu 7.3 a diwygio 7.4. Mae'r geiriad presennol hwn wedi dod o'r Cylch Gorchwyl***.]

**8 IS-BWYLLGORAU A GWEITHGORAU**

8.1 Bydd y Cydbwyllgor Llywodraethu yn ffurfio unrhyw is-bwyllgorau a gweithgorau y mae'n eu hystyried yn fanteisiol i ymgymryd â'i rôl. Ar adeg ffurfio is-bwyllgorau neu

weithgorau, bydd y Cydbwyllgor Llywodraethu yn gosod cylch gorchwyl yr is-bwyllgorau neu'r gweithgorau, yr hyn y mae gofyn i'r is-bwyllgorau neu'r gweithgorau eu darparu ac amserlen gwneud hynny.

8.2 Bydd gan is-bwyllgorau a gweithgorau hawl i wneud cais am fewnbwn a chefnogaeth gan y Gweithgor yn yr un modd â'r Cydbwyllgor Llywodraethu.

8.3 Bydd gan is-bwyllgor leiafswm o [ ] o Aelodau

8.4 Bydd gan weithgor leiafswm o [ ] o Aelodau

8.5 Bydd pob is-bwyllgor a gweithgor yn penodi cadeirydd ar gyfer yr is-bwyllgor neu'r gweithgor hwnnw, a fydd yn un o Aelodau'r is-bwyllgor neu'r gweithgor.

8.6 Gall gweithgorau wahodd unrhyw un nad yw'n Aelod i ymuno â'r grŵp er mwyn cynorthwyo wrth ymgymryd â'i rôl.

8.7 Bydd Cadeiryddion is-bwyllgorau a gweithgorau yn adrodd i'r Cydbwyllgor Llywodraethu ym mhob cyfarfod o'r pwyllgor hwnnw ar gynnydd y materion o fewn eu cylch gwaith.

8.8 Gellir dod ag is-bwyllgorau a gweithgorau i ben unrhyw bryd ar bleidlais y Cydbwyllgor Llywodraethu.

## 9 CADARNHAU PENDERFYNIADAU

9.1 Proses ble anfonir penderfyniadau yn ôl i'r cynghorau - unrhyw gyfnod o fwlch cyn gweithredu i ganiatáu i gynghorau wrthwynebu?

DRAFFT

# Atodlen 7

## TUPE

### 1 DIFFINIADAU

1.1 Mae’r diffiniadau a ganlyn yn berthnasol yn yr Atodlen hon:

Golyga **Deddfwriaeth Diogelu Data** Ddeddf Diogelu Data 1998, Cyfarwyddeb Diogelu Data (95/46/EC), Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000, *Telecommunications (Lawful Business Practice) (Interception of Communications) Regulations 2000*, Cyfarwyddeb Diogelu Data Cyfathrebiadau Electronig (2002/58/EC), *Privacy and Electronic Communications (EC Directive) Regulations 2003* a'r holl gyfreithiau a rheoliadau perthnasol sy'n ymwneud â phrosesu data personol a phreifatrwydd, yn cynnwys, ble bo hynny'n berthnasol, y canllawiau a'r codau ymarfer a gyhoeddir gan y Comisiynydd Gwybodaeth.

Golyga **Gweithwyr sy’n Trosglwyddo Disgwyliedig** y personél hynny yn y Cyngor Lletya y disgwylia'r Cyngor Lletya yn rhesymol iddynt fod yn Weithwyr sy'n Trosglwyddo.

Golyga’r **Cyngor Lletya Olynol** unrhyw Awdurdod Cyfansoddol perthnasol sy'n darparu gwasanaethau sydd yr un peth ag unrhyw rai o Wasanaethau'r Cyngor Lletya (yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol), neu sy'n debyg iawn, yn dilyn terfynu neu ddiwedd y Cytundeb hwn neu derfynu darpariaeth unrhyw rai o Wasanaethau'r Cyngor Lletya gan y Cyngor Lletya.

Golyga **Personél y Cyngor Lletya** yr unigolion a gyflogir gan y Cyngor Lletya neu sy'n gysylltiedig ag ef, neu unrhyw un arall wrth ddarparu Gwasanaethau'r Cyngor Lletya dan y Cytundeb hwn o bryd i'w gilydd.

Golyga **Gwasanaethau'r Cyngor Lletya** y gwasanaethau i'w darparu gan y Cyngor Lletya dan y Cytundeb hwn fel y disgrifir yn fanylach yng nghymal 7.

Golyga **Costau Diswyddo** unrhyw dâl rhybudd (yn cynnwys tâl yn lle rhybudd), tâl gwyliau a thaliadau diswyddo statudol a/neu dan gontract.

Golyga **Is-Gontractwr** unrhyw un y gellir is-gontractio’r gwaith o ddarparu unrhyw rai o Wasanaethau’r Cyngor Lletya iddo gan y Cyngor Lletya.

Golyga **Dyddiad Trosglwyddo Dilynol** y dyddiad pryd bydd cyfrifoldeb am ddarparu Gwasanaethau'r Cyngor Lletya, neu unrhyw ran o Wasanaethau'r Cyngor Lletya, yn trosglwyddo o'r Cyngor Lletya i’r Cyngor Lletya Olynol.



DRAFFT

Golyga **Gweithiwr sy'n Trosglwyddo** unigolyn y mae ei gontract cyflogaeth yn weithredol o'r Dyddiad Trosglwyddo Dilynol ac wedi hynny, drwy weithredu TUPE, fel pe bai'r gwreiddiol wedi'i wneud rhwng yr unigolyn hwnnw a'r Cyngor Lletya Olynol.

**2 DIM TROSGLWYDDO WRTH GYCHWYN**

2.1 Mae'r Awdurdodau Cyfansoddol yn cytuno na fydd cychwyn y Cytundeb hwn na gweithredu unrhyw rai o'r trefniadau a gynhwysir o'i fewn yn arwain at "drosglwyddiad perthnasol" o fewn ystyr TUPE ar y Dyddiad Cychwyn neu tua'r adeg honno.

**3 GWYBODAETH I WEITHWYR AM DERFYNU**

3.1 Yn amodol ar Ddeddfwriaeth Diogelu Data, yn ystod y cyfnod o ddeuddeg mis yn arwain at ddiwedd y Cytundeb hwn, neu unrhyw bryd wedi i'r Cyngor Lletya roi rhybudd i dynnu'n ôl o'r Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd neu unrhyw bryd ar ôl i'r Cyngor Lletya roi'r gorau i ddarparu unrhyw rai o Wasanaethau'r Cyngor Lletya:

a) bydd y Cyngor Lletya yn datgelu i'r Cyngor Lletya Olynol fanylion am nifer, oed ac amodau a thelerau cyflogaeth yn ymwneud ag unrhyw Bersonél y Cyngor Lletya a glustnodwyd i ddarparu Gwasanaethau'r Cyngor Lletya neu unrhyw ran o Wasanaethau'r Cyngor Lletya, a hynny o fewn 28 diwrnod i gais rhesymol gan Gyngor Lletya Olynol;

b) ni fydd y Cyngor Lletya ac, os yw'n berthnasol, bydd yn nodi na fydd unrhyw Is-Gontractwr yn amrywio amodau a thelerau cyflogaeth neu ymglymiad yn faterol unrhyw Bersonél Cyngor Lletya, ac eithrio yn ystod busnes arferol, nac yn adleoli, yn disodli nac yn diswyddo unrhyw Bersonél Cyngor Lletya, nac yn cyflogi nac yn ymglymu unrhyw unigolyn ychwanegol wrth ddarparu Gwasanaethau'r Cyngor Lletya, heb dderbyn caniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan Gyngor Lletya Olynol (ni ddylai'r caniatâd hwn gael ei ddal yn ôl na'i oedi'n afresymol).

**4 ENILLION**

Bydd yr holl daliadau pae, cyflog, bonws a chomisiwn, cyfraniadau i gynlluniau pensiwn, hawl i dâl gwyliau ac unrhyw enillion eraill (p'un ai'n rhai ariannol neu fel arall), cyfraniadau treth ac yswiriant gwladol yn ymwneud â'r Gweithwyr sy'n Trosglwyddo yn cael eu talu neu eu hysgwyddo gan y Cyngor Lletya (neu Is-gontractwr) yng nghyswllt y cyfnod cyn y Dyddiad Trosglwyddo Dilynol (a bydd y Cyngor Lletya yn cael y taliadau hyn gan unrhyw Is-gontractwr) a chan y Cyngor Lletya Olynol wedi hynny (a bydd yr Awdurdodau Cyfansoddol yn cael taliad o'r fath gan unrhyw Gyngor Lletya Olynol), a gwneir yr holl ddosraniadau angenrheidiol.



DRAFFT

## 5 CYDYMFFURFIO AC INDEMNIAD

5.1 Bydd y Cyngor Lletya a/neu, os yw'n berthnasol, bydd yn nodi y bydd unrhyw Is-Gontractwr yn:

a) cydymffurfio â'i/â'u rhwymedigaethau i roi gwybod i'r Gweithwyr sy'n Trosglwyddo Disgwyliedig, ac yn ymgynghori â nhw, yn unol â Rheoliad 13 TUPE;

b) gwneud ymdrechion rhesymol i gytuno gyda'r Darparwr Gwasanaeth Olynol ac yn cyflwyno datganiad ar y cyd addas i'r Gweithwyr sy'n Trosglwyddo Disgwyliedig cyn y Dyddiad Trosglwyddo Dilynol, ynghylch y bwriad i drosglwyddo eu cyflogaeth i'r Cyngor Lletya Olynol ar y Dyddiad Trosglwyddo Dilynol; ac yn

c) rhoi mynediad i weithwyr y Cyngor Lletya Olynol i'r Gweithwyr sy'n Trosglwyddo Disgwyliedig cyn y Dyddiad Trosglwyddo Disgwyliedig fel y gallai'r Cyngor Lletya Olynol fod ei angen yn rhesymol er dibenion ymgynghori neu weithredu trosglwyddiad effeithiol Gwasanaethau'r Cyngor Lletya a'r Gweithwyr sy'n Trosglwyddo o'r Dyddiad Trosglwyddo Dilynol.

5.2 Bydd y Cyngor Lletya yn indemnio ac yn parhau i indemnio'r Cyngor Lletya Olynol yn erbyn yr holl ac unrhyw gostau, treuliau, atebolrwydd, iawndal a cholledion a ddaw yn sgil neu yng nghyswllt unrhyw hawliad, gorchymyn neu gamau gweithredu a wneir neu a ddygir yn erbyn y Cyngor Lletya Olynol yng nghyswllt:

a) cyflogi neu derfynu cyflogaeth unrhyw Weithiwr sy'n Trosglwyddo yn ystod y cyfnod rhwng y Dyddiad Trosglwyddo Dilynol; neu

b) methiant neu fethiant honedig y Cyngor Lletya i gydymffurfio â'i rwymedigaethau dan Reoliad 13 TUPE, ac eithrio i'r graddau bod unrhyw fethiant neu fethiant honedig o'r fath o ganlyniad i fethiant gan y Cyngor Lletya Olynol i gydymffurfio â'i rwymedigaethau dan Reoliad 13(4) TUPE.

5.3 Os gwneir hawliad neu honiad gan unrhyw un nad yw'n Weithiwr sy'n Trosglwyddo ("**Gweithiwr sy'n Trosglwyddo heb ei Ddatgelu**") y mae ei gontract cyflogaeth wedi'i weithredu, neu y dylai fod wedi'i weithredu fel pe bai wedi'i wneud yn wreiddiol rhyngddo ef a'r Cyngor Lletya Olynol drwy weithredu neu honiad o weithredu TUPE:

a) bydd y Cyngor Lletya Olynol yn rhoi gwybod i'r Cyngor Lletya yn ysgrifenedig cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol am unrhyw hawl neu honiad o'r fath ac yna bydd y Cyngor Lletya Olynol yn caniatáu i'r Cyngor Lletya (neu unrhyw Is-gontractwr perthnasol) gael cyfnod o 10 diwrnod gwaith i ymgynghori gydag unrhyw Weithiwr sy'n Trosglwyddo heb ei Ddatgelu ynghylch ei hawliad neu ei honiad;



DRAFT

b) Bydd y Cyngor Lletya Olynol yn cydweithredu neu'n rhoi cymorth i'r Cyngor Lletya (neu unrhyw Is-gontractwr perthnasol) y gall y Cyngor Lletya (neu'r Is-gontractwr perthnasol) fod eu hangen yn rhesymol;

c) os, yn dilyn y cyfnod o 10 diwrnod gwaith y cyfeiriwyd ato ym mharagraff 4.3(a) uchod, yw unrhyw Weithiwr sy'n Trosglwyddo heb ei Ddatgelu yn parhau i honni fod ei gontract cyflogaeth wedi'i weithredu neu dylai fod wedi'i weithredu fel pe bai wedi'i wneud yn wreiddiol rhyngddo ef a’r Cyngor Lletya Olynol, gall y Cyngor Lletya Olynol, o fewn cyfnod pellach o 20 diwrnod gwaith (neu gyfnod tebyg arall fel y cytunir yn ysgrifenedig rhwng y Cyngor Lletya a’r Cyngor Lletya Olynol), gyflwyno rhybudd i derfynu cyflogaeth neu gyflogaeth honedig y Gweithiwr sy'n Trosglwyddo heb ei Ddatgelu a hynny ar unwaith; a

d) yn amodol ar gydymffurfiaeth y Cyngor Lletya Olynol â pharagraff 5.3, bydd y Cyngor Lletya yn indemnio a pharhau i indemnio’r Cyngor Lletya Olynol yn erbyn yr holl ac unrhyw gostau, treuliau, atebolrwydd, iawndal a cholledion a ddaw yn sgil neu yng nghyswllt unrhyw hawliad, gorchymyn neu gamau gweithredu a wneir neu a ddygir gan unrhyw Weithiwr sy'n Trosglwyddo heb ei Ddatgelu yng nghyswllt unrhyw symiau a dalwyd neu sy'n daladwy i Weithiwr sy'n Trosglwyddo heb ei Ddatgelu hyd at ddyddiad terfynu cyflogaeth neu gyflogaeth honedig Gweithiwr sy'n Trosglwyddo heb ei Ddatgelu, ac yng nghyswllt unrhyw derfynu o'r fath.

5.4 Bydd y Cyngor Lletya Olynol yn indemnio ac yn parhau i indemnio'r Cyngor Lletya (ar ei gyfer ei hun ac ar gyfer unrhyw Is-gontractwyr) yn erbyn yr holl ac unrhyw gostau, treuliau, atebolrwydd, iawndal a cholledion a ddaw yn sgil neu yng nghyswllt unrhyw hawliad, gorchymyn neu gamau gweithredu a wneir neu a ddygir:

a) gan unrhyw Weithiwr sy'n Trosglwyddo yng nghyswllt unrhyw weithred neu esgeulustod gan y Cyngor Lletya Olynol ar neu ar ôl y Dyddiad Trosglwyddo Dilynol a/neu yng nghyswllt unrhyw ddigwyddiadau neu amgylchiadau yn ymwneud â chyflogi neu derfynu cyflogaeth unrhyw Weithiwr sy'n Trosglwyddo sy'n digwydd neu sy'n codi ar y Dyddiad Trosglwyddo Dilynol neu ar ôl hynny;

b) yng nghyswllt unrhyw fethiant neu fethiant honedig y Cyngor Lletya Olynol i gydymffurfio â'i rwymedigaeth dan Reoliad 13 TUPE; neu

c) yng nghyswllt unrhyw newid sylweddol a wneir neu a gynigir gan y Cyngor Lletya Olynol yn amodau gwaith unrhyw Weithiwr sy'n Trosglwyddo, neu unrhyw unigolyn a fyddai wedi bod yn Weithiwr sy'n Trosglwyddo ond mae ei gyflogaeth wedi'i derfynu cyn y Dyddiad Trosglwyddo Dilynol, os yw'r newid hwnnw er colled i'r Gweithiwr(wyr) sy'n Trosglwyddo neu unigolyn(ion) hynny.



DRAFFT

## 6 COSTAU DISWYDDO

6.1 Bydd yr Awdurdodau Cyfansoddol yn indemnio ac yn parhau i indemnio'r Cyngor Lletya (ar ei gyfer ei hun ac ar gyfer unrhyw Is-gontractwyr) ar sail ar y cyd ac amryw, yn erbyn yr holl ac unrhyw Gostau Diswyddo a ddaw yn sgil neu yng nghyswllt unrhyw hawliad, gorchymyn neu gamau gweithredu a wneir neu a ddygir yn erbyn y Cyngor Lletya (neu Is-gontractwr) a ddaw yn sgil neu yng nghyswllt terfynu neu honiad o derfynu cyflogaeth unrhyw Bersonél Cyngor Lletya drwy ddiswyddo o fewn chwe mis i'r Dyddiad Trosglwyddo Dilynol, ble nad yw cyflogaeth personél y Cyngor Lletya yn trosglwyddo i'r Cyngor Lletya Olynol (dan TUPE neu fel arall) ar stopio darparu unrhyw neu holl Wasanaethau Cyngor Lletya, a bwrw bod y Cyngor Lletya, neu'n cael unrhyw Is-gontractwr, i wneud pob ymdrech i:

a) liniaru swm unrhyw Gostau Diswyddo o'r fath;

b) chwilio am gyflogaeth amgen o fewn sefydliad y Cyngor Lletya (neu, os yw'n berthnasol, yr Is-gontractwr), ac os yw ar gael, ei chynnig i unrhyw Bersonél y Cyngor Lletya sydd mewn perygl o gael ei ddiswyddo neu bydd yn rhoi cyfle rhesymol i Bersonél y Cyngor Lletya hwnnw dderbyn unrhyw gynnig o'r fath o gyflogaeth amgen cyn terfynu cyflogaeth Personél y Cyngor Lletya hwnnw; ac i

c) gydymffurfio ag unrhyw rwymedigaethau statudol perthnasol.

DRAFT

[*Mewnosod cymalau gweithredu]*]

DRAFFT